Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Chwefror 2024




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Chwefror 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Huw Irranca Davies AS**
Llafur Cymru



**Laura Anne Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... 5

**Casgliadau ac Argymhellion** ..... 7

**1. Cyflwyniad** ..... 14

**2. Trosolwg a Chyd-destun Economaidd** ..... 25

**3. Naratif a Chyflwyno'r Gyllideb** ..... 40

**4. Ysgogiadau Cyllidol** ..... 57

**5. Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cyhoeddus** ..... 76

**6. Cymorth gyda chostau byw** ..... 100

**Atodiad 1: Rhestr o Sesiynau Tystiolaeth Lafar.** ..... 120

**Atodiad 2: Rhestr o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig** ..... 122

# Rhagair y Cadeirydd

Fel Pwyllgor, rydym yn llwyr ymwybodol bod hon yn gyllideb anodd i’w gwneud.

Mae heriau allweddol ansicrwydd economaidd byd-eang a chyllid yn erydu mewn termau real yn sgil pwysau chwyddiant wedi dylanwadu’n sylweddol ar benderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r Pwyllgor yn ddall i'r ffactorau hyn, ond ni ddylent guddio'r dewisiadau sydd wedi'u gwneud nac esgusodi Llywodraeth Cymru rhag cael ei dwyn i gyfrif dros y penderfyniadau a wnaed.

Yn anffodus, gwelsom wendidau mewn sawl maes allweddol yn y Gyllideb Ddrafft sy'n bwrw amheuaeth ynghylch a yw'n cyflawni prif amcanion y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

Noda Llywodraeth Cymru fod y Gyllideb Ddrafft hon yn diogelu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl Cymru. Mae hyn yn ganmoladwy ond cawsom dystiolaeth bwerus gan y rhai yn y rheng flaen a heriodd yr honiad hwn.

Yn benodol, gwelsom fod maint y pwysau ar wasanaethau cyhoeddus mor sylweddol fel bod rhai gwasanaethau cyhoeddus craidd, yn enwedig y rhai a ddarperir gan awdurdodau lleol, yn wynebu diffygion difrifol ac y byddant yn ei chael hi'n anodd gweithredu gyda'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn honni y bydd y Gyllideb Ddrafft yn sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n dioddef fwyaf. Fodd bynnag, clywsom dystiolaeth fod y gwrthwyneb yn fwy tebygol, o ystyried y bydd penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru yn cael effaith anghymesur ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Yn gryno, mae’r gefnogaeth i'r rhai sy'n delio ag effeithiau’r argyfwng costau byw wedi aros yn yr unfan pan fo'r angen am wasanaethau o'r fath yn fwy nag erioed.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn sôn am gymryd camau yn y Gyllideb Ddrafft i atal yr effaith waethaf ar wasanaethau.

Unwaith eto, prin iawn oedd y dystiolaeth i gefnogi hyn, a gwelwyd diffyg meddwl strategol o fewn y Gyllideb Ddrafft ynghylch ariannu mesurau ataliol yn y tymor hir. Dywedodd nifer o gyfranwyr wrthym fod tuedd yn dod i'r amlwg o ran symud cyllid oddi wrth waith atal er mwyn ariannu nod datganedig Llywodraeth Cymru o

ddiogelu gwasanaethau rheng flaen gymaint â phosibl, sef datblygiad a oedd yn destun pryder mawr inni o ran cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus.

Drwy gydol ein gwaith craffu, gwelsom hefyd y gallai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach wrth egluro effaith penderfyniadau i ailflaenoriaethu cyllid, yn benodol maint y toriadau arfaethedig; y gwasanaethau na fyddant ar gael mwyach; a'r prosiectau na allant fynd yn eu blaen. Fel Pwyllgor, ein gwaith ni yw deall y manylion hyn ac roedd hyn yn anoddach nag y dylai fod.

Nid ydym yn argyhoeddedig bod gan Lywodraeth Cymru strategaeth glir ar waith i nodi disgwyliadau mewn perthynas â'r cyllid ychwanegol y mae wedi'i ddyrannu. Mae hyn yn destun pryder penodol yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol, lle na all Llywodraeth Cymru fforddio rhoi arian i wasanaethau heb osod disgwyliadau clir ynghylch sut y caiff ei ddefnyddio a sut y mae'n monitro canlyniadau yn erbyn gwariant ariannol.

Mae'r adroddiad hwn yn benllanw gwaith a ddechreuodd gyda sesiynau ymgysylltu'r Pwyllgor cyn y gyllideb ym mis Mehefin 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi clywed tystiolaeth bwerus ac rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i siarad â ni ac i fynegi eu barn. Mae'r rhain wedi helpu i lywio ein hystyriaeth o gynigion Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn allweddol wrth lunio ein casgliadau a'n hargymhellion.

Mater i'r Gweinidog bellach yw ystyried y safbwyntiau hyn er mwyn manteisio i'r eithaf ar y gyllideb hon.



**Peredur Owen Griffiths AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

# Casgliadau ac Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi papurau tystiolaeth gweinidogion ar yr un pryd â'r Gyllideb Ddrafft er mwyn rhoi eglurder ar y meini prawf a'r blaenoriaethau sy'n sail i benderfyniadau gweinidogion, gyda'r nod o alluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses graffu yn fwy effeithiol ac yn gynharach yn y broses. ........................................................ Tudalen 24

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, os caiff y Gyllideb Ddrafft ei gohirio eto yn y dyfodol:

- bod y Gweinidog a'r swyddogion yn parhau i fynd i sesiwn cyn craffu ar y gyllideb gyda'r Pwyllgor Cyllid; a
- bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i nodi dulliau gweithredu a all wella cyfleoedd craffu, gan gynnwys darparu dogfennaeth sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft yn gynharach. ........................................................................................................................................ Tudalen 24

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Trysorlys yn ystyried prosesau cyllidebol datganoledig wrth bennu dyddiadau ar gyfer digwyddiadau cyllidol yn San Steffan yn y dyfodol, a'i fod yn cyhoeddi dyddiadau'r digwyddiadau hynny ymhellach ymlaen llaw, er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gynllunio a chyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft yn gynharach yn y flwyddyn. ......................... Tudalen 24

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi gwybodaeth ynghylch sut a pham y mae mynegeion gwahanol yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i fesur effaith chwyddiant ar ei sefyllfa gwariant ochr yn ochr â chyllidebau a chyllidebau atodol, os yw Llywodraeth Cymru yn gwneud dyraniadau yn ystod y flwyddyn oherwydd pwysau chwyddiant, er mwyn sicrhau eglurder ar newidiadau i gyllid mewn termau real y mae'n eu hwynebu. ........................................................................................................................................ Tudalen 38

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am effaith chwyddiant ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir eisoes ar gam y gyllideb derfynol a'r gyllideb atodol, er mwyn galluogi'r Senedd i graffu ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru i liniaru pwysau o'r fath. ........................................................................................................................................ Tudalen 39

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei chyllideb atodol yn gynt wrth wneud newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn yn y dyfodol y tu allan i amserlenni arferol y gyllideb atodol, er mwyn gwella tryloywder a sicrhau bod y Senedd yn cael y gair olaf ar benderfyniadau gwariant o'r fath. .......... Tudalen 39

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn galw am yr hyblygrwydd mwyaf posibl o fewn y Fframwaith Cyllidol i ddileu'r terfynau tynnu i lawr blynyddol o Gronfa Wrth Gefn Cymru, a chynyddu maint y terfynau benthyca a Chronfa Wrth Gefn Cymru fel ei gilydd, o leiaf yn unol â chwyddiant, o ystyried bod gwerth y rhain mewn termau real wedi'i erydu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.......... Tudalen 39

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i roi trosolwg o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd yn erbyn ei phroffiliau gwariant, er mwyn deall effaith newidiadau yn ystod y flwyddyn, mewn amser real, ar gyllidebau adrannol.......... Tudalen 39

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am ble mae cyllid yn cael ei ailflaenoriaethu yn y Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys:

- manylion yr holl feysydd sydd heb eu datganoli, y mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu cyllido; ac
- esboniad o pam y mae'r galw yn llai mewn rhai meysydd ac effaith hyn o ran y gyllideb.......... Tudalen 55

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad pellach o effaith ei chyllideb ar feysydd y gellir ystyried eu bod yn rhai ataliol eu natur. .......... Tudalen 55

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am sut y bydd y cynllun peilot atal yn cael ei gymhwyso ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru, ac yn gweithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol, i ddarparu data ystyrlon i nodi'r duedd o ran atal dros flynyddoedd.
.......... Tudalen 55

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnwys gwybodaeth mewn Asesiadau Effaith Integredig Strategol o hyn ymlaen i egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y pum ffordd o weithio o fewn Deddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wneud penderfyniadau cyllidebol. ........ Tudalen 55

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi manylion yr adolygiad y bydd yn ei gynnal o Gynllun Gwella'r Gyllideb a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, gan gynnwys aelodaeth y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, cylch gorchwyl yr adolygiad, manylion unrhyw ymgyngoriadau a gynhaliwyd ac amserlenni cysylltiedig. ........ Tudalen 55

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi'r ddau gynllun peilot ar gyllidebu ar sail rhywedd sy'n weddill ac yn gweithio ar y cyd â Grŵp Cyllideb Menywod Cymru / y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod i brif ffrydio cyllidebu ar sail rhywedd ar draws Llywodraeth Cymru. ........ Tudalen 55

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn ymrwymo i fonitro tueddiadau ym maint addasiadau i'r grant bloc dros amser; ac
- yn defnyddio data o'r fath i ystyried a ellid gwneud newidiadau i'r broses o wneud cysoniadau drwy addasiadau i'r grant bloc, er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gael mynediad cyflymach at unrhyw gynnydd yn ei chyllid ........ Tudalen 74

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac Awdurdod Cyllid Cymru i sicrhau bod ei brosesau ar gyfer casglu a rhannu data peidio â chydymffurfio cyhoeddus sy'n ymwneud â'r dreth gwarediadau tirlenwi yn addas at y diben, ac yn rhoi sicrwydd na fydd problemau yn y maes hwn yn parhau. ........ Tudalen 74

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf erbyn toriad yr haf ar drafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth yr Alban, Comisiwn Cyllidol yr Alban, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ynghylch data a datblygiadau dadansoddol sy'n ymwneud â threthiant ledled y DU, ac yn darparu asesiad ynghylch a oes lle i wella pwerau trethiant presennol Llywodraeth Cymru yn sgil unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd. ........ Tudalen 74

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y cynlluniau cyfalaf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni yn 2024-25 yn nogfennaeth ei chyllideb derfynol, gan gynnwys manylion prosiectau

sydd wedi'u hailflaenoriaethu, eu cwtogi neu eu hailbroffilio dros nifer o flynyddoedd yn sgil y cyfyngiadau cyllidebol yn y maes hwn. ........................ Tudalen 75

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud y mwyaf o fuddsoddiadau cyfalaf drwy weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu amgylchedd galluogi a fyddai'n caniatáu i lywodraeth leol ddefnyddio ei phwerau benthyca darbodus i hybu capasiti o fewn ei chyllidebau cyfalaf. ............... Tudalen 75

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw'r Trysorlys wedi cytuno ar gais Llywodraeth Cymru i newid cyllid o gyfalaf yn refeniw, ac yn rhoi gwybodaeth i egluro'r effaith gyllidebol os caiff y cais hwn ei wrthod, gan gynnwys manylion prosiectau, polisïau a mentrau unigol y byddai hynny'n effeithio arnynt. ........................................... Tudalen 75

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnwys penderfyniadau a dogfennaeth sy'n ymwneud â dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol a chyffredinol fel rhan o ddogfennaeth y Gyllideb Ddrafft yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod cyfle i graffu ar gynlluniau fel rhan o'r broses graffu ar y Gyllideb Ddrafft. ........................................................................................................ Tudalen 75

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth i egluro sut y mae'r Gyllideb Ddrafft yn diogelu gwasanaethau rheng flaen craidd a ariennir ac a ddarperir gan awdurdodau lleol, yn enwedig o ran gofal cymdeithasol ac addysg. ............................................................................ Tudalen 98

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn cyhoeddi gwybodaeth am y canlyniadau y mae'n disgwyl i sefydliadau'r GIG eu cyflawni gyda'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer 2024-25 a'r blynyddoedd dilynol, fel y gellir craffu arnynt ochr yn ochr â dyraniadau cyllid;
- yn cynnal asesiad o'r canlyniadau ar gyfer GIG Cymru, i sicrhau eu bod yn fesuradwy ac y gellir eu monitro'n effeithiol; ac
- yn cyhoeddi'r dyraniadau i Fyrddau Iechyd Lleol bob blwyddyn, ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth arall a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru megis canllawiau cynllunio gweithredol, ar yr un pryd ag y cânt eu rhannu â'r sector. ............................................................................ Tudalen 98

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am yr allbynnau y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i

wasanaethau gofal cymdeithasol ac addysgol rheng flaen eu cyflawni ar gyfer y cyllid a ddarperir, a sut y bydd yn monitro effeithiau ei phenderfyniadau cyllido ar wasanaethau'n ehangach. ........ Tudalen 98

**Argymhelliad 25.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y cyllid a ddarparwyd yn 2023-24, gan gynnwys y dyraniadau yn ystod y flwyddyn, i fynd i'r afael â phwysau COVID-19 ar wasanaethau'r GIG a sut y penderfynwyd ar y rhain, yn ogystal â chadarnhau'r cymorth a ddarparwyd at y diben hwnnw yn y Gyllideb Ddrafft. ........ Tudalen 98

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu Gofal Iechyd Parhaus, gan gynnwys ystyried:

- y meini prawf cymhwystra a sut y cânt eu dehongli a'u cymhwyso i sicrhau bod gofal yn cael ei asesu'n briodol fel gofal iechyd ynteu gofal cymdeithasol; a
- sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ynghyd â'r costau cysylltiedig er mwyn asesu a ydynt yn parhau i ddarparu gwerth am arian i'r sectorau dan sylw........ Tudalen 99

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi sicrwydd y bydd mesurau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael eu hamddiffyn pe bai taliadau am wasanaethau'n cynyddu, fel sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. ........ Tudalen 99

**Argymhelliad 28.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn egluro pam y gwnaed gostyngiadau i'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol, o ystyried y pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu gofal cymdeithasol a'i staff, gan gynnwys asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y penderfyniad hwn........ Tudalen 99

**Argymhelliad 29.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal asesiad o'r heriau recriwtio a chadw y mae GIG Cymru a'r sector gofal cymdeithasol yn eu hwynebu a'i fod yn cyhoeddi ei ganfyddiadau. ........ Tudalen 99

**Argymhelliad 30.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal adolygiad i ddeall yr effaith y mae penderfyniadau cyllido Llywodraeth Cymru mewn perthynas â GIG Cymru yn ei chael ar bwysau gofal cymdeithasol, o ystyried bod y ddau yn anorfod yn gysylltiedig â'i gilydd. ........ Tudalen 99

**Argymhelliad 31.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y cyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24 a'r cyllid

ychwanegol ar gyfer 2024-25 ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys sut y caiff yr adnoddau eu defnyddio a'r tybiaethau a ddefnyddir i bennu'r dyraniadau, megis nifer teithwyr a ph'un a fydd angen darparu dyraniadau ychwanegol tebyg yn barhaus......Tudalen 99

**Argymhelliad 32.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn darparu amserlen ar gyfer rhoi Siarter Budd-daliadau Cymru ar waith; ac
- yn cyhoeddi cynllun gweithredu i sicrhau bod pecyn cyson o grantiau a chynlluniau cymorth ariannol yn cael ei ddarparu, yn unol ag amcanion y Siarter. ......Tudalen 118

**Argymhelliad 33.** Mewn perthynas â'r Gronfa Cymorth Dewisol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn cyhoeddi gwybodaeth am nifer y ceisiadau a gyflwynwyd a nifer y ceisiadau llwyddiannus, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl rhywedd; ac
- yn adolygu'r broses o wneud taliadau i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau......Tudalen 119

**Argymhelliad 34.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn adolygu trothwyon cymhwystra Grant Dysgu Llywodraeth Cymru; ac
- yn ystyried cynyddu gwerth y Grant......Tudalen 119

**Argymhelliad 35.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r trothwy cymhwystra ar gyfer cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd, gyda'r bwriad o'i estyn i blant y mae eu rhieni'n cael Credyd Cynhwysol...... Tudalen 119

**Argymhelliad 36.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog adolygu'r model gofal plant:

- i asesu ei effeithiolrwydd ac i sicrhau ei fod yn galluogi rhieni i gael cyflogaeth amser llawn; ac
- i sicrhau ei fod yn darparu cymorth digonol i fenywod gael mynediad at addysg bellach ac uwch......Tudalen 119

**Argymhelliad 37.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am yr effaith y gallai cynnydd yn y nifer sy’n manteisio ar ofal plant ei chael ar feysydd eraill o’r gyllideb, a’r camau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i liniaru’r risgiau hynny. ........ Tudalen 119

**Argymhelliad 38.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu’r broses o gyflwyno’r rhaglen Cartrefi Clyd i sicrhau ei bod yn cyrraedd y rhai mewn angen cyn gynted â phosibl. ........ Tudalen 119

**Argymhelliad 39.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu’r dyraniadau a ddarparwyd ar gyfer cyflenwi a datblygu tai fforddiadwy sydd wedi’u cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft. ........ Tudalen 119

**Casgliad 1.** Bydd y Pwyllgor yn parhau i weithio gyda'r Gweinidog a rhanddeiliaid eraill i adolygu Protocol Proses y Gyllideb ac i sicrhau bod prosesau cyllidebol y Senedd yn adlewyrchu arferion a ddatblygwyd yn ystod y Chweched Senedd hyd yma. ........ Tudalen 24

**Casgliad 2.** Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd sy'n ymwneud â chraffu ar y gyllideb cyn cylch cyllideb 2025-26 i gael gwell dealltwriaeth o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Gyllideb Ddrafft ac i archwilio ffyrdd o wneud y mwyaf o waith craffu cyllidebol drwy gydol y flwyddyn. ........ Tudalen 24

# 1. Cyflwyniad

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

**1.** Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn nodi cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf cyffredinol ar gyfer 2024-25, gan ddiweddaru'r cynlluniau dangosol a amlinellwyd fel rhan o gyllidebau 2022-23 a 2023-24.

**2.** Mae cyfanswm Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys y canlynol:

- Cyllid gan Lywodraeth y DU a elwir y Grant Bloc;
- Cynlluniau benthyca a defnydd o Gronfa Wrth Gefn Cymru;
- Cyfraddau Treth Incwm Cymru;
- Ardrethi annomestig; a
- Threthi sydd wedi'u datganoli'n llawn (y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi).

**3.** Gosodwyd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 ('y Gyllideb Ddrafft') gerbron y Senedd ddydd Mawrth 19 Rhagfyr 2023, ynghyd â'r dogfennau ategol a ganlyn:

- Naratif y Gyllideb Ddrafft;[1]
- Adroddiad y Prif Economegydd;[2]
- Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant datganoledig;[3]
- Adroddiad ar bolisi trethi;[4]
- Rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer trethi datganoledig Cymru;[5]

[1] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023
[2] Llywodraeth Cymru, adroddiad y Prif Economegydd
[3] Llywodraeth Cymru, Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant datganoledig
[4] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar bolisi trethi
[5] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg trethi datganoledig Cymreig

- Canllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru.[6]

**4.** Mae allbynnau eraill yn cynnwys cynllun gwella'r gyllideb,[7] llinellau gwariant yn y gyllideb,[8] tablau sy'n ategu cynlluniau gwario,[9] taflen ar y Gyllideb Ddrafft[10] a chynigion manwl (ar ffurf y cynnig cyllidebol).[11]

**5.** Mae'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn gyfrifol am ystyried y Gyllideb Ddrafft o safbwynt strategol, cyffredinol, yn unol â Rheol Sefydlog 19.[12] Mae pwyllgorau polisi unigol yn cynnal eu sesiynau tystiolaeth eu hunain er mwyn edrych yn fanwl ar y meysydd o'r Gyllideb Ddrafft sydd o fewn eu cylchoedd gwaith hwy a llunio adroddiad arnynt.


## Protocol Proses y Gyllideb

**6.** Mae Protocol Proses y Gyllideb (y Protocol) yn ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.1A[13] ac yn nodi'r trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y Gyllideb Ddrafft a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r gyllideb. Cytunodd y Senedd ar y Protocol cyfredol ar 21 Mehefin 2017.[14] Mae'n pennu y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth am y Gyllideb Ddrafft mewn dau gam:

- cynigion amlinellol sy'n dangos cynlluniau gwariant a chyllido strategol lefel uchel Llywodraeth Cymru; a'r
- Gyllideb Ddrafft fanwl, lle bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cynigion y gyllideb ar gyfer pob portffolio ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb neu lefel gyfatebol, ynghyd â naratif ategol priodol.

**7.** Fodd bynnag, dros y pum mlynedd diwethaf (gan gynnwys eleni), mae ansicrwydd ynghylch sefyllfa ariannu Llywodraeth Cymru wedi arwain at oedi o ran cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft gyda'r cynigion amlinellol a manwl yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Fel y mae'r ffeithlun a ganlyn yn ei ddangos, roedd hyn wedi arwain at broses graffu gyfyngedig yn y cylch cyllideb blynyddol:

[6] Llywodraeth Cymru, Canllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru
[7] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb
[8] Llywodraeth Cymru, llinellau gwariant yn y gyllideb
[9] Llywodraeth Cymru, Tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwario
[10] Llywodraeth Cymru, y Gyllideb Ddrafft: taflen
[11] Llywodraeth Cymru, Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25
[12] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
[13] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
[14] Protocol Proses y Gyllideb




**Allwedd:**

PAPAC = y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

**8.** Mae'r Pwyllgor wrthi'n ystyried newidiadau i'r Protocol, yn unol â chais y Pwyllgor Busnes[15] yng ngoleuni profiadau yn y Chweched Senedd hyd yma. Mae'r cynigion hyn yn destun trafodaethau ar hyn o bryd rhwng y Pwyllgor a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog).

## Ymgysylltu â'r Cyhoedd

**9.** Cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o weithgareddau ymgysylltu ym mis Mehefin 2023 i lywio ei waith craffu ar gynigion ariannu Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

[15] Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Busnes at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 2 Awst 2023

- digwyddiad allanol i randdeiliaid ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar 15 Mehefin 2023;
- gweithdy ar-lein gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru ar 29 Mehefin 2023; a
- grwpiau ffocws gyda sefydliadau ac unigolion a hwyluswyd gan Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd, a gynhaliwyd drwy gydol mis Mehefin 2023.

**10.** Mae Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023, yn crynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y sesiynau hyn.[16]

## Dadl ar Flaenoriaethau'r Gyllideb

**11.** Cynhaliwyd dadl flynyddol y Pwyllgor ar flaenoriaethau'r gyllideb ddydd Mercher 12 Gorffennaf 2023 a chafodd ei llywio gan waith ymgysylltu'r Pwyllgor, fel y nodir uchod.[17] Roedd y ddadl hon yn gyfle ffurfiol i Aelodau, ac yn arbennig i Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd, ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn iddi lunio'r Gyllideb Ddrafft yn hwyrach yn yr hydref.

**12.** Yn ystod y ddadl, amlinellodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid bum maes blaenoriaeth a nodwyd o'r sesiynau ymgysylltu:

- mae angen dulliau arloesol i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldeb;
- mae angen dulliau cydweithredol i gwrdd â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus;
- mae angen mwy o gymorth ariannol wedi'i dargedu ar gyfer y rhai sy'n astudio ac yn gweithio yn y sector addysg i wneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael;
- mae angen lefelau cynyddol o gymorth ariannol ar awdurdodau lleol yn sgil pwysau cynyddol;
- mae angen sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar fuddsoddiad sy'n gwireddu potensial ynni gwyrdd Cymru.

[16] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad ar Ymgysylltu, Gorffennaf 2023
[17] Y Cyfarfod Llawn, 12 Gorffennaf 2023

## Gwaith craffu cyn y gyllideb

**13.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu cyn y gyllideb gyda'r Gweinidog ar 13 Medi 2023.[18] Cynhaliwyd sesiwn dechnegol breifat hefyd yn ystod yr un cyfarfod â Phrif Economegydd Llywodraeth Cymru.[19] Diben y sesiwn hon oedd cael cipolwg ar y cyd-destun economaidd a chyllidol sy'n llywio proses llunio cyllideb Llywodraeth Cymru.

**14.** Cynhaliwyd sesiwn arall hefyd gyda'r Gweinidog ar 15 Tachwedd 2023[20], yng ngoleuni'r datganiad llafar a wnaed yn y Cyfarfod Llawn ar y wybodaeth ddiweddaraf am Sefyllfa Ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod 2023-24.[21]

## Ymgynghoriad

**15.** Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyn y gyllideb ar y Gyllideb Ddrafft rhwng 22 Medi a 30 Tachwedd 2023[22] ar ran holl bwyllgorau'r Senedd. Cafwyd cyfanswm o 52 o ymatebion. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y meysydd a ganlyn:

- effaith Cyllideb 2023-24 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid sy'n gysylltiedig ag adfer yn sgil y pandemig;
- effeithiolrwydd polisïau cymorth busnes Llywodraeth Cymru, o ystyried y rhagolygon economaidd ar gyfer 2024-25;
- ffyrdd y gallai/dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r economi a busnesau yn dilyn y pandemig, Brexit a chwyddiant a phwysau economaidd eraill;
- a yw sefydliadau wedi'u paratoi'n ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25;
- a ddylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i helpu aelwydydd i ymdopi â chwyddiant a'r argyfwng costau byw;
- a yw'r Gyllideb Ddrafft yn mynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol, ôl-ddiwydiannol a gwledig ac yn cefnogi economïau o fewn y cymunedau hynny;

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Medi 2023
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 13 Medi 2023
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2023
[21] Llywodraeth Cymru, Datganiad Llafar: Diweddariad ar Sefyllfa Ariannol 2023-24, 17 Hydref 2023
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Ymgynghoriad

- a yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi wyrddach yn glir ac yn ddigon uchelgeisiol;
- pa mor effeithiol yw defnydd Llywodraeth Cymru o'r mecanweithiau ariannol sydd ar gael iddi o ran benthyca a threthiant.[23]

## Yr amserlen

**16.** Ar 22 Mehefin 2023,[24] ysgrifennodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, at y Pwyllgor Busnes yn nodi amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, yn unol â'r amserlenni a bennir o dan Reol Sefydlog 20. Cynigiodd y llythyr y byddai'r cynigion drafft amlinellol a manwl:

- yn cael eu gosod gerbron y Senedd erbyn 12 Rhagfyr 2023; ac
- yn cael eu trafod ar 6 Chwefror 2024, ac y byddai'r Gyllideb Flynyddol yn cael ei gosod ar 27 Chwefror 2024 a'i thrafod ar 5 Mawrth 2024.[25]

**17.** Nododd y Pwyllgor ei fod yn hynod siomedig gyda'r amserlen hon gan esbonio bod "yr anawsterau ymarferol y mae byrhau amserlenni yn eu peri i Bwyllgorau wrth gyflawni eu swyddogaethau craffu, yn ogystal â'r pwysau y mae'n ei roi ar randdeiliaid sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ac ymgysylltu â'n gwaith, yn enwedig pan fydd tair wythnos o'r cyfnod hwnnw yn disgyn dros doriad y Nadolig".[26]

**18.** Fodd bynnag, oherwydd bod Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU wedi'i gynnal yn hwyrach na'r disgwyl, ar 22 Tachwedd 2023, cadarnhaodd y Gweinidog "[na] fydd yn bosibl mwyach inni gyhoeddi Cyllideb Ddrafft yn unol â'r amserlen a amlinellwyd yn flaenorol".[27] Roedd hyn yn golygu gohirio cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft tan ddydd Mawrth 19 Rhagfyr 2023, heb newid y dyddiadau eraill yn yr amserlen.

**19.** Yng ngoleuni hyn, ysgrifennodd y Pwyllgor at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pryd, y Gwir Anrh. John Glen AS, yn mynegi siom nad oedd y Trysorlys wedi ystyried prosesau cyllidebol y Senedd wrth bennu dyddiad Datganiad yr Hydref,

[23] Llythyr Ymgynghori oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 22 Medi 2023
[24] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at y Pwyllgor Busnes, 22 Mehefin 2023
[25] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at y Pwyllgor Busnes, 22 Mehefin 2023
[26] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 7 Gorffennaf 2023
[27] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, 12 Medi 2023

ac yn gofyn i faterion o'r fath gael eu hystyried fel rhan o drafodaethau cyllidebol yn y dyfodol.[28]

**20.** Yn ei ymateb, nododd y Prif Ysgrifennydd fod y Canghellor yn ystyried ystod eang o ffactorau wrth ystyried amseriad Datganiad yr Hydref a bod rhaid iddo gydbwyso'r ystyriaethau hyn yn erbyn ffactorau eraill wrth bennu'r amser ar gyfer digwyddiad cyllidol, sydd weithiau'n golygu nad yw hyn mor ffafriol ag a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer Llywodraeth Cymru neu Bwyllgor Cyllid y Senedd.[29] Fodd bynnag, cydnabu'r Prif Ysgrifennydd yr heriau y mae hyn yn eu cyflwyno i'r Senedd wrth graffu ar waith Llywodraeth Cymru.[30]

**21.** Codwyd effaith ymarferol yr amserlen gyfyngedig gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor. Wrth gydnabod bod "yr amserlen fer rhwng Datganiad yr Hydref a chyhoeddiad cyllideb drafft Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyfyngiadau ar yr hyn y gall Trysorlys Cymru ei gynhyrchu ochr yn ochr â'r gyllideb", mae CGGC yn awgrymu "y gellid rhannu mwy o'r wybodaeth sydd ar gael gyda'r cyhoedd".[31] Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"Fel arfer, rydym yn gweld ymatebion gweinidogion unigol yn amlinellu'r goblygiadau polisi yn eu portffolios yn ystod yr wythnosau ar ôl cyhoeddi'r gyllideb. Dylid edrych ar gyhoeddi'r ymatebion hynny ar yr un pryd â'r gyllideb ddrafft. Gallai'r ymatebion ddangos yn gliriach y meini prawf a'r blaenoriaethau y tu ôl i'r penderfyniadau. Byddai hyn, ochr yn ochr â chyhoeddi amserol, yn galluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses graffu yn fwy effeithiol."*[32]

**22.** Roedd y Gweinidog yn cydnabod y feirniadaeth[33] ar Lywodraeth Cymru am gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn ystod y toriad, ond ychwanegodd:

> *"… what most people don't appreciate is what sits behind that, that we only find out our budget in—. Well, it was 22 November this year, and that gives us very little time, really, to be able to craft a budget of over £23 billion and do all of the work that is*

[28] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, 27 Medi 2023
[29] Llythyr oddi wrth Brif Ysgrifennydd y Trysorlys at y Pwyllgor Cyllid, 11 Hydref 2023 (Saesneg yn unig)
[30] Llythyr oddi wrth Brif Ysgrifennydd y Trysorlys at y Pwyllgor Cyllid, 11 Hydref 2023 (Saesneg yn unig)
[31] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 64

*required to do that, and to assure ourselves that we've got things right, to publish the vast range of documentation that goes alongside the budget. We would absolutely love to be able to do it earlier, but three and a half weeks is, I think, the absolute bare minimum that we need to be able to craft a budget."*[34]

## Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25

**23.** Bu'r Pwyllgor yn ystyried y blaenoriaethau a'r penderfyniadau strategol cyffredinol sydd wrth wraidd y dyraniad yng nghynigion y Gyllideb Ddrafft, ynghyd â'r cynlluniau trethiant a benthyca. Bu'n gwneud hynny ar sail y cefndir o gyllid cyhoeddus a'r economi'n gyffredinol. Dull y Pwyllgor oedd canolbwyntio ar y pedair egwyddor craffu ariannol:

- Fforddiadwyedd – A yw'r darlun llawn o ran cyfanswm refeniw a gwariant yn gytbwys?
- Blaenoriaethu – A yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol ac y gellir ei chyfiawnhau?
- Gwerth am arian – A yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda - yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol?
- Proses y gyllideb – A yw'n effeithiol ac yn hygyrch? A oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

**24.** Ysgrifennodd y Cadeirydd at Bwyllgorau'r Senedd ar 14 Tachwedd 2023[35] gan nodi bod gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn debygol o ganolbwyntio ar yr argyfwng costau byw, costau ynni cynyddol a chwyddiant uchel.

## Barn y Pwyllgor

**25.** Mae'r Pwyllgor yn nodi mai hon yw'r bumed flwyddyn yn olynol na ddefnyddiwyd y broses gyllidebol dau gam y darperir ar ei chyfer ym Mhrotocol Proses y Gyllideb[36] fel sail ar gyfer craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Fel yr ydym wedi'i nodi yn flaenorol ac yn gyson; mae hyn yn anfoddhaol iawn. Mae'n niweidiol i allu

[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 64
[35] Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd, 14 Tachwedd 2023
[36] Protocol Proses y Gyllideb

holl bwyllgorau'r Senedd i ymgysylltu'n ystyrlon â rhanddeiliaid ar faterion o bwys sylfaenol, ond mae hefyd yn rhwystr i waith craffu effeithiol, yn enwedig wrth ddeall gwir effaith penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru ar y bobl yr effeithir arnynt fwyaf gan hyn.

**26.** Serch hynny, mae'r Pwyllgor wedi cymryd camau i liniaru'r heriau a berir gan amserlen cyllideb dynn, gan adeiladu ar waith y mae wedi'i wneud ers dechrau'r Senedd hon, gyda'r bwriad o ddarparu cymaint o gyfleoedd â phosibl i randdeiliaid lywio ystyriaeth y Senedd o'r Gyllideb Ddrafft. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwaith ymgysylltu yn gynnar yn y flwyddyn ariannol; cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran y gyllideb cyn toriad yr haf; cynnal sesiynau tystiolaeth cyn y gyllideb gyda'r Gweinidog ar ddechrau tymor yr hydref; a chyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus cyn y gyllideb.

**27.** Mae'r ymarferion hyn wedi llywio gwaith craffu'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 i raddau helaeth, ac mae llawer o'r themâu a'r blaenoriaethau a nodwyd mor gynnar â mis Mehefin y llynedd yn dal i fod yn wir ac wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar nifer o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn. Felly, rydym yn hynod ddiolchgar i'r rhai sydd wedi cymryd yr amser i ymgysylltu â ni, naill ai drwy fynychu digwyddiad neu grŵp ffocws neu drwy gyflwyno ymateb ysgrifenedig. Fel Pwyllgor, credwn fod y safbwyntiau a fynegir yn hanfodol i ddod â materion 'ar lawr gwlad' i'n sylw. Mae hyn, yn ei dro, yn gwella ein gallu i ddwyn penderfyniadau Llywodraeth Cymru i gyfrif ac i wneud argymhellion ystyrlon.

**28.** Mae gwaith y Pwyllgor cyn y gyllideb yn rhan gynhenid o broses cyllideb Cymru, ac rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei chefnogaeth a'r ffaith ei bod yn agored wrth ystyried newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb i adlewyrchu'r trefniadau hyn. Rydym hefyd yn croesawu galwadau gan y Pwyllgor Busnes i ystyried diweddaru gweithdrefnau cyllideb y Senedd yng ngoleuni profiadau'r Chweched Senedd hyd yma, ac edrychwn ymlaen at barhau â thrafodaethau o'r fath gyda'r Gweinidog, gyda'r nod o sicrhau bod ein gweithdrefnau ariannol yn adlewyrchu arferion cyfredol.

**29.** Er gwaethaf y datblygiadau cadarnhaol hyn, nid ydynt yn cymryd lle gwaith craffu manwl ac mae hyn yn parhau i fod yn anodd o ganlyniad i'r ffaith nad oes llawer o wythnosau gwaith ar gael i graffu ar y Gyllideb Ddrafft. Mae darparu ychydig dros bedair wythnos waith i graffu ar gyllideb o dros £23 biliwn yn creu heriau ymarferol a strategol enfawr. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gallu Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn gynt yn ddibynnol iawn ar ddyddiad datganiad yr hydref Llywodraeth y DU, a bod y ffaith ei bod yn hwyr yn

2023 wedi peri heriau penodol ar gyfer paratoi'r gyllideb a'r dogfennau cysylltiedig.

**30.** Mae'r Pwyllgor o’r farn y gallai'r Trysorlys wneud mwy i sicrhau bod dyddiad ei ddatganiad yr hydref yn ystyried prosesau cyllidebol datganoledig, ac rydym wedi ysgrifennu[37] at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i fynegi'r safbwyntiau hynny. Fodd bynnag, rydym hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cymryd camau pellach i ddarparu gwybodaeth am benderfyniadau cyllidebol yn gynt, a hynny er mwyn i bwyllgorau fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i graffu a gwella canlyniadau.

**31.** Mae’r cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru o'i phenderfyniad i leihau rhyddhad ardrethi annomestig i fusnesau (a ystyrir yn fanylach ym Mhennod 4) yn enghraifft o hyn, gan fod yr amserlen gyfyngedig yn ei gwneud bron yn amhosibl i bwyllgorau ymgysylltu'n ystyrlon â'r rhai y mae hyn fwyaf tebygol o effeithio arnynt.

**32.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi tystiolaeth a ddaeth i law gan CGGC sy'n awgrymu y dylid ystyried cyhoeddi ymatebion gweinidogol unigol ar yr un pryd â'r Gyllideb Ddrafft, ac yn cytuno bod rhinweddau i'r dull hwn. Yn dilyn adroddiad y llynedd, gwnaethom ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar y Gyllideb Ddrafft.[38] Mae’r Pwyllgor yn croesawu trafodaethau ar y materion hyn a hoffai barhau â'r dull hwn ar gyfer cylch cyllideb 2025-26, yn enwedig o gofio bod posibilrwydd y bydd yr amserlenni’n fyrrach eto y flwyddyn nesaf. Nod hyn fyddai archwilio cyfleoedd i bwyllgorau graffu ar y gyllideb, a hynny o fewn a thu allan i ffenestr graffu y Gyllideb Ddrafft, heb amharu ar annibyniaeth pwyllgorau unigol i benderfynu ar feysydd ffocws â blaenoriaeth. Mae hwn yn parhau i fod yn faes o ddiddordeb i'r Pwyllgor wrth i ni geisio gwella'r ffordd y rhennir gwybodaeth am faterion cyllidebol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd ar adeg cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

**33.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y gallai fod hyd yn oed mwy o ansicrwydd ynghylch Cyllideb Ddrafft nesaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, o gofio nad oes ffigurau dros dro gan Lywodraeth y DU o ran cyllid ar gyfer 2025-26 a disgwylir Etholiad Cyffredinol y DU yn ail hanner 2024 ar hyn o bryd. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i randdeiliaid fwydo i mewn i'r broses o bennu’r gyllideb ac mae'n galw ar y Gweinidog i roi sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phwyllgorau'r Senedd yn ystod y cam cyn y gyllideb.

[37] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, 27 Medi 2023
[38] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Gadeiryddion y Pwyllgorau, 8 Mawrth 2023

**Casgliad 1.** Bydd y Pwyllgor yn parhau i weithio gyda'r Gweinidog a rhanddeiliaid eraill i adolygu Protocol Proses y Gyllideb ac i sicrhau bod prosesau cyllidebol y Senedd yn adlewyrchu arferion a ddatblygwyd yn ystod y Chweched Senedd hyd yma.

**Casgliad 2.** Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd sy'n ymwneud â chraffu ar y gyllideb cyn cylch cyllideb 2025-26 i gael gwell dealltwriaeth o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Gyllideb Ddrafft ac i archwilio ffyrdd o wneud y mwyaf o waith craffu cyllidebol drwy gydol y flwyddyn.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi papurau tystiolaeth gweinidogion ar yr un pryd â'r Gyllideb Ddrafft er mwyn rhoi eglurder ar y meini prawf a'r blaenoriaethau sy'n sail i benderfyniadau gweinidogion, gyda'r nod o alluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses graffu yn fwy effeithiol ac yn gynharach yn y broses.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, os caiff y Gyllideb Ddrafft ei gohirio eto yn y dyfodol:

- bod y Gweinidog a'r swyddogion yn parhau i fynd i sesiwn cyn craffu ar y gyllideb gyda'r Pwyllgor Cyllid; a
- bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i nodi dulliau gweithredu a all wella cyfleoedd craffu, gan gynnwys darparu dogfennaeth sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft yn gynharach.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Trysorlys yn ystyried prosesau cyllidebol datganoledig wrth bennu dyddiadau ar gyfer digwyddiadau cyllidol yn San Steffan yn y dyfodol, a'i fod yn cyhoeddi dyddiadau'r digwyddiadau hynny ymhellach ymlaen llaw, er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gynllunio a chyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft yn gynharach yn y flwyddyn.

# 2. Trosolwg a Chyd-destun Economaidd

**34.** Mae'r cyd-destun economaidd presennol wedi dwysau'r heriau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu wrth baratoi ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25. Mae'r canlynol ymhlith y ffactorau allweddol:

- Twf araf iawn ar gyfer gwariant economaidd a chyhoeddus y DU, gyda disgwyl i gynnyrch domestig gros gwirioneddol gynyddu 0.7 y cant yn unig yn 2024, a 1.5 y cant ar gyfartaledd rhwng 2025 a 2028.

- Disgwylir y bydd chwyddiant[39] yn parhau i ostwng i tua 3 y cant erbyn diwedd 2024, ond yn dal i fod yn uwch na tharged 2 y cant Banc Lloegr. Amcangyfrif datchwyddydd cynnyrch domestig gros ar gyfer 2024-25 – sy'n mesur cyfradd chwyddiant domestig o fewn yr economi – yw 1.7 y cant.[40]

- At hynny, mae cyfraddau chwyddiant ystyfnig wedi lleihau pŵer prynu cynlluniau gwariant 2024-25 yn sylweddol o'u cymharu â'r rhai a osodwyd yn wreiddiol, a disgwylir i gyfraddau llog ostwng ar gyfradd arafach na chwyddiant.

- Er gwaethaf y twf cyflog mewn termau real a ddisgwylir yn 2024-25,[41] disgwylir i incwm gwario gwirioneddol aelwydydd ostwng, a ffactor allweddol yw bod cynnydd mewn taliadau llog yn drech na'r hwb i incwm o gynilion.[42]

**35.** Mae'r rhagolygon economaidd hefyd yn destun ansicrwydd sylweddol oherwydd ffactorau allanol a rhyngwladol.[43]

**36.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod pawb yn y cyfarfod yn cydnabod y sefyllfa ariannol anhygoel o anodd

---

[39] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Chwyddiant – Chwyddiant CPI, diweddarwyd ddiwethaf 19 Ebrill 2023
[40] Trysorlys EF, Ystadegau gwladol: Datchwyddyddion cynnyrch domestig gros ar brisiau'r farchnad, a chynnyrch domestig gros ar sail arian, Tachwedd 2023 (Datganiad yr Hydref), 23 Tachwedd 2023
[41] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg Economaidd a Chyllidol, 22 Tachwedd 2023, tudalen 155
[42] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg Economaidd a Chyllidol, 22 Tachwedd 2023, tudalen 48
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 43

a'r penderfyniadau anodd y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu,[44] gan ychwanegu nad yw hon yn gyllideb hawdd i'w gwneud.[45]

**37.** At hynny, gwnaeth nifer o ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor sylwadau ar anawsterau'r cyd-destun economaidd presennol. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y rhagolwg yn hynod o lwm, ac y bydd yr opsiynau ar gyfer llawer o wasanaethau lleol yn annymunol.[46] Dywedodd CGGC wrthym hefyd nad oes ganddo ddim amheuaeth bod y rhagolwg yn parhau i fod yn anodd iddo, ac i lawer o sefydliadau yn y sector gwirfoddol.[47]

**38.** Mynegwyd barn debyg gan ymatebwyr yn y sector preifat, gyda Chonsortiwm Manwerthu Cymru yn pwysleisio bod y rhagolwg yn parhau i fod yn ansicr o ystyried y pwysau ar incwm gwario aelwydydd a'r gadwyn gyflenwi a'r pwysau costau statudol sy'n effeithio ar fanwerthwyr.[48]

**39.** Mae'r sylwadau hyn hefyd yn adleisio barn a fynegwyd yn ystod sesiynau ymgysylltu'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2023, lle'r oedd ymatebwyr yn teimlo bod cyllidebau'n cael eu gwasgu oherwydd prif bwysau costau chwyddiant uchel a phrisiau ynni uchel.[49]

## Trosolwg o'r Gyllideb Ddrafft


**40.** O'i gymharu â'r cyllid a amlinellwyd yng Nghyllideb Derfynol 2023-24, mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn dyrannu 3 y cant yn fwy o gyllid ar draws yr holl Derfynau Gwariant Adrannol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn honni bod y cronfeydd ychwanegol hyn wedi'u gwrthbwyso gan bwysau chwyddiant (a archwilir ymhellach yn y Bennod hon).

**41.** O'u cymharu â chynlluniau dangosol blaenorol ar gyfer 2024-25, mae mwyafrif y codiadau hyn yn dod o fewn Terfyn Gwariant Ariannol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn dod i £678 miliwn. Mae Trafnidiaeth Cymru – a gafodd gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24 – wedi cael dyraniad ychwanegol o £111 miliwn o'i gymharu â'r ffigurau dangosol gwreiddiol.

**42.** Mae cynnydd bach, sef £25 miliwn, yn Nherfyn Gwariant Adrannol Cyllid a Llywodraeth Leol, ond mae pob adran arall yn gweld gostyngiadau yn sgil diwygiadau i'r dyraniadau dangosol a newidiadau eraill o'u cymharu â ffigurau

[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 13
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 13
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[47] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad, Consortiwm Manwerthu Cymru
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Ymgysylltu, Gorffennaf 2023

dros dro blaenorol ar gyfer 2024-25. Mae newidiadau mewn refeniw a chyfalaf a ddyrannwyd o'u cymharu â Chyllideb Derfynol 2023-24 wedi'u nodi fesul adran yn y ffeithluniau a ganlyn:[50]




| | Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf | Newid Cyllideb Derfynol 2023-24 (wedi'i hailddatgan) i Gyllideb Ddrafft 2024-25 |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £11,690m | £929m 8.6% ▲ |
| Cyllid a Llywodraeth Leol* | £5,092m | -£33m -0.6% ▼ |
| Newid Hinsawdd | £2,848m | -£84m -2.9% ▼ |
| Y Gymraeg ac Addysg** | £2,586m | -£56m -2.1% ▼ |
| Yr Economi | £541m | -£4m -0.8% ▼ |
| Materion Gwledig | £420m | -£29m -6.4% ▼ |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | £333m | -£27m -7.4% ▼ |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | £142m | -£12m -7.6% ▼ |

[50] Ffynhonnell: Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Llinellau gwariant yn y gyllideb a chyfrifiadau Ymchwil y Senedd

*Heb gynnwys tua £1.1 biliwn mewn incwm ardrethi annomestig.

**Yn cynnwys dyraniad o £514 miliwn mewn refeniw anghyllidol yn sgil benthyciadau i fyfyrwyr.

## Datganiad hydref 2023

**43.** Mae'r rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru yn dod yn uniongyrchol drwy'r grant bloc gan Lywodraeth y DU. Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys ddatganiad yr hydref ar 22 Tachwedd 2023, a oedd yn cynnwys £305 miliwn ychwanegol mewn cyllid canlyniadol.[51] Mae hyn yn cynnwys £133 miliwn ychwanegol mewn cyllideb adnoddau yn 2023-24, £167 miliwn mewn adnoddau a £5.8 miliwn mewn cyfalaf yn 2024-25.[52]

**44.** At hynny, roedd y canlynol yn rhan o gyhoeddiad Llywodraeth y DU:

- £1 biliwn i ariannu trydaneiddio Prif Linell Gogledd Cymru;
- £160 miliwn ar gyfer dau barth buddsoddi yng ngogledd-ddwyrain a de-ddwyrain Cymru;
- £5 miliwn ar gyfer cysylltiadau trafnidiaeth Sir Fynwy;
- £500,000 ar gyfer Gŵyl y Gelli;
- £111 miliwn mewn cyllid ffyniant bro.[53]

**45.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cael £167 miliwn ychwanegol o gyllid adnoddau yn dilyn datganiad yr hydref, gan ddweud bod y rhan fwyaf o hwnnw'n ymwneud â'r penderfyniadau ardrethi busnes a wnaed dros y ffin.[54]

**46.** O ran cyllid canlyniadol arall, cadarnhaodd y Gweinidog na ddarparwyd cyllid i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwariant Llywodraeth y DU hyd yma ar HS2, gan ychwanegu fel a ganlyn:

---

[51] Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Datganiad i'r wasg: Y Canghellor yn cefnogi busnes ac yn gwobrwyo gweithwyr i dyfu economi Cymru, 22 Tachwedd 2023
[52] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Ddatganiad yr Hydref Llywodraeth y DU 2023, 22 Tachwedd 2023
[53] Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Datganiad i'r wasg: Y Canghellor yn cefnogi busnes ac yn gwobrwyo gweithwyr i dyfu economi Cymru, 22 Tachwedd 2023
[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 35

> "*we've already lost … £260 million in consequentials that should rightfully have come to Wales, and there's no indication at the moment that the UK Government has any intention of providing that, although we continue, of course, to make the case.*"[55]

**47.** Soniodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru yn profi colled o tua £1.1 biliwn yn lle cronfeydd strwythurol a gwledig yr UE gan ychwanegu nad oes modd o lenwi'r bwlch hwnnw yn ei gyfanrwydd.[56]

**48.** Yn ôl Dadansoddi Cyllid Cymru – gan ystyried cyllid canlyniadol o gyllideb gwanwyn 2023 a datganiad hydref 2023 ynghyd â newidiadau cadarnhaol net o £61 miliwn i ragolygon treth ddatganoledig ac addasiadau/cysoniadau grant bloc – byddai gan Lywodraeth Cymru £368 miliwn o gyllid ychwanegol i'w ddyrannu yn 2024-25.[57]

**49.** O ran trafodaethau am gyllid rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru cyn datganiad yr hydref, mynegodd y Gweinidog bryder am y trefniadau presennol:

> "*What's always frustrating … is the level of information that is shared ahead of these events. I had my usual call with the Chief Secretary to the Treasury on the morning of the autumn statement, but those calls are very perfunctory; you are just told your overall increases to the budget, or decreases to the budget. You can ask a series of questions—as I always do—trying to probe what else is in the budget that would have an impact for Wales, what are their tax choices that will have impacts for us, but the information is never forthcoming. So, lots of the announcements we really just see alongside everybody else.*"[58]

**50.** At hynny, cyfeiriodd y Gweinidog at yr anawsterau ymarferol a achoswyd gan ddiffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU yn ystod y flwyddyn, a'r effaith a gaiff ar allu Llywodraeth Cymru i reoli ei harian:

> "*Our budget could increase significantly at the end of the year, and then we're faced with choices as to how to deploy money very quickly … we could have taken difficult decisions up to that*

[55] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 23
[56] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 184
[57] Dadansoddi Cyllid Cymru, Cyflwyniad Rhagolwg Cyllideb Cymru 2023, 14 Rhagfyr 2023
[58] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 65

*point that we might not needed to have done in the event. Or you can see our budget decrease significantly at the end of the year as well. Again, that's very difficult for us to manage."* [59]

**51.** Ychwanegodd y Gweinidog y canlynol:

"*What we want to see is for the UK Government to put arrangements in place where we can manage those things over financial years, so if, late in the year, we find ourselves with an additional £50 million, for the sake of argument, then we should be allowed, as a matter of course, to take that into the next financial year, outside of the constraints of the Wales reserve. Those are just simple things that the UK Government could do to help us manage our budget more effectively and spend public money more effectively."* [60]

**52.** Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn yn gymharol gyflym, heb adolygiad eang o'r Fframwaith Cyllidol.

"*… UK Government could do this almost instantly if it was inclined to do so, and that's one of the frustrating things, because what we're asking for, in terms of the borrowing powers and for the Wales reserve to be indexed, for example, these things aren't big deals for Treasury at all; they've already agreed them through the review of the Scottish fiscal framework for Scotland, and there is nothing different here as to why those things shouldn't be appropriate for us here in Wales … This is something that the UK Government could do today if it wanted to, and it would be a great help to us and no odds at all to the UK Government. So, we continue to make that case."*[61]

**53.** Pan ofynnwyd a fyddai newid mewn llywodraeth ar lefel y DU yn gwneud gwahaniaeth, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrth y Pwyllgor:

"*I'm definitely confident we would have a different kind of conversation with a different coloured Government in Westminster, because I know that there would be a different approach to devolution. One of the challenges that we get, I*

[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 66
[60] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 66
[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 437

> *think, is a Treasury that is hostile to devolution, and doesn't look for ways in which it can support the Welsh Government to make the best use of money.”* [62]

## Effaith Chwyddiant

**54.** Mae Llywodraeth Cymru yn honni bod ei setliad cyllid ar gyfer 2024-25 yn werth hyd at £1.3 biliwn yn llai mewn termau real na’r disgwyl ar adeg Adolygiad o Wariant 2021.[63] Esboniodd swyddog y Gweinidog fod y cyfrifiad hwn yn seiliedig ar chwyddiant mynegai prisiau defnyddwyr ar brisiau 2021-22.[64]

**55.** Pan ofynnwyd iddo pam y mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio chwyddiant mynegai prisiau defnyddwyr yn hytrach na datchwyddydd cynnyrch domestig gros wrth wneud y cyfrifiad hwn, cydnabu swyddog y Gweinidog mai’r datchwyddydd cynnyrch domestig gros yw’r mynegai cywir i’w ddefnyddio ar y cyfan, ond ychwanegodd fod un neu ddau o bethau yn y cyfnod hwn – yn enwedig effaith y pandemig – a gafodd effaith arbennig ar y datchwyddydd cynnyrch domestig gros.[65] Eglurodd fel a ganlyn:

> *“… the £1.3 billion uses the consumer price index. If we were using the GDP deflator it would be more like … £700 million, so it's kind of in that range. We think £1.3 billion is a more accurate reflection than £700 million in terms of the loss of spending power.”* [66]

**56.** Ar gais y Pwyllgor, darparwyd nodyn pellach yn egluro’r gwahaniaeth rhwng y ddau fynegai, a sut y cânt eu defnyddio i gyfrifo effaith chwyddiant gan Lywodraeth Cymru.[67]

**57.** Mewn cyferbyniad, cyfrifodd Dadansoddi Cyllid Cymru fod yr effaith chwyddiannol yn gyfystyr â diffyg cyllid o tua £800 miliwn, gan ddefnyddio datchwyddydd cynnyrch domestig gros, neu £1.5 biliwn gan ddefnyddio CPI.

---

[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 68
[63] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Ddatganiad Hydref y DU 2023, 22 Tachwedd 2023
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 42
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 31
[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 29
[67] Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Datchwyddydd cynnyrch domestig gros/y mynegai prisiau defnyddwyr, 12 Ionawr 2024

**58.** Esboniodd Dadansoddi Cyllid Cymru sut y cafodd y gwahaniaeth bach[68] yn ei ffigurau chwyddiant ei bennu:

> *"… using the GDP deflator measure of inflation … that hit to the overall budget is about £800 million, we think. Using the CPI measure of inflation, it's about £1.5 billion. Again, not to confuse things too much, that's a slightly different figure from the Welsh Government's figure of £1.3 billion that they use for CPI inflation. And the reason for that is that we've put it in current prices. So, our figure reflects the amount of … additional funding … that the Welsh Government would require next year to offset the hit from higher inflation, whereas the Welsh Government's figure of £1.3 billion was in the context of 2021-22 prices, so, the unexpected inflationary hit from 2021 in that base year."*[69]

**59.** Daeth Dadansoddi Cyllid Cymru i'r casgliad ei bod yn debygol ei fod rhwng £800 miliwn ac £1.5 biliwn, a bod y naill fesur a'r llall yn ddilys, gan ddibynnu ar beth yn union y mae rhywun yn edrych arno. [70] Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"We were looking at it from the perspective of how much additional funding the Welsh Government would need to get back to the real-terms value of the budget they were expecting, back three years ago, when it set its budget."* [71]

**60.** Cytunodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, ar draws y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd, fod chwyddiant, yn ôl pob tebyg, rhwng y datchwyddydd cynnyrch domestig gros a chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr,[72] gan ychwanegu fel a ganlyn:

> *"… that's because energy costs and food costs, much of which is imported, make up and contribute to the CPI, but aren't in the GDP deflator because it's only domestic inflation, where they make up a smaller share of the Government's budget than households' budgets, but not a zero share. Also, earnings growth lies between those two things, and that's an important part of the public sector's inflationary costs. So, I think those two factors—some energy costs, but less than households', and*

[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 111
[69] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 111
[70] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 113
[71] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 113
[72] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraffau 131 - 133

*wage costs lying between the two—mean that across the public sector as a whole, the appropriate figure for inflation would, probably, lie between them, hence the hit between that £800 million and £1.5 billion level."* [73]

**61.** At hynny, darparodd y Sefydliad Asiantaethau Cyllid ragor o wybodaeth am sefyllfa ariannol net Llywodraeth Cymru, ar ôl dwyn chwyddiant a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU i ystyriaeth:

"*… if there had been no top-up to the Welsh Government's budget, the hit according to the GDP deflator would be about £1.6 billion, but, because there's been that extra £800 million or so of funding, that has been reduced down to £800 million; it'd be about £2.3 billion on the CPI inflation, but the extra funding reduced it down to about £1.5 billion."* [74]

**62.** Pan ofynnwyd iddo am yr effaith y byddai chwyddiant yn gostwng yn ei chael ar sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru, cafwyd rhybudd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Dadansoddi Cyllid Cymru, a dywedodd Dadansoddi Cyllid Cymru y canlynol:

"*… one of the biggest drivers of costs for the public sector is public sector pay, and I imagine that public sector workers will be expecting pay raises probably exceeding the lower levels of inflation that we've seen, given that they've been taking the hit in terms of real-terms pay cuts. In terms of average earnings next year, I think, off the top of my head, it's about 3 per cent, so you'd expect that increase, at least, for public sector workers next year. And going forward beyond that, I suppose the context is very tight public sector departmental spending totals being carried forward, which will create very difficult budget decisions having to be made beyond 2024-25, unless there are significant changes in the departmental spending plans."* [75]

**63.** Ychwanegodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y bydd yn flwyddyn anodd o hyd – er bod chwyddiant yn gostwng – oherwydd yr isafswm cyflog ac effaith hwyr chwyddiant.[76]

[73] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraffau 131 - 133
[74] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 128
[75] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 146
[76] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 147

**64.** Wrth ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Dadansoddi Cyllid Cymru, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"It is good to see that we haven't had a great deal of challenge in terms of the work that we've done to demonstrate that £1.3 billion figure."*[77]

**65.** At hynny, darparodd y Gweinidog enghreifftiau ymarferol o'r modd yr oedd chwyddiant yn llywio ystyriaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru:

> *"… through the budget process, we ask local government, health and others to provide us with significant information that sets out the impact they believe that inflation will have on the pressures and on the budgets. For example, WLGA identified a number of areas impacted by inflation, but pay was the most significant of those …*
>
> *Other areas outside of pay that are, again, very significant within the NHS in terms of inflation relate to prescribing and medicines … So, inflation is definitely having a big impact on those areas."* [78]

## Ymarfer Arbedion yn ystod y Flwyddyn Llywodraeth Cymru 2023-24

**66.** Cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, cyhoeddodd y Gweinidog ailddyraniadau sylweddol yn ystod y flwyddyn o fewn 2023-24 ar 17 Hydref 2023,[79] y tu allan i weithdrefnau arferol y gyllideb atodol. Cadarnhaodd y datganiad ddyraniad ychwanegol o £425 miliwn i'r GIG a £125 miliwn i wasanaethau rheilffyrdd.[80]

**67.** Dywedodd y Gweinidog fod angen y newidiadau hyn "i fynd i'r afael ag effaith ein cyllideb ni sydd yn werth oddeutu £900 miliwn yn llai na phan gafodd ei phennu yn 2021", gan ychwanegu bod pwysau economaidd a chyllidol a achosir "gan effaith driphlyg chwyddiant, effaith mwy na degawd o gyni ar wasanaethau cyhoeddus, a chanlyniadau parhaus Brexit" wedi rhoi cyllideb Llywodraeth Cymru dan bwysau "na welwyd ei debyg erioed o'r blaen".[81]

---

[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 463
[78] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraffau 515-516
[79] Llywodraeth Cymru, Datganiad Llafar: Diweddariad ar Sefyllfa Ariannol 2023-24, 17 Hydref 2023
[80] Llywodraeth Cymru, Datganiad Llafar: Diweddariad ar Sefyllfa Ariannol 2023-24, 17 Hydref 2023
[81] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2023, paragraff 123

**68.** Eglurodd y Gweinidog pam yr oedd angen cymryd camau o'r fath o fewn y flwyddyn ariannol ac y tu allan i weithdrefnau arferol y gyllideb atodol:

> "*… the efforts that we made over the summer to make the statement that we did in October were to address the fact that our budget was worth £900 million less than at the time it was originally set. So, we needed to undertake some action to reprioritise across Government*".[82]

**69.** Pan ofynnwyd a oedd lle i gyflwyno cyllideb atodol ym mis Hydref, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> "*I think two supplementary budgets a year is probably plenty. I think that that does afford a level of scrutiny that would be appropriate as well.*"[83]

**70.** Fodd bynnag, dywedodd Dadansoddi Cyllid Cymru wrth y Pwyllgor nad oedd bwlch o £900 miliwn yn y gyllideb y mae angen ei lenwi[84], ac amheuodd amseriad datganiad Llywodraeth Cymru:

> "*A lot of the inflationary hit was already known when the 2023-24 budget was set, especially the first supplementary budget during the summer. It seemed like almost only a month afterwards you had the statement saying that they were looking for in-year budget mitigations.*" [85]

**71.** Ychwanegodd Dadansoddi Cyllid Cymru y byddai wedi bod yn well cyflwyno newidiadau o'r fath drwy'r broses gyllidebol atodol arferol:

> "*… in terms of transparency around the process, I think perhaps having a detailed breakdown in a supplementary budget would have been a better way of providing the detail on the cuts being made in-year, rather than the very high-level document that was published in October … It perhaps wasn't particularly useful.*" [86]

[82] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 9
[83] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2023, paragraff 41
[84] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 143
[85] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 143
[86] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 143

## Barn y Pwyllgor

**72.** Mae'r Pwyllgor yn llwyr gydnabod yr hinsawdd economaidd anhygoel o anodd a'i heffaith ar aelwydydd, gwasanaethau cyhoeddus a busnesau ledled Cymru, ac yn nodi cryfder y teimladau a fynegwyd gan randdeiliaid sy'n wynebu dewisiadau ariannol llwm yn y flwyddyn i ddod. At hynny, rydym yn cydnabod y bu hwn yn un o'r cylchoedd cyllidebol anoddaf ers datganoli, ac yn nodi'r penderfyniadau anodd y bu'n rhaid i'r Gweinidog eu gwneud yng nghyd-destun cyllidol hynod heriol.

**73.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod effaith sylweddol chwyddiant a setliadau cyflog, nad ydynt wedi'u digolledu gan gynnydd cyfatebol mewn cyllid. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau pellach ar sefyllfa gwariant Llywodraeth Cymru ac o ganlyniad, ychydig iawn o gamau y mae'n bosibl i'r Gweinidog eu cymryd o ran y penderfyniadau cyllidebol y gellir eu gwneud. At hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi â phryder y diffyg parhaus sy'n deillio o ostyngiad yng nghyllid yr UE sy'n debygol o ddod i ben yn 2025, ac yn nodi bod meysydd a oedd yn cael eu hariannu'n flaenorol gan gronfeydd o'r fath wedi gorfod cael eu torri o ganlyniad i'r cyd-destun cyllidol presennol.

**74.** Er bod y Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog bod chwyddiant wedi arwain at ostyngiadau sylweddol mewn termau real yng ngwerth cyllideb Llywodraeth Cymru – o'i chymharu â'r adeg y cyhoeddwyd y cyllid yn wreiddiol yn Adolygiad o Wariant 2021 – mae'r mynegeion gwahanol a ddefnyddiwyd i asesu'r effaith hon wedi arwain at ychydig o ansicrwydd ynghylch y diffyg cyllid gwirioneddol a wynebir. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod mesur siociau chwyddiannol yn hynod anodd, yn gymhleth ac yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i egluro'r metrigau y mae'n eu defnyddio i fesur chwyddiant yn gywir, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ei phŵer gwario. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ddarparu nodyn yn egluro sut y defnyddir y datchwyddydd cynnyrch domestig gros a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr i gyfrifo effaith chwyddiant. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon ochr yn ochr â chyllidebau'r dyfodol i egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn mesur chwyddiant yn barhaus, er eglurder a thryloywder.

**75.** At hynny, mae'r Pwyllgor wedi argymell yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol i egluro effaith pwysau chwyddiant a chynnydd mewn cyfraddau llog ar brosiectau arfaethedig, targedau a

chanlyniadau disgwyliedig Llywodraeth Cymru.[87] Er bod y Gweinidog wedi darparu gwybodaeth am effaith gyffredinol chwyddiant yn ystod cylchoedd cyllideb a chyllideb atodol diweddar,[88] mae'r Pwyllgor yn galw i wybodaeth o'r fath gael ei darparu'n fwy rheolaidd er mwyn galluogi'r Senedd i weld effaith chwyddiant mewn 'amser real', fel y gellir dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ar gyfer unrhyw benderfyniadau a wneir ganddi i liniaru pwysau o'r fath.

**76.** Mae'r Pwyllgor yn deall mai effaith chwyddiant ar gyllideb Llywodraeth Cymru oedd y prif reswm pam y cyhoeddodd y Gweinidog newidiadau yn ystod y flwyddyn i gyllideb Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2023. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y rhesymau dros ymarfer o'r fath ac yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i fod yn dryloyw yn ei phenderfyniadau, gan gynnwys mynd i'r Pwyllgor i drafod y materion hyn gyda'r Aelodau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi y bu llawer o'r pwysau chwyddiant hyn yn hysbys ac y cawsant eu trafod yn ystod y cylch cyllideb blaenorol,[89] ac o'r farn y byddai wedi bod yn well rhoi sylw iddynt naill ai drwy'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2023-24, neu drwy gyllideb atodol, ychwanegol. Rydym o'r farn y gallai'r dull hwn osod cynsail anffodus a gwanhau rôl y Senedd wrth ystyried penderfyniadau cyllidebol allweddol.

**77.** Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch y diffyg rôl weithdrefnol ffurfiol i'r Senedd mewn prosesau o'r fath, yn ogystal â'r diffyg cyfleoedd i Aelodau ystyried cynigion o'r fath yn fanwl a phleidleisio arnynt. Mae'r Pwyllgor wedi argymell yn flaenorol bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei hail gyllideb atodol fel y gellir dyrannu cyllid i feysydd fel mater o frys, o ystyried pwysau chwyddiant eithriadol.[90]

**78.** Mae'n siomedig felly, na wnaeth y Gweinidog ystyried dull o'r fath fel rhan o ymarfer diweddar Llywodraeth Cymru, er gwaethaf derbyn ein hargymhelliad ym mis Gorffennaf 2022.[91] Dyma alw eto, felly, ar Lywodraeth Cymru i archwilio modd o fabwysiadu dull mwy tryloyw, sy'n cynnwys rhoi'r gair olaf i'r Senedd ar benderfyniadau o'r fath, wrth wneud newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn i'w chyllideb.

---

[87] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Gorffennaf 2023, Argymhelliad 6
[88] Llywodraeth Cymru, Ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Awst 2023
[89] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, paragraff 36
[90] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, Gorffennaf 2023, Argymhelliad 2
[91] Llywodraeth Cymru, Ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, Awst 2022

**79.** Mae'r Pwyllgor yn trafod penderfyniad Llywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu cyllid mewn ymateb i'r rhagolwg diweddaraf o'r galw mewn meysydd penodol, megis gofal plant, ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, er mwyn gwella tryloywder, hoffai'r Pwyllgor fonitro'r materion hyn wrth iddynt ddod i'r amlwg, er mwyn deall effaith y newidiadau hyn yn ystod y flwyddyn yn fanylach. Rydym, felly, yn galw ar y Gweinidog i archwilio'r arfer o gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd, i roi trosolwg o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd yn erbyn ei phroffiliau gwariant. Byddai hyn yn gwella gallu'r Senedd yn fawr i graffu ar benderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru a'i dwyn i gyfrif.

**80.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i wynebu anawsterau wrth ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar faterion cyllidol ac mae'n bryderus iawn ynghylch amharodrwydd y Trysorlys i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru cyn datganiad yr hydref a'i diffyg diddordeb ymddangosiadol mewn diweddaru rheolau cyllidol, er gwaethaf y ceisiadau a wnaed dro ar ôl tro. Mae hyn yn arbennig o rwystredig o ystyried y gellid cyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen i roi hwb i sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru drwy newidiadau cymharol syml, megis darparu mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru o ran sut y mae'n trin arian o un flwyddyn i'r llall. Mae'r Pwyllgor yn rhannu barn y Gweinidog y gallai'r newidiadau hyn gael eu gwneud y tu allan i unrhyw adolygiad o'r Fframwaith Cyllidol yn y dyfodol, a bod eu hangen ar fyrder o ystyried bod gwerth y terfynau hyn mewn termau real wedi'i erydu gan chwyddiant.

**81.** Nid yw'r materion hyn yn rhai newydd, ac mae'r Pwyllgor yn gobeithio eu harchwilio'n fanylach fel rhan o'i ymchwiliad i gysylltiadau rhynglywodraethol cyllidol, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2023.[92] Yn y cyfamser, mae'r Pwyllgor yn sefyll yn gadarn gyda'r Gweinidog drwy alw am ddiweddaru'r Fframwaith Cyllidol i alluogi mwy o hyblygrwydd a rhoi mwy o ddisgresiwn cyllidol i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnod o chwyddiant ystyfnig o uchel sydd, i bob pwrpas, wedi cwtogi ar bŵer gwario Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi gwybodaeth ynghylch sut a pham y mae mynegeion gwahanol yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i fesur effaith chwyddiant ar ei sefyllfa gwariant ochr yn ochr â chyllidebau a chyllidebau atodol, os yw Llywodraeth Cymru yn gwneud dyraniadau yn ystod y flwyddyn oherwydd pwysau chwyddiant, er mwyn sicrhau eglurder ar newidiadau i gyllid mewn termau real y mae'n eu hwynebu.

[92] Y Pwyllgor Cyllid, Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am effaith chwyddiant ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir eisoes ar gam y gyllideb derfynol a'r gyllideb atodol, er mwyn galluogi'r Senedd i graffu ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru i liniaru pwysau o'r fath.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei chyllideb atodol yn gynt wrth wneud newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn yn y dyfodol y tu allan i amserlenni arferol y gyllideb atodol, er mwyn gwella tryloywder a sicrhau bod y Senedd yn cael y gair olaf ar benderfyniadau gwariant o'r fath.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn galw am yr hyblygrwydd mwyaf posibl o fewn y Fframwaith Cyllidol i ddileu'r terfynau tynnu i lawr blynyddol o Gronfa Wrth Gefn Cymru, a chynyddu maint y terfynau benthyca a Chronfa Wrth Gefn Cymru fel ei gilydd, o leiaf yn unol â chwyddiant, o ystyried bod gwerth y rhain mewn termau real wedi'i erydu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i roi trosolwg o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd yn erbyn ei phroffiliau gwariant, er mwyn deall effaith newidiadau yn ystod y flwyddyn, mewn amser real, ar gyllidebau adrannol.

# 3. Naratif a Chyflwyno'r Gyllideb

## Blaenoriaethu a Phwysau

**82.** Yn rhagair naratif y Gyllideb Ddrafft, mae'r Gweinidog yn datgan:

> *"Wrth wneud y Gyllideb Ddrafft hon, bu'n rhaid inni wneud penderfyniadau eithriadol o anodd – y rhai mwyaf cyfyng a phoenus ers datganoli. Nid yw hi wedi bod yn flwyddyn arferol; nid ydym wedi cael toreth o ddewisiadau cadarnhaol o'n blaenau ynglŷn â ble y gallwn dargedu buddsoddiadau cynyddol ac ychwanegol."*[93]

**83.** O ran sut y gwnaed penderfyniadau ynghylch y gyllideb, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod gan Lywodraeth Cymru egwyddorion craidd a oedd yn llywio eu gwaith, gan egluro'r canlynol:

> *"… those priorities were about protecting core front-line public services as far as possible … and then delivering the greatest benefit to households that are hardest hit by the cost-of-living crisis, prioritising jobs wherever possible, and then working in partnership with other public sector bodies to face the financial storm together and refocusing spending away from non-devolved areas."*[94]

**84.** Mae naratif y gyllideb yn mynd ymlaen i ddatgan bod Llywodraeth Cymru wedi "ail-lunio" ei chyllideb "yn radical" er mwyn blaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen y GIG a "diogelu setliad craidd llywodraeth leol, sydd yn ei dro yn ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol a gwasanaethau beunyddiol hanfodol eraill yr ydym yn dibynnu arnynt".[95]

**85.** Amlinellodd y Gweinidog hefyd fod y Gyllideb Ddrafft yn mynd i'r afael â'r ffaith bod y gyllideb yn werth £1.3 biliwn yn llai o ganlyniad i chwyddiant, ac felly:

> *"There have been changes across every single department, so every Minister has looked to make changes to their existing*

[93] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 3
[94] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 16
[95] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 4

> *plans so that we could reshape the budget towards those front-line core public services."*[96]

**86.** Fodd bynnag, o ran penderfyniadau cyllido, eglurodd y Gweinidog nad oes llawer o hyblygrwydd a bod ganddynt gymaint o ymrwymiadau statudol, bod pethau sy'n rhwymo mewn cyfraith y mae rhaid eu cyflawni hefyd.[97] Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd nad yw'r newidiadau a wnaed i'r Gyllideb Ddrafft ond yn adlewyrchu tua 5 y cant o'r gyllideb gyffredinol.[98]

**87.** Er mwyn buddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth, mae Llywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn:

> *"… rydym wedi penderfynu ailffocysu rhywfaint o wariant i ffwrdd o feysydd sydd heb eu datganoli, meysydd y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu. Mae'r rhain yn feysydd yr ydym wedi camu i'r adwy ynddynt o'r blaen i wneud iawn am y diffyg."*[99]

**88.** Fodd bynnag, nododd Dadansoddi Cyllid Cymru mai'r unig faes heb ei ddatganoli a nodwyd yn benodol yn naratif y gyllideb oedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac nad oedd yn amlwg yn unrhyw le arall yn y gyllideb lle y maent wedi dod o hyd i doriadau i feysydd sydd heb eu datganoli.[100]

**89.** O ran effaith ailffocysu blaenoriaethau, pwysleisiodd Dadansoddi Cyllid Cymru fod angen craffu'n fanwl ar ddatganiadau Gweinidogol ysgrifenedig, yn ôl portffolio, wrth iddynt gael eu cyhoeddi er mwyn deall yn well o ble y gallai'r toriadau hyn ddod.[101] Awgrymodd Sefydliad Bevan hefyd nad yw'r iaith a ddefnyddir yn naratif y gyllideb bob amser yn glir, gan nodi fel a ganlyn:

> *"… reprioritised', it's a nice word, isn't it? Nicer than 'cut'"*[102]

**90.** Ychwanegodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith eithaf da o ran bod yn agored yn y meysydd lle y mae wedi gwneud penderfyniadau anodd, yn sicr wrth gymharu â dogfennaeth ar gyfer cyllidebau Llywodraeth y DU neu gyllidebau Llywodraeth yr Alban.[103] Ond aeth

---

[96] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 12
[97] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 464
[98] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 464
[99] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 4
[100] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 207
[101] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 209
[102] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 322
[103] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 209

ymlaen i ddweud, wrth gytuno â Dadansoddi Cyllid Cymru, fod ychydig llai o wybodaeth am y meysydd hyn lle y mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y galw neu'r defnydd yn llai, a gofynnodd am y rheswm dros hynny.[104] Dywedodd hefyd y gellid darparu ychydig mwy o wybodaeth mewn rhai meysydd.[105]

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**91.** Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi cael ei harwain drwy gydol proses y gyllideb "gan yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol", gan fynd ymlaen i nodi'r canlynol:

> *"Rydym wedi parhau i fynd ati i ddeall effeithiau integredig y dewisiadau yr ydym yn eu gwneud a'r angen i weithredu i atal yr effaith waethaf ar wasanaethau. Mae hyn yn golygu ein bod yn gweithredu yn y tymor byr i'w diogelu ar gyfer y dyfodol. Rydym yn cynnal ein hymrwymiad i barchu'r egwyddorion hyn wrth inni symud ymlaen a chan ystyried ac addasu pan fo angen."*[106]

**92.** Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd y Comisiynydd "Cymru Can," a ddisgrifir fel "ein strategaeth newydd ar gyfer 2023 – 2030 a'n gweledigaeth hirdymor."[107] Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd y bydd ei genhadaeth gyffredinol ar gyfer eleni "yn canolbwyntio ar sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei chyflawni i'w llawn botensial ar draws holl gyrff cyhoeddus Cymru."[108]

**93.** Dywedodd y Comisiynydd y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"The approach that I've taken this time is to look at how the five ways of working have been applied to the decision making … what is the evidence of that taking place and what difference has that made?"*[109]

**94.** Tynnodd y Comisiynydd sylw hefyd at ei ddefnydd o'r 'matrics aeddfedrwydd' sy'n adnodd hunanasesu i gyrff cyhoeddus ei ddefnyddio i asesu eu cynnydd o ran cyflawni'r pum ffordd o weithio.[110] Disgrifiodd y matrics fel proses lawer mwy

[104] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 210
[105] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 211
[106] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 4
[107] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Cymru Can: Ein Gweledigaeth a'n Pwrpas
[108] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[109] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 19
[110] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 47

gwrthrychol y gallai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ei defnyddio i nodi meysydd i'w gwella. Dywedodd ei fod yn ystyried pethau fel prosesau, pobl a diwylliant ac arweinyddiaeth.[111]

**95.** O ran nodi effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar benderfyniadau gwariant o fewn y Gyllideb Ddrafft, dywedodd y canlynol:

> *"… what I was unable to see is the difference that taking account of the well-being of future generations Act made to the decisions themselves. So, the workings and the implications of the Act to the decisions that were taken, it was unclear to see from the documentation that we considered—and we looked at all the documentation available—what the implications were from considering the Act to the decisions that were eventually taken."*[112]

**96.** Pwysleisiodd hefyd fel a ganlyn:

> "It's important for openness and transparency that we see how decisions are being taken and that assessments about impacts are considered when budget decisions are taken. But Welsh Government also has a leadership role here for the rest of the public sector in their budget decision-making processes, and being able to show how Welsh Government is doing it would be very helpful, I think, for the public bodies to do the same."[113]

**97.** Ychwanegodd swyddog y Comisiynydd at hyn, gan bwysleisio bod sylwadau tebyg wedi'u gwneud dro ar ôl tro dros y blynyddoedd a'i bod yn eithaf ailadroddus ailddatgan yr un canfyddiadau i Lywodraeth Cymru unwaith eto eleni.[114] Disgrifiodd ddiffyg cynnydd o ran ymateb i'r canfyddiadau ynghylch y canlynol:

> *"… the importance of meaningfully applying the five ways of working, the definition of prevention that you've heard us talk about often in this committee and the use of the budget*

[111] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 47
[112] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 15
[113] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 16
[114] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 25

> *improvement plan as an important document to articulate how the Government have considered the Act."*[115]

**98.** Anghytunodd y Gweinidog â'r sylwadau hyn, gan ddweud ei bod yn meddwl y gellir gweld yr holl ffyrdd o weithio yn y ffordd y mae'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar ei gwaith. Aeth ymlaen i ddweud bod budd y Ddeddf i'w gweld ar waith drwy'r ffordd gydweithredol o wneud pethau a bod hynny'n hogi'r meddwl o ran y meysydd ataliol hynny.[116]

## Atal

**99.** Cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi, dywedodd y Prif Weinidog wrth y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog fod tensiwn rhwng cymryd arian allan o bethau y mae eu hangen ar bobl heddiw er mwyn gallu ymdrin â'r tymor hir, a bod rhaid gwneud penderfyniad ar bob llinell yn y gyllideb.[117]

**100.** Pan ofynnwyd iddo am ei farn am wariant ataliol o fewn y Gyllideb Ddrafft hon, dywedodd y Comisiynydd nad yw atal wedi'i ymgorffori ym mhroses y gyllideb eto.[118] Ychwanegodd y canlynol:

> *"The preventative spend is essential for future generations, and it's essential for this agenda. We worked very closely with the Government to put together a definition of what we mean by 'prevention', and we want to see that applied and implemented into budget decisions. It's one of the five ways of working, it's absolutely at the heart of the well-being of future generations Act, and if we don't address it, as I keep saying, we'll be sewing up problems for the future."*[119]

**101.** Roedd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn rhannu'r farn hon, gan ddweud wrth y canlynol y Pwyllgor:

> *"…in many instances, actually, in order to provide funding for those core, front-line services, some of the services you might think as being more linked to preventative actions have been*

[115] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 25
[116] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 529
[117] Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, Cofnod y Trafodion, 8 Rhagfyr 2023, paragraff 153
[118] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[119] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 42

*cut back … it looks like there's been a shift from the preventative spending to the acute end of the spending."*[120]

**102.** Cytunodd y Comisiynydd â'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid[121], gan ychwanegu ei bod yn anodd asesu'n llawn i ba raddau y mae gwariant ataliol wedi'i leihau oherwydd na allwn weld beth sy'n cyfrif fel gwariant ataliol yn ôl y diffiniad o atal.[122] Cydnabu'r Comisiynydd fod Llywodraeth Cymru yn treialu dull o edrych ar sut y mae gwariant ataliol yn cael ei ystyried o fewn y gyllideb, ond am y rheswm hwn, mae'n hysbys nad yw'r dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn gynhwysfawr.[123]

**103.** Roedd Conffederasiwn GIG Cymru hefyd yn rhannu'r pryderon bod symud cyllid i ffwrdd o feysydd sy'n ataliol eu natur yn debygol o effeithio ar iechyd pobl a'i bod yn anochel y bydd hyn yn arwain at fwy o bwysau ar y GIG. Tynnodd sylw at ordewdra, a chymhlethdodau iechyd sy'n gysylltiedig â gordewdra, yn ogystal ag effeithiau hirdymor tai o ansawdd gwael fel meysydd pryder penodol sy'n cynyddu'r galw ar y GIG.

**104.** Cytunodd y Comisiynydd y bydd diffyg buddsoddiad mewn clefydau y gellir eu hatal yn achosi mwy o alw ar y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol[124] a bod rhaid inni ddeall sut y gall toriadau i gyllidebau heddiw effeithio ar y tymor hir.[125] Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"That is, in some ways, a perfect example of where we need to see the workings—so, what assessment was made of these budget lines, what the cuts are going to do to numbers of cases and impact on the health service in future, and what is the judgment or the balance that's being made now of the benefit now to investing in our health service now compared to the potential burden on the health service, but also on the health of our future generations, more importantly. I think that those are really critical considerations. They're of course difficult considerations and they're political considerations, but that is the lens in which the well-being of future generations Act asks*

[120] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraffau 174-175
[121] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 40
[122] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 38
[123] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 38
[124] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 40
[125] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 39

> *us to consider the budget, and what we need to see done on a comprehensive basis in future."*[126]

**105.** Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"… prevention is always difficult when you've got a challenging settlement, but actually the fact that we have prioritised those core front-line public services is an act of prevention, if you like, in itself, because those services, many of them are preventative in terms of preventing harms from becoming even greater, and if we hadn't supported the health service and local government in that way, you would have known about it in terms of the impact in future years as well."*[127]

**106.** Holodd y Pwyllgor y Gweinidog am effaith y gyllideb ar allu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog fel a ganlyn:

> *"… the fact that we have prioritised those particular front-line services in itself will allow them to do the important work of delivering the Act, which should be at the heart of everything that they do. So, lots of the decisions that they take won't necessarily be funding related, they'll just be ways of working, they'll be ways in which they identify priorities, and so on. So, funding is part of it, but certainly not all of it."*[128]

## Asesu Effaith y Gyllideb

### Asesiad Effaith Integredig Strategol

**107.** Mae naratif y gyllideb yn cynnwys Asesiad Effaith Integredig Strategol a'i ddiben yw "adnabod tueddiadau allweddol, ac effeithiau strategol a chronnol ar lefel portffolio, ar draws amryw o feysydd, gan gynnwys rhoi sylw dyladwy ar draws y gofynion statudol."[129]

**108.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn nodi bod "Asesiad Effaith Integredig Strategol cadarn yn sicrhau bod pob punt sy'n cael ei buddsoddi yn cael yr effaith

[126] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 40
[127] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 488
[128] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 490
[129] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 30

gadarnhaol fwyaf".[130] Mae hefyd yn amlinellu'r ystyriaethau a wnaed fel rhan o broses yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, gan gynnwys gofynion statudol sy'n gysylltiedig â phum darn o ddeddfwriaeth, ac un ohonynt yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.[131]

**109.** Yn ei Hasesiad Effaith Integredig Strategol, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried ystod o ffynonellau tystiolaeth macro, gan gynnwys Adroddiad Llesiant Cymru[132] a'r adroddiad pum mlynedd ynghylch Tueddiadau'r Dyfodol.[133]

**110.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywed y Comisiynydd fel a ganlyn:

> *"O flynyddoedd blaenorol, nid ydym yn gweld effaith asesedig penderfyniadau cyllidebol o hyd yn nogfennau'r gyllideb, fel yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA)."*[134]

**111.** Mae'n mynd ymlaen i ddweud yr hoffai weld cysylltiadau cliriach yn ôl â'r amcanion a'r nodau llesiant, yn ogystal â'r gyllideb garbon bresennol.[135]

**112.** Dywed y Comisiynydd y bydd yn parhau i adolygu sut y mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy'r broses o bennu'r gyllideb. Mae'n nodi bod gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 wedi canfod nad yw'r Ddeddf "wedi'i hymgorffori o hyd yn y broses o wneud penderfyniadau ar y gyllideb yn y ffordd y byddem yn disgwyl ei gweld."[136]

**113.** Mae ei dystiolaeth i'r Pwyllgor yn ychwanegu at hyn. Nododd y canlynol:

> *"Mae mwy o dryloywder o fewn y naratif a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) eleni ynghylch effaith penderfyniadau. Fodd bynnag, mae diffyg dadansoddiad yn y dogfennau o'r effeithiau hirdymor a thystiolaeth fanwl o sut mae cynnwys cyrff cyhoeddus a phobl eraill yr effeithir arnynt gan y gyllideb wedi helpu i asesu'r effaith bosibl."*[137]

**114.** Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach ar y mater hwn, ac ymatebodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

---

130 Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 30
131 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
132 Adroddiad Llesiant Cymru: 2023
133 Llywodraeth Cymru: Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol: 2021
134 Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
135 Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
136 Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
137 Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

*"... what I think needs to change is the SIIA document... because I think that is the place you would expect to see the workings, and that is the place that you would expect to see a more detailed understanding of the differences being made by the well-being of future generations Act. My reading of that document is it's largely a list of explanation of the decisions that have been taken, rather than an analysis or an explanation of the analysis that was undertaken to decide whether one budget was sacrificed or cut at the expense of another one that was increased or kept."*[138]

**115.** Ychwanegodd swyddog i'r Comisiynydd y canlynol hefyd:

*"There is little to no evidence that we've seen that Welsh Government have been able to articulate how the budget would impact on the public bodies' ability to deliver on their well-being objectives and steps. It's really important in the five ways of working that integration isn't solely about one Minister to another, but, actually, from one public body to another. So, we now have a scenario where public bodies have now got to reassess how they're going to deliver their well-being objectives and steps in light of the draft budget, and, in some cases, that's going to dramatically have an impact. We can't see the evidence that Government have considered beyond the walls of Government into the well-being objectives and steps, which is, we would argue, a requirement under the ways of working."*[139]

**116.** Dywedodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad manylach o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn 2024 i ymgorffori ymhellach Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol,[140] a'i bod wedi ymrwymo'n llwyr i weithio gyda'r Comisiynydd arno.[141] Nododd hefyd fel a ganlyn:

*"Rydym wedi ymgysylltu'n gynnar â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith ar y Gyllideb a byddwn yn ymgysylltu ag amryw o randdeiliaid i fwrw ymlaen â hyn gyda'r bwriad o gwblhau'r adolygiad hwn ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2025-26 a*

---

[138] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 34
[139] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2024, paragraff 67
[140] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 489
[141] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 494

*bwrw ymlaen ag unrhyw ddiwygiadau ar gyfer Cyllideb 2026-27."*[142]

**117.** Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor yr hoffai ddefnyddio'r adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol fel cyfle i weithio gyda'r Gweinidog a'i swyddogion i roi cyngor clir ar yr hyn y byddent yn disgwyl ei weld yn y ddogfen honno yn y blynyddoedd i ddod, ac i neilltuo adnoddau o'i dîm i weithio gyda'i swyddogion i gael hynny'n iawn, fel na fydd y sefyllfa honno'n codi y flwyddyn nesaf.[143]

**118.** Dywedodd swyddog y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru eisiau'n fawr siarad drwy'r grŵp cynghori ar wella ac asesu effaith y gyllideb, ond hefyd yn uniongyrchol â chomisiynydd cenedlaethau'r dyfodol, am sut y gellir adlewyrchu, yn yr adolygiad hwnnw, rai o'r pethau y mae wedi sôn amdanynt o ran y matrics, a'u bod felly'n sicr yn agored i gael y sgwrs honno.[144]

## Cynllun Gwella'r Gyllideb

**119.** Nod Cynllun Gwella'r Gyllideb[145] yw "gwella proses y gyllideb drwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus."[146] Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi'r cynllun yn flynyddol, gyda'r nod o wella tryloywder a dangos sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dylanwadu ar benderfyniadau cyllidebol. Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i helpu i ddatblygu Cynllun Gwella'r Gyllideb. Mae'r Grŵp yn rhoi cyngor o safbwynt cydraddoldeb a chynhwysiant er mwyn "sicrhau bod prosesau'r gyllideb a threth yn gwella yn y tymor hwy er mwyn alinio cyllid a chanlyniadau yn well."[147] Yn ei Chynllun Gwella'r Gyllideb, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r canlynol:

> *"Fel rhan o'r gwaith gyda Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith ar y Gyllideb, mae is-grŵp yn parhau i ystyried ymgorffori ataliaeth yn ein prosesau, gan ddefnyddio bioamrywiaeth fel maes i dreialu syniadau. Yn amodol ar ganfyddiadau'r gwaith hwn, byddwn yn ystyried dull gweithredu cyllideb gyfan ar gyfer gweithgarwch ataliol, gan brofi elfennau ymarferol, a nodi'r*

[142] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Cynllun Gwella'r Gyllideb, tudalen 5
[143] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 28
[144] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 498
[145] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Cynllun Gwella'r Gyllideb
[146] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Cynllun Gwella'r Gyllideb, tudalen 2
[147] Y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb: Cylch gorchwyl

> *amodau sydd eu hangen i wneud hyn yn effeithiol ar draws y sefydliad cyfan."*[148]

**120.** Dywed y Comisiynydd fod Cynllun Gwella'r Gyllideb yn rhoi "arwydd i'w groesawu bod meddwl hirdymor ac ataliol yn dal i fod yn rhan esblygol o'r broses o ddatblygu'r gyllideb". Fodd bynnag, byddai'n "disgwyl, erbyn hyn, saith mlynedd yn ddiweddarach, y byddent wedi'u gwreiddio llawer mwy yn y broses o bennu'r gyllideb bresennol". Mae'n dweud bod y wybodaeth yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at 'y tymor hir' ac 'atal' ond nad yw'n gwneud yr un peth ar gyfer y tair ffordd arall o weithio.[149]

**121.** Yn ei Chynllun Gwella'r Gyllideb, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r gweithgarwch arfaethedig rhwng 2024 a 2026 o ran asesu effaith penderfyniadau cyllidebol. Bydd yn:

> *"Gweithredu dadansoddiad gwell o effaith y Gyllideb Flynyddol sy'n ystyried pob datblygiad yn y blynyddoedd blaenorol, mewn ffordd sy'n dangos yn glir sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r holl ystyriaethau hyn. Bydd hyn yn cynnwys rhoi sylw i argymhellion adolygiad a gomisiynwyd."*[150]

**122.** Dywedodd y Comisiynydd yr hoffai weithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu Cynllun Gwella'r Gyllideb:

> *"… we need to model good practice at the Welsh Government level in order to do that for the rest of the public sector, and I think these are specific ways in which we can move on from this cycle of saying the same things and getting to a place where we can see how the impact assessment, against the well-being of future generations Act, is influencing those decisions."*[151]

[148] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Cynllun Gwella'r Gyllideb, tudalen 5
[149] Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[150] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Cynllun Gwella'r Gyllideb, tudalen 10
[151] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 29

## Cyllidebu ar sail rhywedd

**123.** Mewn ymateb i argymhelliad gan y Pwyllgor y llynedd,[152] ymrwymodd Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllidebu ar sail rhywedd yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb ar gyfer 2024-25. Mae'r cynllun yn nodi:

> *"Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwaith i ymwreiddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar rywedd, ac rydym yn sicrhau bod Trysorlys Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith pwysig hwn."*[153]

**124.** Aeth yn ei flaen i nodi y:

> *"Byddwn hefyd yn ymgysylltu â Womens Budget Group Cymru a rhanddeiliaid eraill drwy'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn datblygu ein dull cyllidebu ar sail rhywedd."*[154]

**125.** Dywedodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru fod angen mwy o wybodaeth am gynnydd a gwerthusiad cynlluniau peilot Llywodraeth Cymru ar gyllidebu ar sail rhywedd, a gynhaliwyd yn 2022-23. Gwnaethant nodi fel a ganlyn:

> *"While we welcome the Welsh Government's continued piloting of gender budgeting and the publication of the Personal Learning Accounts (PLA) pilot evaluation, attention must now be given to developing plans to mainstream gender budgeting across the Welsh Government to support better policy making and resource allocation."*[155]

**126.** Dyma ddisgrifiad Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod o gyllidebu ar sail rhywedd:

> *"… a really critical tool that could help us restructure spending decisions in a way that takes account of gender impacts and helps us eliminate inequitable outcomes. And it's so important in this context, because equality concerns are all too often*

[152] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, Argymhelliad 15
[153] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Cynllun Gwella'r Gyllideb, tudalen 6
[154] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Cynllun Gwella'r Gyllideb, tudalen 11
[155] Y Pwyllgor Cyllid, ymateb i'r ymgynghoriad: Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod [Saesneg yn unig]

> *deprioritised in the context of budget cuts, but this is when they should be really essential."*[156]

**127.** Wrth groesawu'r gwerthusiad cynhwysfawr o'r cynllun peilot cyntaf, dywedodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod fel a ganlyn:

> *"We're still awaiting the evaluation of the other two pilots and, at the moment, we're completely in the dark as to how this work is progressing. The thing we are concerned about at this moment, just to say, is this work becoming siloed because, really, it has to be mainstreamed, it has to be implemented across the whole budgeting process. And I think the Wales Women's Budget Group in particular would be really delighted to work with Welsh Government officials to ensure that this piece of work is progressed."*[157]

## Barn y Pwyllgor

**128.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gorfod ail-lunio ei chyllideb i gyflawni blaenoriaethau yn unol â'i hegwyddorion arweiniol. Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol gan dystion bod y wybodaeth a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft yn ddefnyddiol, yn enwedig wrth ei chymharu â dogfennau a luniwyd gan lywodraethau mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, credwn y gellid darparu mwy o wybodaeth mewn perthynas â meysydd penodol o'r Gyllideb Ddrafft i egluro effaith y penderfyniadau a wnaed. Yn benodol, mae naratif y Gyllideb Ddrafft yn ei gwneud yn anodd deall lle mae cyllid wedi'i leihau mewn termau real a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar wasanaethau ac ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion datganedig. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio termau fel "diogelu" cyllidebau lle mae cyllid wedi'i gynnal mewn termau enwol ond, wrth ystyried effaith chwyddiant, mae'n cyfateb i doriad mewn termau real. Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaed bod defnyddio iaith fel 'ailflaenoriaethu' yn rhy amwys ac yn cyfrannu at yr anawsterau yr ydym ni, yn ogystal â rhanddeiliaid, yn eu hwynebu i ddeall y meysydd a fydd yn teimlo effaith y penderfyniadau a wnaed yn y gyllideb hon fwyaf. Rydym yn teimlo bod angen ailadrodd y farn a fynegwyd gan y Pwyllgor y llynedd bod "gallu nodi

[156] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 261
[157] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 261

canlyniadau penderfyniadau cyllido'n ddiben sylfaenol i broses y gyllideb"[158] a'i bod yn anffodus nad yw hyn yn amlwg unwaith eto.

**129.** Mae awgrymiadau hefyd drwy gydol y ddogfennaeth bod penderfyniadau wedi'u gwneud i ailffocysu rhywfaint o wariant i ffwrdd o feysydd sydd heb eu datganoli ac o ganlyniad i doriadau dan arweiniad galw.[159] Fodd bynnag, nid yw'r naratif yn amlinellu â pha feysydd y mae hyn yn ymwneud a'r ôl-effeithiau tebygol. Rydym yn pryderu'n benodol am y diffyg tystiolaeth i nodi achosion sylfaenol y defnydd isel o rai o'r gwasanaethau hyn, yn enwedig o ran gofal plant, y dywedodd Llywodraeth Cymru y llynedd ei bod yn ddarpariaeth yr oedd yn bwriadu ei hehangu (ymdrinnir â hyn ymhellach ym Mhennod 6.

**130.** Roedd nifer o gyfranwyr yn credu bod tuedd yn dod i'r amlwg o ran symud cyllid i ffwrdd o atal er mwyn cyllido nod datganedig Llywodraeth Cymru o ddiogelu gwasanaethau rheng flaen gymaint â phosibl. Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod hwn yn ddatblygiad pryderus ac er ein bod yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r egwyddorion sy'n arwain y Gweinidog, rydym yn pryderu am yr effaith hirdymor andwyol y bydd y dull hwn yn ei chael ar ystod o wasanaethau cyhoeddus nad ystyrir eu bod yn rhai craidd na rheng flaen. Unwaith eto, mae'r Pwyllgor eisiau mwy o wybodaeth i ddeall sut y gwnaed y penderfyniadau hynny, beth oedd y cyfaddawdau, y risgiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu derbyn yn y blaenoriaethau y mae'n eu nodi a lle y gallai fod effeithiau negyddol, yn y tymor byr a'r tymor hir.

**131.** Awgrymodd tystion fod meysydd yn y Gyllideb Ddrafft sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau strwythurol hirdymor, fel tlodi ac anghydraddoldeb, yn wynebu'r toriadau mwyaf. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi pryderon rhanddeiliaid ynghylch yr effaith benodol y bydd torri gwariant ataliol yn ei chael ar y GIG.

**132.** Nid yw'r Pwyllgor wedi cael sicrwydd gan sylwadau'r Gweinidog bod blaenoriaethu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd yn weithred ataliol. Teimlwn mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd yn y ddogfennaeth a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft sy'n dangos sut y mae'r penderfyniadau byrdymor hyn yn cael eu cydbwyso gan amcanion hirdymor strategol. Felly, mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Comisiynydd bod blaenoriaethu gwariant ataliol yn hanfodol fel mesur hirdymor i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny, fodd bynnag, dylid nodi effeithiau'r penderfyniadau hynny. Rydym hefyd yn pryderu am sylwadau'r Comisiynydd bod diffyg tystiolaeth o fewn y Gyllideb Ddrafft i ddangos yr effaith y bydd torri cyllid ataliol nawr yn ei chael ar

[158] Y Pwyllgor Cyllid: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, paragraff 162
[159] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 208

gynaliadwyedd gwasanaethau'r dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddangos sut y mae'n asesu effaith y penderfyniadau hyn ac y dylid manylu ar hyn yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yng nghylch nesaf y gyllideb. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith yn y maes hwn ac yn cynnal cynllun peilot i fesur sut y mae gwariant ataliol yn newid o fewn ei chynlluniau gwariant. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor weld rhagor o fanylion am y cynllun peilot hwn, yn enwedig am yr asesiadau a gynhaliwyd i gyfiawnhau'r newid hwn o gyllid ataliol tuag at ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. At hynny, rydym yn gofyn am wybodaeth am sut y bydd y cynllun peilot yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r dull gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru. Teimlwn y byddai hyn yn gam tuag at ymgorffori'n ystyrlon 'atal', un o'r pum ffordd o weithio fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ym mhroses y gyllideb.

**133.** Roedd y Pwyllgor wedi'i galonogi gan sylwadau gan y Comisiynydd bod mwy o dryloywder o fewn y naratif a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ynghylch effaith penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod sylwadau a wnaed gan swyddfa'r Comisiynydd nad yw'n gweld y cynnydd o ran pwysigrwydd cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn ystyrlon, hyd yn oed os yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y pum ffordd o weithio wrth wneud penderfyniadau. Rydym hefyd yn cytuno â'r Comisiynydd y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae ei phenderfyniadau cyllidebol yn effeithio ar allu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant. Am y rheswm hwn, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddangos y manylion hyn o fewn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, gan roi sylw dyladwy i'r 'matrics aeddfedrwydd'.

**134.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, ac yn croesawu cynnig y Comisiynydd i neilltuo adnoddau i weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, a pharodrwydd y Gweinidog i ymgysylltu â'r Comisiynydd. Mae'n hanfodol bod y dogfennau hyn yn effeithiol ac mae'r Pwyllgor yn credu y byddai dull cydweithredol o adolygu Cynllun Gwella'r Gyllideb a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn helpu i sicrhau tryloywder ynghylch sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn helpu i lywio penderfyniadau.

**135.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyhoeddi cynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd y Cyfrifon Dysgu Personol ac mae'n falch ei fod yn darparu gwerthusiad cynhwysfawr ac argymhellion i ddysgu ohonynt.

**136.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn ei Chynllun Gwella'r Gyllideb ar gyfer 2024-25 i "ymwreiddio dull gweithredu sy'n

canolbwyntio ar rywedd" yn ei gwaith, ond mae'n credu na all wneud hyn oni bai bod canfyddiadau'r ddau gynllun peilot sy'n weddill yn hygyrch. Rydym hefyd yn rhannu rhwystredigaeth rhanddeiliaid sy'n cael gwybod dim am eu canlyniadau.

**137.** Rydym yn teimlo y gellid defnyddio'r canfyddiadau hyn, nid yn unig i ddatblygu prif ffrydio cyllidebu ar sail rhywedd ar draws Llywodraeth Cymru, ond hefyd i'w ymgorffori yn y gwaith o lunio polisïau cyfan. Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r canlyniadau hyn.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am ble mae cyllid yn cael ei ailflaenoriaethu yn y Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys:

- manylion yr holl feysydd sydd heb eu datganoli, y mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu cyllido; ac
- esboniad o pam y mae'r galw yn llai mewn rhai meysydd ac effaith hyn o ran y gyllideb.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad pellach o effaith ei chyllideb ar feysydd y gellir ystyried eu bod yn rhai ataliol eu natur.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am sut y bydd y cynllun peilot atal yn cael ei gymhwyso ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru, ac yn gweithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol, i ddarparu data ystyrlon i nodi'r duedd o ran atal dros flynyddoedd.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnwys gwybodaeth mewn Asesiadau Effaith Integredig Strategol o hyn ymlaen i egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y pum ffordd o weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wneud penderfyniadau cyllidebol.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi manylion yr adolygiad y bydd yn ei gynnal o Gynllun Gwella'r Gyllideb a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, gan gynnwys aelodaeth y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, cylch gorchwyl yr adolygiad, manylion unrhyw ymgyngoriadau a gynhaliwyd ac amserlenni cysylltiedig.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi'r ddau gynllun peilot ar gyllidebu ar sail rhywedd sy'n weddill ac yn gweithio ar y

cyd â Grŵp Cyllideb Menywod Cymru / y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod i brif ffrydio cyllidebu ar sail rhywedd ar draws Llywodraeth Cymru.

# 4. Ysgogiadau Cyllidol

## Trethiant Datganoledig

**138.** Mae tair treth wedi'u datganoli i Gymru: cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC), treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi. Mae dwy dreth leol - y dreth gyngor ac ardrethi annomestig – hefyd yn darparu refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus.

**139.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hadroddiad ar Bolisi Trethi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft sy'n "nodi'r cynnydd a wnaed o ran yr agenda polisi trethi yng Nghymru".[160] Dyma ei thrydydd adroddiad ers cyhoeddi Cynllun Gwaith Polisi Trethi 2021-26.[161]

**140.** Ers cylch cyllideb 2020-21, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi darparu rhagolygon refeniw trethi Cymreig annibynnol. Cyhoeddwyd ei rhagolwg trethi Cymreig diweddaraf ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ac mae'n nodi rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer CTIC, y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi.[162]

### Agweddau at Drethiant

**141.** Ystyriwyd agweddau at drethiant datganoledig yn ystod gweithdai'r Pwyllgor gydag Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru a grwpiau ffocws a gynhaliwyd gan dîm ymgysylltu'r Senedd. Cafwyd gwahaniaeth barn ar ddefnyddio trethi neu fenthyca gyda'r ddau, a chafwyd dadleuon o blaid ac yn erbyn.

**142.** Roedd mwyafrif y rhai a gymerodd ran yng ngrwpiau ffocws y Pwyllgor am weld treth incwm uwch i'r rhai sy'n gallu ei fforddio yn unig.[163] Fodd bynnag, nid oedd y farn hon yn unfrydol a nododd un cyfranogwr ein bod yn byw mewn cymdeithas nawr lle nad oes modd osgoi'r sgwrs am gynyddu trethi.[164]

[160] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2023, paragraff 8
[161] Cynllun Gwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru 2021-2026
[162] Rhagolwg Trethi Cymreig: Rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer trethi datganoledig Cymreig, Rhagfyr 2023
[163] Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu - y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2023, Atodiad B, paragraff 7
[164] Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu - y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2023, Atodiad B, paragraff 70

**143.** Nododd Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru fod trethi uwch yn cael eu hystyried yn allweddol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel.[165] Fodd bynnag, roedd teimlad cryf, pe bai Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau i gynyddu trethi, y byddai angen iddi ddangos yn glir ble y bydd yr arian yn cael ei wario fel y gallai'r cyhoedd weld manteision dilyn dull o'r fath.[166] Cydnabu Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru hefyd fod codi trethi yn yr hinsawdd ariannol bresennol yn anodd oherwydd y gallai waethygu'r argyfwng costau byw. Yn sgil hyn, teimlent y dylid targedu codiadau at enillwyr uwch.[167]

**144.** Adlewyrchwyd y safbwyntiau hyn yn yr ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor. Dywedodd Consortiwm Manwerthu Cymru wrthym y dylai gweithwyr ar enillion isel neu gymedrol barhau i gael eu hamddiffyn rhag cynnydd yn nhreth incwm Cymru.[168]

**145.** O ran ymwybyddiaeth gyffredinol, roedd Aelodau o Senedd Ieuenctid yn gwybod bod gan Lywodraeth Cymru bwerau i godi trethi, ond nid oeddent yn gyfarwydd â'r trethi penodol.[169] Roedd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr y grwpiau ffocws hefyd rywfaint o ymwybyddiaeth o sut y mae'r gyllideb yn cael ei hariannu o ran datganoli, ond nid o'r symiau penodol a'r trethi penodol dan sylw.[170]

## Incwm Trethi Datganoledig a Rhagolygon

**146.** Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn nodi, o'u cymharu â mis Mawrth 2023, fod rhagolygon CTIC wedi cynyddu £231 miliwn (7.5 y cant) ar gyfartaledd ar gyfer y cyfnod hyd at 2027-28.[171] Mae'r newidiadau hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu diwygiadau i ragolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer y DU gyfan, yn bennaf oherwydd enillion uwch ynghyd â rhewi'r trothwy treth personol.

**147.** Pan ofynnwyd iddi egluro'r rhesymau dros ei rhagolwg uwch, dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y canlynol wrth y Pwyllgor:

---

[165] Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu - y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2023, paragraff 40
[166] Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu - y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2023, paragraff 40
[167] Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu - y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2023, paragraff 42
[168] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Consortiwm Manwerthu Cymru (Saesneg yn unig)
[169] Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu - y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2023, paragraff 39
[170] Adroddiad Cryno, ar Ymgysylltu - y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2023, Atodiad B, paragraff 69
[171] Rhagolwg Trethi Cymreig: Rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer trethi datganoledig Cymreig, Rhagfyr 2023, tudalen 22

> *"… by far the biggest reason for the increase in the forecast is the increase in the UK-wide income tax forecast … and that was primarily due to the fact that between March and the autumn we saw higher inflation than we had previously expected … And combined with the freezes in the personal tax threshold, that has generated pretty significant fiscal drag, so pulling more people into higher rate tax bands or pulling more people into the tax system."*[172]

**148.** Cadarnhaodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fod y toriadau mewn cyfraniadau yswiriant gwladol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn natganiad hydref 2023 hefyd yn ffactor a gyfrannodd at ei diwygiadau tuag i fyny:

> *"… we have assumed that they lead to an increase in labour supply, and as a result of that increase in labour supply, with more people working or people working longer hours, that boosts income tax receipts, and a portion of that boost to income tax receipts increases the Welsh income tax forecast."*[173]

**149.** Ymhlith y ffactorau eraill a roddodd hwb i'r rhagolwg, ceir y canlynol:

> *"… welfare reform measures that the UK Government announced, and also measures to support childcare, which we similarly assumed boosts labour supply and therefore increased income tax in the UK and in Wales."*[174]

**150.** Dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid wrth y Pwyllgor y byddai rhewi trothwyon treth lwfans personol o fudd i sefyllfa treth net Llywodraeth Cymru.[175]

**151.** Cytunodd Dadansoddi Cyllid Cymru, gan nodi y bydd nifer y bobl sy'n talu'r gyfradd ychwanegol o dreth incwm yn cynyddu'n sylweddol[176] o ganlyniad i rewi trothwyon, ac ychwanegodd fod hyn hefyd yn gwneud pwerau trethu Llywodraeth Cymru yn fwy defnyddiol gan esbonio y byddai cynyddu'r gyfradd uwch a'r gyfradd ychwanegol hefyd yn arwain at ychydig mwy o refeniw.[177]

**152.** O ran a ellid gwella rhagolygon Cymru, cadarnhaodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei bod am wneud cynnydd pellach i sicrhau dealltwriaeth well o effaith

---

[172] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 31
[173] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 12
[174] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024, paragraff 13
[175] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 226
[176] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 228
[177] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 229

y lwfans personol, o ran ei gynyddu a'i rewi, ar y dreth a gesglir yng Nghymru a'r dreth a gesglir yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill.[178]

**153.** Fodd bynnag, teimlai Dadansoddi Cyllid Cymru hefyd y gellid gwneud gwelliannau i'r rhagolwg, gan gynnwys canolbwyntio ar newidiadau rhwng un mis Rhagfyr a'r mis Rhagfyr nesaf, yn hytrach na rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr.[179] Gofynnodd hefyd am y canlynol:

> *"… more detail on the forecast for comparable UK Government revenues and perhaps an outline of the block grant adjustments and how those are changing so that we can have a proper detailed analysis and narrative around how and why Wales is doing better at the moment than during the absence of tax devolution, because it's quite stark".*[180]

**154.** Pan ofynnwyd a oedd unrhyw wybodaeth neu allbynnau ychwanegol y byddai Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn ychwanegiadau gwerthfawr at yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, dywedodd y Gweinidog ei bod yn fodlon ar y wybodaeth a geir[181] a bod y system yn gweithio'n dda fel y mae.[182]

**155.** Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog y canlynol:

> *"… we don't feel, at the moment anyway, that there are any glaring gaps that urgently need to be filled, but we need to keep that under review."*[183]

**156.** O ran tueddiadau ehangach yn y rhagolygon datganoledig ar gyfer Cymru, cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol bapur gwaith ar 26 Hydref 2023 a oedd yn edrych yn fanwl ar dueddiadau o ran trethi incwm Cymru.[184] Canfu'r papur fod cyfran Cymru o drethi'r DU wedi gostwng drwy gydol y 2010au, ond bod y duedd hon wedi sefydlogi am y tair neu bedair blynedd diwethaf.[185] Cadarnhaodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei bod yn bwriadu gwneud gwaith

---

[178] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 96
[179] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraffau 217-218
[180] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraffau 217-218
[181] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 386
[182] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 389
[183] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 394
[184] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Papur Gwaith Rhif 21: Datblygiadau o ran treth incwm ddatganoledig, 26 Hydref 2023 (Saesneg yn unig)
[185] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraffau 21 a 22

pellach i ddeall y newidiadau i weld a all hynny ddweud mwy wrthym am esblygiad tebygol cyfran Cymru yn y dyfodol.[186]

**157.** Teimlai Dadansoddi Cyllid Cymru fod y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fel sail i'w rhagolygon yn eithaf cadarn a chanmolodd ei phapur gwaith drwy ddweud ei fod yn nodi'n fanylach yr hyn, yn hanesyddol, sydd wedi llywio'r gwahaniaethau ym mherfformiad y sylfaen drethu.[187]

## Addasiadau a Chysoniadau yn y Grant Bloc

**158.** Pan ofynnwyd i Lywodraeth Cymru a oedd yn rhagweld unrhyw newidiadau i'w chyllideb yn sgil y rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru yn cael eu cynyddu, esboniodd swyddog y Gweinidog y canlynol:

> *"There's that lag in terms of getting the outturn for the Welsh rates of income tax, and that means that the reconciliation is applied three financial years after the financial year in question … Overall, we've got around about £67 million additional to spend next year in relation to the devolved taxes and block-grant adjustments and reconciliations compared to the position as at the final budget last year. So, that's a positive movement."*[188]

**159.** Pan ofynnwyd iddi faint o amser y byddai'n ei gymryd i Lywodraeth Cymru gael ei halldro ar gyfer CTIC, dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol na fydd yn hysbys beth fydd yn digwydd o ran yr alldro am tua 18 mis, a hynny am fod oedi hir.[189]

**160.** Cydnabu swyddog y Gweinidog fod y broses yn cymryd amser hir ac mai CThEF sy'n gyfrifol am weinyddu'r system.[190] Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"It would obviously be preferable to have all of that done quicker than it is, but that's the quickest it can be done at the moment. It's something we'll continue to talk to HMRC about. It's really an HMRC thing rather than a Treasury thing."*[191]

---

[186] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraffau 26 a 27
[187] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 217
[188] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 79
[189] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 34
[190] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 82
[191] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 82

**161.** Fodd bynnag, pan ofynnwyd a fyddai diweddaru'r addasiad i'r grant bloc yn flynyddol, ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft, yn gallu lliniaru'r sefyllfa, dywedodd y Gweinidog y byddai'n cymhlethu ymhellach system sydd eisoes yn gymhleth.[192]

**162.** Ychwanegodd swyddog y Gweinidog fod angen mwy o amser ar Lywodraeth Cymru i ganfod manteision neu anfanteision cysoni'n fwy aml[193] ond y byddai'n rhywbeth y bydd yn edrych arno wrth fynd ymlaen.[194]

**163.** Nododd swyddog y Gweinidog hefyd fod dogfennaeth y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys rhagolygon am addasiadau i drethi datganoledig a'r grant bloc ac i'r rhain gael eu cynnwys am y tro cyntaf mewn ymateb i argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24,[195] a hynny er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y rhyngweithio rhwng rhagolygon treth ac addasiadau a chysoniadau i'r grant bloc.[196]

**164.** Nododd Dadansodi Cyllid Cymru fod datblygiad o'r fath i'w groesawu a'i fod yn llwyddo i esbonio'r dadansoddiad rhwng y refeniw gwirioneddol a'r cysoniadau, a dadansoddi'r ddau faes.[197]

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru

**165.** Yn ôl canllaw cyflym Llywodraeth Cymru, dyma'r amcangyfrif ar gyfer newid cyfraddau'r bandiau treth incwm o +/- 1c o ran refeniw treth Llywodraeth Cymru ar gyfer CTIC yn 2024-25:

- Cyfradd sylfaenol: +/- £263 miliwn
- Cyfradd uwch: +/- £40 miliwn
- Cyfradd ychwanegol: +£5 miliwn, -£6 miliwn[198]

**166.** Mae naratif y Gyllideb Ddrafft yn nodi'r canlynol:

> *"Yn unol â'i hymrwymiad i beidio â chymryd mwy mewn Cyfraddau Treth Incwm Cymru oddi wrth deuluoedd o Gymru am o leiaf cyhyd ag y mae effaith economaidd y pandemig yn*

[192] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 417
[193] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 422
[194] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 424
[195] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, argymhelliad 8
[196] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 80
[197] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 224
[198] Canllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2024, Tabl 1

*para, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig pennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2024-25 yn 10c."*[199]

**167.** Eglurodd y Gweinidog y rhesymau dros y penderfyniad hwn:

> *"… we do consider it afresh every year, but this year, again, we're very mindful of the fact that people are still experiencing the cost-of-living crisis and they've got the highest tax burden since after the second world war. You can't just think of Welsh rates of income tax in isolation from people's overall tax liabilities."*[200]

**168.** O ran yr opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, esboniodd y Gweinidog mai newid y gyfradd sylfaenol oedd yr unig opsiwn sydd ar gael a fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth gwirioneddol[201] i refeniw Llywodraeth Cymru, o ystyried mai nifer gymharol fach o bobl sydd yn y cyfraddau uwch ac ychwanegol.[202]

## Y Dreth Trafodiadau Tir

**169.** Yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, mae cyfanswm y derbyniadau a ragwelwyd o ran Treth Trafodiadau Tir £59 miliwn (16 y cant) yn is ar gyfartaledd rhwng 2023-24 a 2027-28 o'u cymharu â mis Chwefror 2023.[203]

**170.** O ran pam nad yw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagdybio unrhyw wahaniaeth ym mhrisiau tai rhwng Cymru a'r DU, dywedodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wrth y Pwyllgor fod prisiau a thrafodiadau yng Nghymru a'r DU wedi'u holrhain yn agos iawn dros y flwyddyn ddiwethaf ac nad oedd wedi gweld unrhyw reswm dros ragdybio y byddai unrhyw wahaniaeth yn y dyfodol.[204]

## Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

**171.** Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn nodi bod derbyniadau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi yn hanner cyntaf 2023-24 wedi gostwng £8.8 miliwn (35.3 y cant) o'u cymharu â'r un cyfnod y llynedd, wedi'i ysgogi gan ostyngiad ym maint y gwastraff cyfradd safonol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi.[205]

[199] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, paragraff 3.10
[200] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 439
[201] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 443
[202] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 443
[203] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg trethi datganoledig Cymreig, tudalen 31
[204] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 77
[205] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg trethi datganoledig Cymreig, tudalen 42

**172.** Pan ofynnwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am hyn, esboniodd y canlynol:

> *"… there are probably a couple of factors here. One is that generally subdued economic activity, compared to our previous forecast, may have had some impact in reducing waste. But I think the bigger effect is due to some capacity issues at some of the landfill sites, based on information that we have from the Welsh Revenue Authority and the operators. And so, on that basis, although we assume some of that shortfall persists through the forecast, we don't assume that all of it persists. So, essentially, we assume that some of that unexpected weakness will unwind over the forecast period."*[206]

**173.** O ran a oedd trafodaethau wedi'u cynnal ag Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ynghylch diffyg data am beidio â chydymffurfio, cadarnhaodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y canlynol:

> *"… we discussed that in the report, and that is an area that we will be doing more work with analysts in Welsh Government and the Welsh Revenue Authority on."*[207]

**174.** Fodd bynnag, rhoddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sicrwydd i'r Pwyllgor pan nododd y canlynol:

> *"It doesn't mean that we are not capturing any kind of non-compliance in our forecast, because, essentially, non-compliance that may be happening now is built into the baseline from which we project."*[208]

**175.** Ychwanegodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fel a ganlyn hefyd:

> *"I don't think there's any problem that we feel we have that information is sort of being withheld … We have a good working relationship with all our counterparts in Wales, so I think it's more about developing the ability to collect and assess this information."*[209]

[206] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 83
[207] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 85
[208] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 85
[209] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 88

**176.** Pan holwyd y Gweinidog am y rhesymau dros y diffyg data ynghylch peidio â chydymffurfio sy'n gysylltiedig â'r dreth gwarediadau tirlenwi, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"… the OBR revenue forecast for LDT implicitly assumes that current levels of non-compliance remain constant throughout the forecast, but I do have regular meetings with the Welsh Revenue Authority, and we, inevitably, talk about LDT and collection, and they talk about the work that they're doing to identify the main areas of risk."*[210]

## Ardrethi Annomestig

**177.** Yn naratif y Gyllideb Ddrafft, mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau y bydd yn capio'r cynnydd i'r lluosydd ardrethi annomestig yng Nghymru i 5 y cant ar gyfer 2024-25 ar gost o £18 miliwn eleni.[211] Mae rhyddhad o 40 y cant ar gyfer manwerthu, hamdden a lletygarwch wedi'i gapio ar £110,000 y busnes (yn hytrach na 75 y cant yn Lloegr) ar gost o £78 miliwn.[212]

**178.** Galwodd nifer o ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor, a gyflwynodd eu sylwadau cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi, ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio ei phwerau cyllidol i gefnogi busnesau.

**179.** Gofynnodd Consortiwm Manwerthu Cymru am ymagwedd at dreth sy'n helpu manwerthwyr i gadw prisiau i lawr i siopwyr ac sy'n helpu cyrchfannau manwerthu ac adeffaith twf economaidd a galwodd ar Lywodraeth Cymru i ddiystyru unrhyw godiad yn yr ardrethi busnes.[213] Galwodd hefyd ar Lywodraeth Cymru i bennu cynllun wedi'i amserlennu i ostwng yr ardrethi busnes yn barhaol dros y tymor canolig i lefel fwy cynaliadwy yn ariannol i gwmnïau.[214]

**180.** Galwodd y Ffederasiwn Busnesau Bach hefyd ar Lywodraeth Cymru i estyn y rhyddhad ardrethi o 75 y cant ar gyfer busnesau yn y sector lletygarwch, twristiaeth a hamdden fel nod wedi'i dargedu ac un hanfodol i fynd i'r afael â'r heriau unigryw y mae'r diwydiannau hyn yn eu hwynebu.[215]

**181.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai dyma oedd un o'r dewisiadau anoddaf y bu'n rhaid iddi ei wneud o ganlyniad i'r ffocws ar wasanaethau

---

[210] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 396
[211] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, paragraff 3.19
[212] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, paragraff 3.19
[213] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Consortiwm Manwerthu Cymru (Saesneg yn unig)
[214] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Consortiwm Manwerthu Cymru (Saesneg yn unig)
[215] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ffederasiwn Busnesau Bach (Saesneg yn unig)

cyhoeddus rheng flaen craidd. Amlinellodd hefyd y cymorth sydd ar gael i'r sector yn y Gyllideb Ddrafft:

> *"For the retail, hospitality and leisure sector, we've decided to set that relief at 40 per cent for next year, so essentially tapering down from what was only ever intended to be a short-term relief in any case, but also putting in place a £20 million capital fund so that businesses will be able to look to that fund to provide support for becoming more sustainable in future … So, we did take a different approach. It's worth as well just remembering that we spend £384 million a year supporting businesses with their rate relief in Wales, and that's a really significant investment."*[216]

## Datganoli pwerau trethu ymhellach

**182.** Argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 y dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith cychwynnol ar y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau i addasu bandiau a throthwyon CTIC.[217] Yn ei hymateb, cytunodd Llywodraeth Cymru â'r argymhelliad mewn egwyddor, ond cydnabu y:

> *"Byddai hyn yn newid sylweddol yng nghyfrifoldebau trethi datganoledig Llywodraeth Cymru a byddai'n golygu bod yn llawer mwy agored i risg twf cymharol yn y sylfaen drethu rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU."*[218]

**183.** Roedd rhywfaint o gefnogaeth i ddatganoli pwerau trethu ymhellach gan ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor. Roedd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru am weld ystyriaeth ddifrifol yn cael ei rhoi i ddefnyddio ffynonellau mwy blaengar o refeniw treth, fel cynnydd mewn treth incwm ddatganoledig, neu ddiwygio treth incwm i gynnwys mwy o fandiau a hyblygrwydd fel yn yr Alban.[219]

**184.** Roedd Sefydliad Bevan hefyd eisiau gweld camau'n cael eu cymryd i gynyddu'r sylfaen drethu yng Nghymru, a hefyd i barhau i archwilio posibilrwydd trethi datganoledig newydd.[220] Tynnodd sylw at gyfyngiadau'r pwerau presennol,

---

[216] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 98
[217] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, argymhelliad 6
[218] Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Mawrth 2023, tudalen 3
[219] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Grŵp Cyllideb Menywod Cymru (Saesneg yn unig)
220 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 310

gan nodi ei bod yn anodd iawn i Lywodraeth Cymru fynd ar drywydd agenda gwrth-gyni a hynny o ganlyniad i'r setliad sydd gennym.[221]

**185.** Pan ofynnwyd iddi am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ei phwerau trethu, dywedodd y Gweinidog fod y system sydd gennym ar hyn o bryd yng Nghymru yn newydd, a'i bod yn dal i ymsefydlu, ond ei bod wedi profi ei bod yn fanteisiol yn ei barn hi.[222] Fodd bynnag, cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at fanteision model trethi yr Alban o ran cyflawni ystod ehangach o allbynnau polisi:

> *"… if you do have a larger range of bands, then you can offer relative protection to people on the lower bands. So, there are more policy choices that you could make in that kind of scenario, whilst also taking on board the financial risk to the budget."*[223]

**186.** Ychwanegodd y Gweinidog fel a ganlyn:

> *"… we are interested in what they're doing in Scotland, and we do need to consider what the implications might be for us here in Wales … but there are certain risks."*[224]

**187.** O ran datblygu dealltwriaeth well o drethi datganoledig, soniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn rhan o grŵp sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, swyddogion o'r Alban, Comisiwn Cyllidol yr Alban, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a CThEF, a'u bod yn edrych unwaith eto ar ddatblygiadau data a datblygiadau dadansoddol sy'n digwydd ar draws y DU.[225]

**188.** O ran datganoli pwerau i alluogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno trethi newydd, nododd y Gweinidog yn ystod y gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr 2022 y bu oedi o ran cynnydd ar dreth ar dir gwag.[226] Cadarnhaodd y Gweinidog na fu unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn pan gafodd ei holi am hyn ac ychwanegodd y canlynol:

> *"… it seems that if the UK Government understands, approves of and agrees with a policy behind devolving a tax, then it's happy to do it, whereas if it's not something the UK Government*

[221] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 311
[222] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 412
[223] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 457
[224] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 412
[225] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 387
[226] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 109

> *already intends to do itself in England, then it will just continue to push back. So, the approach isn't very equitable."*[227]

## Ysgogiadau Cyllidol Eraill

### Benthyca a defnyddio cronfeydd wrth gefn

**189.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn amlinellu bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu tynnu £75 miliwn o Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2024-25,[228] ac mae'r Adroddiad ar Alldro 2022-23 yn cadarnhau bod y gronfa wrth gefn lawn o £350 miliwn wedi'i chario ymlaen i flwyddyn ariannol 2023-24.[229] O ran benthyca, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r uchafswm o £150 miliwn sydd ar gael iddi.[230]

**190.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor, mewn perthynas â benthyca, ei bod wedi'i chyfyngu i fenthyca £150 miliwn y flwyddyn, a hyd at £1 biliwn a'i bod wedi bod yn bwriadu benthyca'r uchafswm bob blwyddyn ers iddi gael y pwerau hynny.[231]

### Cyfalaf

**191.** Yn naratif y Gyllideb Ddrafft, mae Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd mwyafrif y dyraniadau ar gyfer cyfalaf cyffredinol yn aros yr un fath ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon.[232] Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'i dull gor-raglennu o ran cyllidebu ar gyfer cyfalaf,[233] ac eglurodd hefyd nad oedd dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chyllid cyfalaf wedi newid ers datganiad hydref 2021 y DU:

> *"Our plans on capital haven't changed significantly since we set them at the point at which we undertook our zero-based review, and that was as part of our 2021 spending review, which looked across the next three years. So, we haven't significantly changed those, although we would hope—as we would hope this year—to be able to potentially switch some capital to revenue."*[234]

---

[227] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 89
[228] Llywodraeth Cymru, Tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwario
[229] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Alldro 2022-23, Rhagfyr 2023, tudalen 19
[230] Llywodraeth Cymru, Tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwario
[231] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 73
[232] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, paragraff 4.18
[233] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 75
[234] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 17

**192.** Nododd ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor fod angen mwy o fuddsoddiad cyfalaf mewn meysydd penodol. Galwodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru am fwy o gyllid cyfalaf i sicrhau bod ganddo ddigon o gartrefi fforddiadwy i ddiwallu'r angen cynyddol yng Nghymru ac i oresgyn yr argyfwng tai presennol,[235] a chododd Cymorth Cymru[236] a CLlLC yr un mater.[237]

**193.** Galwodd Conffederasiwn GIG Cymru hefyd am gyllid cyfalaf pellach i gefnogi cyrff cyhoeddus i gyrraedd y targed Sero Net erbyn 2030 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru ac ychwanegodd fod diffyg cyllid cyfalaf a buddsoddiad yn rhwystr mawr i ddarparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol.[238]

**194.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, esboniodd Dadansoddi Cyllid Cymru fod pwysau chwyddiant ers i'r cyllidebau cyfalaf hyn gael eu pennu yn natganiad hydref 2021 y DU yn erydu gwerth y gyllideb yn sylweddol, a'i fod o'r farn y gallai grant bloc craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf craidd ostwng tua 15 y cant mewn termau real erbyn 2028-29.[239]

**195.** Ychwanegodd Dadansoddi Cyllid Cymru fod y pwysau hyn wedi effeithio'n arbennig ar brosiectau adeiladu a seilwaith.[240]

**196.** Soniodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd y gallai penderfyniad Llywodraeth Cymru i newid cyfalaf i gyllido adnoddau er mwyn blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau rheng flaen waethygu'r pwysau ar gyllidebau cyfalaf ymhellach:

> *"Whilst there's been this £800 million top-up for resource spending, there's been no top-up for capital, so the pressure was already building there, and the switch from capital to resource will add to that pressure on the capital budgets."*[241]

**197.** Ychwanegodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ei chyllidebau cyfalaf yn gadarn yn sgil hynny[242] ond awgrymodd hefyd y canlynol:

---

[235] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Sefydliad Tai Siartredig Cymru (Saesneg yn unig)
[236] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cymorth Cymru (Saesneg yn unig)
[237] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[238] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)
[239] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 149
[240] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 149
[241] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 137
[242] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 160

*"… one way it can maximise capital investment in Wales is by creating an enabling environment that allows local government to feel confident to maximise their use of their prudential borrowing powers."*[243]

**198.** Ychwanegodd y canlynol:

*"I think those two things—more clarity for local government and more flexibility—will help them maximise prudential borrowing, which is an important source of actual capital investment, especially for things like schools and local transport schemes."*[244]

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

**199.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys rhai dyraniadau o gyfalaf trafodiadau ariannol a chaiff dyraniadau pellach eu gwneud yn y Gyllideb Derfynol.[245] Mae naratif y Gyllideb Ddrafft yn nodi bod:

*"… yr amserlenni ar gyfer datblygu cynigion a chyhoeddi Datganiad Hydref y DU yn hwyr wedi cyfyngu ar ein gallu i wneud dyraniadau FT llawn fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft."*[246]

**200.** Pan ofynnwyd iddi am y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai unrhyw ailddyrannu cyfalaf rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn ymwneud â dyrannu cyfalaf trafodiadau ariannol, a hynny am nad oes cyfalaf ychwanegol i'w ddyrannu.[247]

**201.** Ychwanegodd y canlynol:

*"… the only new funding will be in relation to financial transactions capital. I did announce £41 million of financial transactions at the draft budget, but I expect to announce some more, as we continue to work through those plans, at the final budget."*[248]

[243] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 160
[244] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 160
[245] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, paragraff 4.20
[246] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, paragraff 4.20
[247] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 485
[248] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 485

## Barn y Pwyllgor

**202.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r safbwyntiau ar drethiant a fynegwyd yn ystod ein gwaith ymgysylltu ac mewn ymateb i'n hymarfer ymgynghori, ac yn croesawu'r amrywiaeth barn ynghylch cynyddu a gostwng trethi. Rydym yn croesawu'r ffaith yr ymddengys fod cryn dipyn o ymwybyddiaeth o drethi datganoledig ac yn gobeithio bod y trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â'r rhain yn adlewyrchu aeddfedrwydd cynyddol yn y drafodaeth ynghylch trethiant yng Nghymru.

**203.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r rhesymau a ddarparwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ynghylch pam y mae ei rhagolygon treth incwm ar gyfer Cymru wedi cynyddu, ac mae'n nodi mai tueddiadau'r DU gyfan sy'n bennaf cyfrifol am hyn. Canfu'r Pwyllgor hefyd fod asesiad diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o drethi Cymru, sy'n dangos sut y mae tueddiadau mewn trethi incwm Cymru yn cymharu â thueddiadau ehangach y DU, yn arbennig o ddefnyddiol ac mae'n cytuno â'r Gweinidog bod y wybodaeth a gynhyrchir yn gadarn ac yn gynhwysfawr.

**204.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu gwaith a wnaed gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei phapur gwaith ar ddatganoli a'r camau a gymerwyd i wella ei methodoleg benodol i Gymru mewn perthynas â rhagfynegi trethi. Mae datblygu trethiant datganoledig yng Nghymru yn dibynnu ar ddata cywir ac ystyrlon. Mae'r Pwyllgor yn hyderus y bydd dull y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn gwella'n fawr ein dealltwriaeth o sut y mae sylfaen drethu Cymru yn newid ac y bydd hyn yn helpu i lywio dulliau o ymdrin â threthi datganoledig yn y dyfodol.

**205.** Mae'r Pwyllgor yn falch o weld bod gwybodaeth a ddarparwyd yn y Gyllideb Ddrafft yn dangos refeniw, addasiad i'r grant bloc ac effaith refeniw net ar gyfer pob un o'r trethi datganoledig. Fel y nodwyd gan y Gweinidog, cafodd y wybodaeth hon ei chynnwys am y tro cyntaf mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24.[249] Rydym yn croesawu hyn fel datblygiad cadarnhaol sydd wedi darparu haen ychwanegol o eglurder a disgwyliwn weld gwybodaeth o'r fath yn cael ei chynnwys yn nogfennaeth y gyllideb yn y dyfodol.

**206.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch sut y caiff yr addasiad i'r grant bloc ei gyfrifo ac yn enwedig yr oedi rhwng rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a'r sefyllfa alldro, pan fo refeniw ar gael i Lywodraeth Cymru.

[249] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, argymhelliad 8

Er bod y Pwyllgor yn rhwystredig gyda'r amser y mae'r broses hon yn ei gymryd, rydym yn cydnabod y gallai fod risgiau'n gysylltiedig â symleiddio'r dull gweithredu presennol. Rydym felly'n galw ar y Gweinidog i fonitro'r broses hon ac i ddefnyddio'r data a gesglir i ystyried a ellid gwneud newidiadau i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu cael mynediad at unrhyw gynnydd yn y cyllid a gaiff o ganlyniad i unrhyw addasiadau yn gynt.

**207.** Mae'r Pwyllgor yn nodi penderfyniadau Llywodraeth Cymru i gadw cyfraddau trethi datganoledig yn gymharol sefydlog ar gyfer 2024-25 ac mae'n credu bod hwn yn ddull pragmatig o fewn y cyd-destun economaidd presennol, yn enwedig o ystyried y cynnydd mewn costau byw a'r wasgfa barhaus ar incwm aelwydydd.

**208.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus ynghylch y diffyg data a gasglwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru ar weithgarwch peidio â chydymffurfio sy'n ymwneud â threth gwarediadau tirlenwi a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gynhyrchu rhagolygon cywir. Rydym yn nodi bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn bwriadu gweithio'n agos gyda dadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru ar y mater hwn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn falch bod perthynas waith dda yn bodoli rhwng y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac Awdurdod Cyllid Cymru ac nad yw gwybodaeth sy'n ymwneud â'r mater hwn yn cael ei chadw'n ôl yn fwriadol. Serch hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid mynd i'r afael â'r materion hyn i sicrhau nad yw problemau'n parhau a galwn ar y Gweinidog i roi sicrwydd na fydd bylchau o'r fath mewn data yn rhwystro'r gwaith o ragweld treth gwarediadau tirlenwi yn y dyfodol.

**209.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r farn a fynegwyd ynghylch cyfyngiadau pwerau presennol Llywodraeth Cymru dros dreth incwm, gan gynnwys y symiau cymharol fach o gyllid y gellid eu codi drwy'r cyfraddau treth incwm datganoledig presennol. Nodwn hefyd anallu Llywodraeth Cymru i gyflwyno bandiau a throthwyon treth newydd, yn wahanol i bwerau Llywodraeth yr Alban. Rydym yn siomedig â'r diffyg cynnydd o ran datganoli pwerau i gyflwyno trethi newydd, ac yn cefnogi'r Gweinidog yn ei hymdrechion i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y materion hyn.

**210.** Mae'r Pwyllgor wedi galw ar Lywodraeth Cymru yn y gorffennol i wneud gwaith sylfaenol i'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau i addasu bandiau a throthwyon CTIC.[250] Er ein bod yn cydnabod bod risgiau yn gysylltiedig â datganoli pwerau o'r fath, mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r Gweinidog yn archwilio'r opsiwn hwn â mwy o frwdfrydedd. Byddai'n galluogi

[250] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, argymhelliad 6

Llywodraeth Cymru i ddatblygu cyfundrefn treth incwm fwy blaengar yng Nghymru, yn unol â nodau eang ei pholisi treth a, thrwy hynny, ganiatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu polisïau treth mwy effeithiol ar gyfer y rhai sy'n ennill cyflogau uwch.

**211.** Er gwaethaf hyn, mae'r Pwyllgor yn falch bod y Gweinidog yn mabwysiadu agwedd agored a phragmatig at y mater. Rydym hefyd yn cytuno â'r Gweinidog ei bod yn hanfodol deall effaith pwerau o'r fath mewn cyd-destun Cymreig cyn ystyried a ddylid datganoli pwerau pellach.

**212.** Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn y grŵp sy'n edrych ar ddata a datblygiadau dadansoddol sy'n ymwneud â threthiant ledled y DU, sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, swyddogion o Lywodraeth yr Alban, Comisiwn Cyllidol yr Alban, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a CThEF. Rydym yn falch bod y lefel hon o ymgysylltu ar faterion yn ymwneud â threthi yn bodoli ar draws y weinyddiaeth ddatganoledig a llywodraeth ganolog a gofynnwn i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ddatblygiadau.

**213.** Mynegodd y Pwyllgor bryderon y llynedd ynghylch lefel cyllidebau cyfalaf Llywodraeth Cymru a galwodd am ragor o fanylion am sut y bydd cyllidebau cyfyngedig a phwysau chwyddiant yn effeithio ar ei rhaglen gyfalaf.[251] Mae'r Pwyllgor o'r farn bod cwestiynau yn parhau ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn ei hamlen cyllideb gyfalaf, yn enwedig o ystyried ei bod wedi erydu'n sylweddol ers i'r cyllidebau gael eu pennu ar adeg datganiad hydref y DU yn 2021.

**214.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd diweddariad llawn ar fapio cyfalaf yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol ar 27 Chwefror 2024. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o effaith chwyddiant ar brosiectau cyfalaf, yn enwedig ym maes adeiladu ysgolion ac mae'n pryderu nad oedd yn bosibl deall o ddogfennaeth y gyllideb pa gynlluniau cyfalaf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni yn 2024-25. Roedd yn arbennig o anodd i'r Pwyllgor ganfod a yw prosiectau wedi'u hailflaenoriaethu, eu cwtogi neu eu hailbroffilio dros nifer o flynyddoedd a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar sicrhau canlyniadau yn 2024-25, yn enwedig o ystyried bod cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf wedi gostwng mewn termau real.

**215.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod mai ychydig o ysgogiadau sydd ar gael i'r Gweinidog i hybu'r agwedd hon ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i

[251] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, argymhelliad 9

ddatblygu amgylchedd sy'n galluogi llywodraeth leol i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'i phwerau benthyca darbodus i hybu capasiti cyfalaf. Credwn fod rhinweddau i hyn, a gofynnwn i'r Gweinidog edrych ar ffyrdd y gellid meithrin dull o'r fath.

**216.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y Gweinidog yn gobeithio y bydd yn gallu newid cyfalaf yn gyllid refeniw, fel y bwriedir yn ystod blwyddyn ariannol gyfredol 2023-24. Rydym yn deall pam y mae'r Gweinidog wedi mabwysiadu'r dull hwn ac yn cydnabod bod risg yn perthyn iddo o ystyried bod angen cytundeb y Trysorlys, a deallwn nad yw hynny wedi'i roi. Galwn felly ar y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf cyn gynted ag y bydd y Trysorlys yn ystyried cais Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag egluro effaith gyllidebol y cais os caiff ei wrthod.

**217.** Mae'r Pwyllgor yn nodi, ymhellach, fod amseriad datganiad hydref 2023 y DU wedi cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i wneud dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol llawn fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft. Mae'r Pwyllgor wedi argymell yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ddyraniadau trafodiadau ariannol.[252] Mae'n siomedig felly na roddwyd sylw i'r materion hyn a galwn am eglurder ynghylch dyraniadau trafodiadau ariannol ar gyfer 2024-25 cyn gynted â phosibl, ac i'r wybodaeth hon fod ar gael yn gynt mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn ymrwymo i fonitro tueddiadau ym maint addasiadau i'r grant bloc dros amser; ac
- yn defnyddio data o'r fath i ystyried a ellid gwneud newidiadau i'r broses o wneud cysoniadau drwy addasiadau i'r grant bloc, er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gael mynediad cyflymach at unrhyw gynnydd yn ei chyllid.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac Awdurdod Cyllid Cymru i sicrhau bod ei brosesau ar gyfer casglu a rhannu data peidio â chydymffurfio cyhoeddus sy'n ymwneud â'r dreth gwarediadau tirlenwi yn addas at y diben, ac yn rhoi sicrwydd na fydd problemau yn y maes hwn yn parhau.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf erbyn toriad yr haf ar drafodaethau a gynhaliwyd gyda

[252] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, argymhelliad 12

Llywodraeth yr Alban, Comisiwn Cyllidol yr Alban, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ynghylch data a datblygiadau dadansoddol sy'n ymwneud â threthiant ledled y DU, ac yn darparu asesiad ynghylch a oes lle i wella pwerau trethiant presennol Llywodraeth Cymru yn sgil unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd.

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y cynlluniau cyfalaf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni yn 2024-25 yn nogfennaeth ei chyllideb derfynol, gan gynnwys manylion prosiectau sydd wedi'u hailflaenoriaethu, eu cwtogi neu eu hailbroffilio dros nifer o flynyddoedd yn sgil y cyfyngiadau cyllidebol yn y maes hwn.

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud y mwyaf o fuddsoddiadau cyfalaf drwy weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu amgylchedd galluogi a fyddai'n caniatáu i lywodraeth leol ddefnyddio ei phwerau benthyca darbodus i hybu capasiti o fewn ei chyllidebau cyfalaf.

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw'r Trysorlys wedi cytuno ar gais Llywodraeth Cymru i newid cyllid o gyfalaf yn refeniw, ac yn rhoi gwybodaeth i egluro'r effaith gyllidebol os caiff y cais hwn ei wrthod, gan gynnwys manylion prosiectau, polisïau a mentrau unigol y byddai hynny'n effeithio arnynt.

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnwys penderfyniadau a dogfennaeth sy'n ymwneud â dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol a chyffredinol fel rhan o ddogfennaeth y Gyllideb Ddrafft yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod cyfle i graffu ar gynlluniau fel rhan o'r broses graffu ar y Gyllideb Ddrafft.

# 5. Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cyhoeddus

**218.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r canlynol am ei setliad cyllideb gan Lywodraeth y DU:

> *"… nid yw ein setliad yn ddigonol i ymateb i'r pwysau eithafol sydd ar wasanaethau cyhoeddus, oherwydd chwyddiant parhaus, setliadau cyflog heb eu hariannu, costau ynni uwch a galw cynyddol."*[253]

**219.** Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"Mae cyfyngder yr amgylchiadau ariannol eithriadol yr ydym yn eu hwynebu wedi golygu bod angen dull gweithredu mwy sylfaenol."*[254]

**220.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y dull mabwysiedig yn golygu "gwneud penderfyniadau anodd iawn i ailddylunio"[255] ei chynlluniau gwariant yn sylweddol a bod ei blaenoriaethau yn cynnwys "diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cymaint â phosibl". Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"Mae'r blaenoriaethau hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio dyraniadau ar y meysydd hynny sy'n darparu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau. Ymhlith ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer cyllid mae gwasanaethau rheng flaen y GIG a setliad craidd llywodraeth leol, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol."*[256]

**221.** Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y canlynol:

> *"…hyd yn oed gyda'r buddsoddiad ychwanegol hwn, bydd byrddau iechyd a chynghorau yn wynebu pwysau sylweddol a dewisiadau anodd wrth reoli eu setliadau yn 2024-25."*[257]

[253] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 4
[254] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 31
[255] Llywodraeth Cymru, Cyllideb i ddiogelu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i chi, Rhagfyr 2023
[256] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 4
[257] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 32

## Cynaliadwyedd Ariannol

### GIG Cymru

**222.** Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd GIG Cymru yn derbyn £450 miliwn ychwanegol ar gyfer 2024-25,[258] sy'n ychwanegol at y £425 miliwn o gyllid fel rhan o'i ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023.[259] Nododd fel a ganlyn:

> *"Mae hyn gyfwerth â chynnydd o fwy na 4% yn 2024-25, o'i gymharu â llai nag 1% ar gyfer y GIG yn Lloegr."*[260]

### Pwysau ar wasanaethau

**223.** Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru. Roedd hwn yn nodi pump o "uchelgeisiau allweddol" i leihau amseroedd aros.[261]

**224.** Roedd y data amseroedd aros ar gyfer mis Medi 2023 yn dangos nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflawni Uchelgais 1 eto (Erbyn diwedd 2022, ni fydd neb yn aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cleifion allanol cyntaf) ac Uchelgais 2 (Erbyn mis Mawrth 2023, cael gwared ar restrau aros o fwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau). Dyddiadau targed ar gyfer Uchelgeisiau 3-5 yw gwanwyn 2024.[262]

**225.** Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod y data amseroedd aros ar gyfer mis Medi 2023 yn dangos galw cynyddol a bod hyn yn dod ar adeg o heriau ariannol, gan ychwanegu'r canlynol:

> *"... unless we collectively tackle demand – that is, all sectors and government departments doing all they can to support the population's health and wellbeing – the sustainability of health and care services will be at risk."*[263]

---

[258] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 23
[259] Llywodraeth Cymru, Diweddariad ar Sefyllfa Ariannol 2023-24, Hydref 2023, tudalen 7
[260] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 19
[261] Llywodraeth Cymru, Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru, Ebrill 2022
[262] Llywodraeth Cymru, Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru, Ebrill 2022
[263] Conffederasiwn y GIG, 'Autumn demand doesn't bode well for winter', (Saesneg yn unig) Tachwedd 2023

**226.** Dywedodd y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"… we're also seeing an increase in pressure and demand at the front-door, and acuity of demand as well. When people are coming into the NHS, the problems they've got are generally more serious."*[264]

**227.** Wrth ymateb i ddata ar amseroedd aros y GIG ar gyfer mis Hydref 2023, dywedodd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

> *"Mae'n siomedig gweld rhestrau aros cyffredinol yn cyrraedd eu lefelau uchaf ers dechrau cadw cofnodion."*[265]

**228.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod amrywiaeth o ysgogiadau allanol wedi cael effaith sylweddol ar GIG Cymru, gan arwain at fwy o ansicrwydd a diffygion ariannol.[266] Mae'r rhain yn cynnwys diffygion sylfaenol o 2022-23, pwysau o ran cyflogau'r gweithlu, chwyddiant a gwariant uwch ar feddyginiaeth a phresgripsiynau.[267]

**229.** Dywedodd hefyd fod dyraniadau cyllideb 2023-24 yn rhagdybio y gellid cael gwared ar bwysau costau yn sgil COVID-19 wrth i'r GIG ddod yn llai agored i weithrediadau y cyfyngwyd arnynt gan COVID-19.[268]

**230.** Fodd bynnag, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrth y Pwyllgor fod effaith COVID-19 yn parhau i roi pwysau ar wasanaethau'r GIG, er enghraifft, o ran rheoli capasiti gwelyau ychwanegol sy'n dal i fod ar waith, rhedeg rhaglenni brechu a risgiau rheoli heintiau.[269] Ychwanegodd fel a ganlyn:

> "… we changed the shape of services and we put in capacity during the time of COVID that is now baked in … to our cost base."[270]

[264] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 87
[265] Llywodraeth Cymru, Ymateb y Gweinidog Iechyd i ddata perfformiad diweddaraf GIG Cymru – Hydref a Thachwedd 2023
[266] Y Pwyllgor Cylid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)
[267] Y Pwyllgor Cylid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)
[268] Y Pwyllgor Cylid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)
[269] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 161
[270] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 161

### Cynhyrchiant a Chanlyniadau'r GIG

**231.** Yn dilyn gwaith craffu ar gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23[271],[272] a 2023-24,[273] argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y canlyniadau yr oedd yn disgwyl i GIG Cymru eu cyflawni ar gyfer y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd, gan gynnwys dyraniadau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o driniaethau.

**232.** Wrth ymateb i'r argymhellion hynny, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at ei rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru.[274] Fodd bynnag, er ei bod yn darparu ystod o wybodaeth, nid oedd yn cynnwys canlyniadau meintiol yr oedd yn disgwyl i GIG Cymru eu cyflawni ar gyfer y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd.[275]

**233.** Mewn perthynas â'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2024-25 a'r cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"The Government and the Minister have been quite clear in the expectations that they're setting. The additional allocations I think were ultimately to stabilise the service… the additional allocations are dependent and need a commitment from the NHS to deliver on planned care and reduce waiting times."*[276]

**234.** Wrth wneud sylwadau ar y pwysau sy'n y mae'r GIG yn eu hwynebu, dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod problem cynhyrchiant sylfaenol o hyd, o leiaf, yn y GIG.[277] Adlewyrchwyd y mater hwn hefyd yn y dystiolaeth a ddarparwyd gan Dadansoddi Cyllid Cymru, a ddywedodd fel a ganlyn:

> "… there are more resources available for the NHS, but activity rates or activity in the NHS hasn't really grown by as much, which suggests… that there are demand changes, and also, in terms of the productivity of the NHS, how much healthcare that budget provides perhaps hasn't been increasing suggesting, maybe, that

[271] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, Argymhelliad 23
[272] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2022-23, Gorffennaf 2022, Argymhelliad 11
[273] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, Argymhelliad 23
[274] Tudalennau gwe'r Pwyllgor Cyllid, cyllideb Llywodraeth Cymru
[275] Tudalennau gwe'r Pwyllgor Cyllid, cyllideb Llywodraeth Cymru
[276] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 105
[277] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 181

> the pandemic has had a longer term hit on the productivity in the health service."[278]

**235.** Awgrymodd Dadansoddi Cyllid Cymru hefyd fod angen cynllunio tymor canolig a hir mewn perthynas â recriwtio a hyfforddi staff newydd i wella cynhyrchiant.[279] Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"That I think, is the only way that you can reduce the amount of time that people are staying in hospital beds that don't necessarily need to be there, for example."*[280]

**236.** Wrth wneud sylwadau ar gynhyrchiant is o fewn y GIG ar lefel y DU gyfan, awgrymodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid boblogaeth oedrannus gynyddol a chymhlethdod achosion, fel ffactorau sydd wedi effeithio ar newidiadau yn y galw.[281]

**237.** O ran y sefyllfa yng Nghymru, ychwanegodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y canlynol:

> *"I think it is important to not just think about NHS funding, but NHS productivity and NHS operations as well. As it becomes a bigger and bigger share of the Welsh Government's budget, it becomes more important that it's delivering effectively, which also matters, of course, to people's health as well."*[282]

### Dyraniadau yn ystod y flwyddyn

**238.** Roedd y £460 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i Fyrddau Iechyd Lleol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023, yn cynnwys cymorth ariannol rheolaidd o £336 miliwn. O hyn, roedd £186 miliwn i gefnogi pwysau chwyddiant, a £150 miliwn ar gyfer "diffygion sylfaenol sefydliadol ac effaith reolaidd pandemig COVID ar y sylfaen costau."[283]

**239.** Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Fyrddau Iechyd Lleol leihau eu diffygion arfaethedig (neu orwariannau yn erbyn eu Dyraniadau Adnoddau Refeniw) ar

[278] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 177
[279] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 179
[280] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 179
[281] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 181
[282] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 182
[283] Llywodraeth Cymru, Dyraniadau a Chyfansymiau Rheoli Targed Byrddau Iechyd Lleol, Tachwedd 2023

gyfer 2023-24 10 y cant, gan nodi gorwariant cyffredinol o £123 miliwn ar gyfer y flwyddyn, sef y "Cyfanswm Rheoli Targed."[284]

**240.** Mewn ymateb i ba mor gyraeddadwy y bydd hyn i Fyrddau Iechyd Lleol, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru y bydd gan bob bwrdd iechyd safbwyntiau gwahanol.[285] Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb, lle roedd angen gwneud y gwelliant o 10 y cant, ond:

> *"That's not necessarily all recurrent, and so there is a challenge going into next year in terms of the underlying position that still needs to be addressed as part of our planning."[286]*

**241.** Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod y cyllid ychwanegol wedi cefnogi'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn ond nododd fel a ganlyn:

> *"… the delay between the original budget and the revised budget delayed collective action which could have improved the current financial position."[287]*

## Gofal Cymdeithasol

**242.** Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi pennu'r Setliad Llywodraeth Leol ar 3.1 y cant, gyda chyfanswm cyfraniad cyllid craidd o £5.7 biliwn. Dywedodd na fydd yr un awdurdod lleol yn cael llai na 2 y cant o gynnydd.[288]

**243.** Dywedodd Dadansoddi Cyllid Cymru wrth y Pwyllgor y canlynol ynghylch y Setliad dros dro:

> *"… it doesn't meet all of the pressures, [from higher inflation since the 2024-25 indicative allocations were initially set] but it's somewhat protected in terms of the big hit."[289]*

**244.** Dywedodd CLILC fod:

> *"pryder gwirioneddol, gyda maint yr heriau ariannol sy'n cael eu hwynebu, na fydd lefel yr amddiffyniad sydd wedi'i roi i*

[284] Llywodraeth Cymru, Dyraniadau a Chyfansymiau Rheoli Targed Byrddau Iechyd Lleol, Tachwedd 2023
[285] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 137
[286] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 137
[287] Y Pwyllgor Cylid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)
[288] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 24
[289] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 140

*wasanaethau cymdeithasol hyd yma yn bosibl am lawer hirach gan beryglu gallu'r cynghorau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn llwyddiannus."*[290]

**245.** Wrth wneud sylwadau ar effaith y pwysau ariannol y mae'r sector gofal cymdeithasol yn eu hwynebu, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y canlynol:

> *"I think the issue about protecting front-line services and one of the concerns, I think, for social care is that they are part of that local government family, and, whilst we welcome the 3.1 average settlement, it's not meeting the cost pressures that local authorities are finding at the moment. So, with significant in-year pressures last year and again this year, I think authorities have tried very hard to protect front-line services over the last few years, but I think now it's more difficult to do that, and, in fact, I think it's becoming impossible, because those services which, maybe, are not front-line, or are not social care or education related, have taken the brunt in previous years, and it's more and more difficult now for local authorities to be able to protect those front-line services in the way that they would want to because we don't have the funding available."*[291]

**246.** Pan ofynnwyd am effaith hyn, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y canlynol:

> *"…. what you would see is a rising of thresholds across adults' and potentially children's services as well. There's nowhere else to get the money from; there's no income mechanism, it's very prescribed in terms of where we must get involved and where we shouldn't. We're under significant statutory responsibilities, so there's no wriggle room. I suppose the only thing that you can do is how you interpret an assessment and how you then choose to provide the services, so you could meet the need and instead of meeting it through, I don't know, a 28-hour care*

[290] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad, CLlLC
[291] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 89

*package—that's four calls a day, seven days a week — maybe we could try and see if we could do it on just two calls."*[292]

**Pwysau ar wasanaethau**

**247.** Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, nododd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ei hadroddiad, a gyhoeddwyd ar y cyd â CLlLC, a oedd yn nododd y canlynol:

> *"… the social care sector in Wales is experiencing unprecedented and acute challenges. The number of people needing care and support has and continues to increase, which in turn is creating unsustainable financial and demand pressures on social care services in both adult and children's services."*[293]

**248.** Nododd nifer o ffactorau allweddol sy'n effeithio ar wasanaethau, gan gynnwys cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol, pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn, effaith ar y gweithlu, achosion cymhleth, goblygiadau polisi a ffactorau cyfrannol eraill.[294]

**249.** Roedd yr adroddiad ar y cyd hefyd yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â mynediad at Ofal Iechyd Parhaus, a ddisgrifir gan GIG Cymru fel "pecyn cyflawn o ofal parhaus … a gaiff ei drefnu a'i ariannu'n gyfan gwbl gan y GIG drwy fyrddau iechyd lleol (BILl), pan asesir bod angen sylfaenol yr unigolyn yn ymwneud â'i iechyd".[295] Yn ôl yr adroddiad:

> *"… local authorities were persistently having to fund the majority, if not all, of these care packages rather than health."*[296]

**250.** Fodd bynnag, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrth y Pwyllgor fod Gofal Iechyd Parhaus hefyd yn bwysau sylweddol ar y GIG, gan ychwanegu'r canlynol:

---

[292] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 172
[293] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC (Saesneg yn unig)
[294] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC (Saesneg yn unig)
[295] GIG Cymru, Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru, 2021
[296] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC (Saesneg yn unig)

> *"It's grown significantly over recent years. The work that's going on as part of the value and sustainability board is looking at the effectiveness of packages of care and monitoring our providers, but we're really conscious of the need not to just transfer issues to social care, so that is explicitly precluded as part of the work. It's about, 'Are we getting value for money and good packages of care that support people potentially to improve and be rehabilitated?' But not always, because we've got a range of different services within that designation. But, yes, we are not aiming to transfer pressure into social care through that work."*[297]

**251.** Nododd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC arolwg, a gynhaliwyd gan CLlLC gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru,[298] a ddangosodd fod y farchnad gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn fregus a bod hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd hirdymor y sector.[299]

## Llywodraeth leol

**252.** O ran y Setliad Llywodraeth Leol, dywedodd CLlLC wrth y Pwyllgor y canlynol ynghylch y cynnydd yn y cyllid ar gyfer 2024-25:

> *"It's welcome. That's £170 million more, and that will help us bridge some of the gap However, it only amounts to around a third of the pressure facing local services, so it will inevitably mean difficult choices, job losses and service cuts across local government."*[300]

### Pwysau ar wasanaethau

**253.** Darparodd CLlLC asesiad o'r pwysau cyffredinol yr oedd awdurdodau lleol yn eu hwynebu yn 2024-25, sef cyfanswm o £809 miliwn.[301] Nododd fod y pwysau hynny yn £604 miliwn yn 2025-26 ac yn £613 miliwn yn 2026-27.[302]

**254.** Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Dadansoddi Cyllid Cymru bapur ar y rhagolwg tymor canolig ar gyfer llywodraeth leol. Daeth i'r casgliad ei bod yn

[297] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 168
[298] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad, CLlLC
[299] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC (Saesneg yn unig)
[300] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 228
[301] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad, CLlLC
[302] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad, CLlLC

ymddangos bod cyllid awdurdodau lleol ar lwybr anghynaliadwy, ac y gallai fod gostyngiadau sylweddol mewn gwasanaethau lleol dros y blynyddoedd i ddod.[303]

**255.** Pan ofynnwyd a yw'r Gyllideb Ddrafft yn diogelu gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol, dywedodd CLlLC y canlynol:

> *"'Ydy hwn yn medru amddiffyn y gwasanaethau?' A'r ateb ydy 'Nac ydy'. Felly, er bod yna gynnydd wedi bod, mae'n bwysig nodi nad ydy'r cynnydd yn medru amddiffyn y gwasanaethau, ac rydyn ni i gyd yn edrych ar doriadau i'r gwasanaethau yna."*[304]

**256.** Oherwydd y pwysau ariannol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu a'r angen i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, dywedodd CLlLC y canlynol:

> *"… the impact it will have within the communities that we represent will be devastating, because of the areas that we service within the non-statutory services."*[305]

**257.** Nododd Dadansoddi Cyllid Cymru fod y bwlch ariannu llywodraeth leol wedi parhau i dyfu dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddweud fel a ganlyn:

> *"… there are big draw-downs on the reserves that local government have to fund day-to-day spending, and I think next year, in 2024-25, they'll be able to do that again on a Wales-wide level. Obviously, that will vary by local authority, their ability to do that."*[306]

**258.** Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"But I guess the crucial point then is that after 2024-25 that isn't a longer term solution to that growing funding gap, and based on the indicative spending plans of the UK Government and what that means for the Welsh Government, that funding gap is going to increase over the next years. You are going to see, perhaps, in terms of next year, it's likely that council tax will increase faster."*[307]

[303] Dadansoddi Cyllid Cymru, Rhagolwg cyllidol tymor canolig ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru (Saesneg yn unig), Hydref 2023
[304] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 235
[305] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 262
[306] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 190
[307] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 191

**259.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor am yr heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu o ran llunio cynllun ariannol tymor canolig.[308] Dywedodd CLlLC fel a ganlyn:

> *"… dydy'r un llywodraeth yn rhoi unrhyw arweiniad fel yna i ni. Mae o bron iawn yn gwneud ein swyddogaeth ni yn amhosibl…"*[309]

**260.** Cyfeiriodd y Gweinidog a'i swyddog at ffynonellau gwybodaeth eraill sydd ar gael i awdurdodau lleol i gynorthwyo gyda chynllunio hirdymor megis rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, ymchwil Dadansoddi Cyllid Cymru ac adroddiad y Prif Economegydd, gan ychwanegu'r canlynol:

> *"We'd love to be in a position where we're able to give longer term certainty. Whenever we can, we do."*[310]

**261.** Roedd y Gweinidog yn cydnabod y canlynol:

> *"I'm not going to pretend there are not really tough choices ahead for local government as a result of the settlement, but what I will say is that the settlement is the best that we could do in the circumstances."*[311]

**Addysg**

**262.** Mae naratif y gyllideb ar gyfer 2024-25 yn nodi fel a ganlyn:

> *"Mae nifer o fesurau diogelu ar waith ar gyfer cyllid ysgolion o dan bortffolio'r Gymraeg ac Addysg, a chyfuno ffrydiau cyllid grant i alluogi'r awdurdodau lleol i gael mwy o hyblygrwydd i ymateb a chyflawni yn yr amgylchiadau newidiol hyn."*[312]

**263.** Fodd bynnag, rhybuddiodd CLlLC:

> *"Mae hyd yn oed y cynghorau sydd wedi diogelu ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf yn dweud na allant roi'r un gefnogaeth yn y dyfodol o ystyried maint y bwlch ariannu."*[313]

---

[308] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 269
[309] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 269
[310] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 523-525
[311] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 592
[312] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 24
[313] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad, CLlLC

**264.** Wrth fyfyrio ar rai o'r problemau sydd gan ysgolion, dywedodd CLlLC fod penaethiaid yn dechrau adrodd am "effaith ddinistriol y toriadau ar safonau addysgol."[314]

**265.** Dywedodd CLlLC y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"Mae cyllidebau ysgolion yn rhywbeth sydd yn pryderu rhywun yn fawr iawn, ac yn enwedig y bore yma, pan rydyn ni'n derbyn e-bost gan Estyn yn datgan pryder am bresenoldeb plant yn eu harddegau yn yr ysgolion, a rydyn ni'n tynnu mwy o arian allan o wasanaeth sydd angen ei fuddsoddi ynddo fo, oherwydd bod ein pobl ifanc ni yn ei ffeindio hi'n anodd i ddygymod ar ôl sgileffaith COVID a materion iechyd meddwl…rydyn ni rŵan yn dirywio eu dyfodol wrth wneud penderfyniadau fel yna."*[315]

## Trafnidiaeth Cymru

**266.** Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol o £125 miliwn ar gyfer Trafnidiaeth Cymru.[316] Dywed Llywodraeth Cymru, yn dilyn hyn, ei bod wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer 2024-25 o gymharu â phan osododd ei chynlluniau ym mis Mawrth 2023.[317]

**267.** Wrth ymateb i lefel y cymhorthdal a roddir i Trafnidiaeth Cymru, dywedodd swyddog y Gweinidog:

> *"There is a lot of work going on looking at the rail system in the sort of medium to long term, and looking at the level of subsidy that's provided. It is a lot higher now, as a result of the farebox being lower than expected, and the expansion of services, particularly in the Valleys lines. So, TfW are looking at a range of options for delivering more efficient services, maximising fare income, and all that kind of thing, because, yes, the kind of subsidy cost for the rail system is extremely high, and, obviously, much higher than it was before COVID."*[318]

**268.** Wrth gydnabod nad oedd yn anarferol i nifer y teithwyr ar y rheilffordd beidio â dychwelyd i lefelau cyn y pandemig, nododd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod

[314] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad, CLlLC
[315] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 242
[316] Llywodraeth Cymru, Diweddariad ar Sefyllfa Ariannol 2023-24, Hydref 2023
[317] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 48
[318] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 179

yr ystadegau'n awgrymu bod Trafnidiaeth Cymru yn eistedd ar ganol ei hadferiad. Nododd y canlynol:

> *"… when speaking to Scottish Government officials and looking at the Scottish Government budget, ScotRail is also in that middle-of-the-pack sort of range, but they haven't had to make the same sorts of big in-year top-ups to the ScotRail operational subsidy So, I think there's a question there about to what extent is this because of differences in operational assumptions about growth… Or is it that there's something more beyond just the passenger numbers going on? Is there something going on with regard to the well-known issues in Valleys line services on delays, on, actually, collection of fares, when you've got lots of people doing replacement buses instead of the trains?"*[319]

**269.** Aeth ymlaen i ychwanegu'r canlynol:

> *"… given the planned subsidy levels for 2024-25, and likely passenger numbers in that year, the subsidy per passenger journey for TfW—well, you're up to a £13 or £14 per journey subsidy."*[320]

**270.** O ran y cyllid ychwanegol i Trafnidiaeth Cymru, nododd Dadansoddi Cyllid Cymru:

> *"… they're holding the fort, if you like, in terms of being able to top up the lost passenger income, but there needs to be more to bring people back, to reduce the Government subsidy."*[321]

**271.** O ran yr heriau penodol sy'n wynebu'r rheilffyrdd, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

[319] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 169
[320] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 173
[321] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 164

> *"… some of the costs are fixed costs and the choices that you have to reduce those costs are very, very limited, and also the impact of the pandemic, which is still being seen. So, the figures now have increased to the point at which they were—for patronage of rail—before the pandemic, but we've lost out on three years of expected growth, so that's where the pressures still remain. And, of course, we've got the £1 billion transformation programme in rail as well."*[322]

## Rhyngberthynas Gwasanaethau Cyhoeddus

**272.** Wrth wneud sylwadau ar dueddiadau hanesyddol dyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Llywodraeth Leol, dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid:

> *"We saw a lower prioritisation of health in the 2010s allowed local government to see smaller cuts, but in the 2020s, this shift towards NHS funding has meant more difficult decisions for local government in Wales."*[323]

**273.** Mae CLlLC yn manylu ar bwysau o £219 miliwn yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24. O hyn, mae 50 y cant (£109 miliwn) yn ymwneud â gofal cymdeithasol, gyda gofal plant cost uchel a "galw cynyddol" am ofal cymdeithasol oedolion yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r costau.[324]

**274.** Tynnodd ADSS Cymru sylw at y ffaith nad oedd gwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol, erbyn diwedd mis Tachwedd 2023, wedi cael unrhyw gymorth cyllidebol pellach yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, yn wahanol i GIG Cymru.[325]

**275.** Wrth wneud sylwadau ar y rhyngberthynas rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, a'r angen i amddiffyn gwasanaethau cymdeithasol, dywedodd CLlLC:

> *"Health and social care needs to be viewed as a sector as a whole. We can't just put money into the NHS and then have*

[322] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 466
[323] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 198
[324] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad, CLlLC
[325] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC (Saesneg yn unig)

*unintended consequences of cuts in social services heaping more pressure on the NHS."*[326]

**276.** O ran blaenoriaethu cyllid ar gyfer GIG Cymru, ychwanegodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

*"The challenges in social care are exactly the same as they are in the NHS, so to just fund the NHS and not also fund social services doesn't seem right to me."*[327]

**277.** Nododd Cyngor Bro Morgannwg y canlynol:

*"…I'm in an overspent position in my local authority the likes of which I have never, ever seen before, by a factor three times larger than I've ever seen before."*[328]

**278.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

*"… in this financial year, local government saw a greater uplift than health saw, whereas in the next financial year, health will see a greater uplift than local government. So, I think that they don't always get the same increase every year. But local government, this year and last year, have had significantly good settlements."*[329]

**279.** Pwysleisiodd Conffederasiwn GIG Cymru y berthynas waith agos â'r sector gofal cymdeithasol, a rhannodd ei bryder am yr heriau ariannol a wynebai. Dywedodd:

*"… the two services, health and social care, are so intrinsically linked, if the challenges in social care are not met then things are going to get worse for citizens, for social care and for health."*[330]

**280.** Amlygodd, o safbwynt ariannol, gofalu am bobl yn y GIG yw rhan ddrutaf y system. Aeth ymlaen:

[326] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 323
[327] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 145
[328] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 145
[329] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 500
[330] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 159

> *"… in recent conversations that we've had, is it a case of moving money from the NHS to support social care? I think at the moment, and it's a controversial thing for me to say, we do need to be considering some of those things … If you look at the cost per day of looking after a patient in hospital when there's no need for them to be there, the cost of looking after them in social care is significantly lower. So, the cost to the taxpayer is more. But as important as that is the negative impact on those people in laying in a hospital bed deconditioning, more likely to come back into the NHS.*[331]

**281.** Dywedodd Llywodraeth Cymru, o ystyried bod ei chyllideb o dan "bwysau mor eithafol", y byddai angen iddi:

> *"… ystyried yn ofalus a allai ac a ddylai cyllid ychwanegol gael ei godi drwy gynyddu taliadau am ystod o wasanaethau wrth inni barhau i sicrhau ein bod yn diogelu'r rhai sydd leiaf abl i fforddio taliadau uwch. Mae refeniw o godi tâl yn cael ei gadw gan wasanaethau cyhoeddus."*[332]

**282.** Nododd fod pobl yng Nghymru eisoes yn talu taliadau am wasanaethau, megis gofal deintyddol y GIG, ffioedd dysgu a gofal cartref. Ychwanegodd y byddai'n ymgynghori pe bai'n penderfynu cynyddu taliadau.[333]

**283.** O ran y posibilrwydd o godi tâl uwch am wasanaethau, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

> *"Without sufficient additional budget to meet those demands, there are going to be cuts and changes to services … I appreciate it's not where any of us would want to be, but I think that would make far more sense than allowing things to go wrong."*[334]

**284.** Pan ofynnwyd a fyddai taliadau uwch yn effeithio ar y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, nododd:

> *"So, something like the domiciliary care cap, actually, if you're the most poor in our society, you don't pay. So, actually, it's*

[331] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 99
[332] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 39
[333] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 39
[334] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 123

*arguably the more wealthy who benefit from that cap than the poorest."*[335]

## Y gweithlu

**285.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol o fewn "gwasanaethau craidd sy'n cael eu rhedeg gan lywodraeth leol o ddydd i ddydd", mae wedi ailflaenoriaethu £11 miliwn o'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol, gan nodi y bydd hyn yn arwain at "effeithiau ar yr awdurdodau lleol a phartneriaid gofal cymdeithasol."[336]

**286.** Eglurodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru effaith y penderfyniad hwn:

> *"This money is used to fund social care staff and to ensure that they're sufficiently trained. And so, with less of it, there will be fewer staff, and they will be less well trained."*[337]

**287.** Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod ei hadroddiad ar y cyd â CLlLC yn nodi bod recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, yn heriau mawr. Ychwanegodd fod nifer o weithwyr gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio ac nad ydynt yn cael digon o dâl, gan arwain o bosibl at brinder gweithlu, gyda rhai cynghorau'n lliniaru rhai o'r heriau recriwtio drwy ddibynnu ar staff asiantaeth, sy'n ychwanegu at y pwysau cost.[338]

**288.** Gofynnodd y Pwyllgor a fu unrhyw welliannau o ran recriwtio a chadw staff yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

> *"… the issues relating to qualified social workers are very different to the issues, I suppose, relating to agency staff in a care home or commissioned domiciliary care. They're all quite different. A piece of work that ADSS Cymru has done is create a pledge across Wales in terms of children's agency social workers. That's fairly recent, but I suppose the early indications*

[335] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 125
[336] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 39
[337] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 119
[338] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r ymgynghoriad: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC (Saesneg yn unig)

> *are that that is having some improvement in retaining people in local authority jobs, rather than them moving into agency. It's not going to be the whole answer. It doesn't stop somebody moving to Bristol and becoming an agency social worker on a much higher pay rate. So, it's a continually moving feast."*[339]

**289.** Mewn perthynas â'r defnydd o feddygon teulu locwm mewn gofal sylfaenol, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru ei bod yn bwysig meithrin cydnerthedd o ran ehangu'r gweithlu gofal sylfaenol, gan ddefnyddio gwahanol seiliau sgiliau, a thynnodd sylw at y defnydd o fferyllwyr o fewn practisau fel dewis arall yn lle gweld y meddyg teulu.[340]

**290.** Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrth y Pwyllgor hefyd am y prinder rhyngwladol o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweld pobl yn symud o gwmpas.[341]

**291.** Cafodd y mater o broffil heneiddio meddygon mewn meysydd arbenigol fel offthalmoleg, orthopaedeg ac ENT hefyd ei nodi fel pryder gan Gonffederasiwn GIG Cymru. Nododd fod dros 60 i 70 y cant o uwch glinigwyr yn yr arbenigeddau hyn dros 55 oed ac felly ni fyddant ar gael o bosibl am lawer hirach.[342]

**292.** Darparodd Conffederasiwn GIG Cymru hefyd enghraifft gadarnhaol o'r recriwtio a chadw arfaethedig o amgylch nyrsio, ac yn enwedig, gweithwyr cymorth gofal iechyd. Dywedodd ei fod wedi dechrau gweld buddion o gynllunio hynny mewn ffordd ragweithiol iawn a newid o ddefnyddio'r asiantaethau drutach a cheisio canolbwyntio ar gadw hefyd.[343] Ychwanegodd ei fod wedi dechrau gweithio gyda'r unigolyn a chyflwyno mwy o hyblygrwydd mewn patrymau gwaith.[344]

## Cyflogau

**293.** Roedd Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2023-24 yn "cynnwys cyllid i alluogi awdurdodau i barhau i dalu'r costau ychwanegol o gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal."[345]

[339] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 174
[340] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 177
[341] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 178
[342] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 184
[343] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 179
[344] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraffau 179 a 181
[345] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2023-24, Rhagfyr 2022

**294.** Ym mis Rhagfyr 2023, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog sut roedd y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 yn cyfrif am godiadau cyflog y sector cyhoeddus a'r cyflog byw gwirioneddol, o gymharu â'r tybiaethau gwreiddiol yn 2021. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> *"… the real living wage for social care workers, which was one of our commitments. There is no specific funding available to support that this year…"*[346]

**295.** Mewn perthynas â recriwtio a chadw staff, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

> *"Funding the Real Living Wage and paying care staff properly makes a massive difference."*[347]

**296.** Fodd bynnag, o ran y Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2024-25, dywedodd:

> *"… quite simply—3.1 per cent doesn't translate into funding the real living wage, so, it isn't there."*[348]

**297.** Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *'We're not going to be able to increase those rates [ar gyfer staff gofal cartref] by very much at all next year and so 'it's likely that the position will deteriorate and we could end up in the position that we were in before, which was people delayed in hospital because there aren't domiciliary care workers to do that care."*[349]

## Barn y Pwyllgor

**298.** Thema sy'n amlwg drwy gydol yr adroddiad hwn yw'r hinsawdd gyllidol heriol a'r anawsterau y mae hyn wedi'u hachosi. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y sefyllfa ariannol anodd y mae Llywodraeth Cymru yn ei hwynebu ac yn nodi bod y Gyllideb Ddrafft yn canolbwyntio ar ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu na fydd y Gyllideb Ddrafft hon yn diogelu'r gwasanaethau hyn.

[346] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 140
[347] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 196
[348] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 194
[349] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 196

**299.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod problemau enfawr yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus a chwestiynau sylfaenol ynghylch a ellir cynnal y lefelau presennol o wasanaeth. Mae'n amlwg bod y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol, unwaith eto, i gyd yn wynebu penderfyniadau anodd am y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn y flwyddyn i ddod o ystyried y pwysau ariannol sylweddol a osodir arnynt. Nodwn, gyda gofid, y dystiolaeth y bydd effaith hyn yn ein cymunedau yn 'ddinistriol'. Mae'n ymddangos bod y cyd-destun ar gyfer llywodraeth leol a gofal cymdeithasol yn hynod heriol o ystyried y galw cynyddol parhaus am eu gwasanaethau, achosion mwy cymhleth a phwysau chwyddiant, ymysg ffactorau eraill.

**300.** Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus efallai na fydd y Setliad Llywodraeth Leol yn ddigonol, o ystyried pwysau chwyddiant sylweddol. Dywedodd rhanddeiliaid llywodraeth leol wrthym yr haf diwethaf fod angen digon o adnoddau er mwyn ymdrin â'r galw cynyddol am bolisi a gwasanaethau, ac mae'n siomedig nad aethpwyd i'r afael â'r pryderon hyn yn llawn.[350] Yn ymarferol, mae'r lefelau cyllido arfaethedig ar gyfer 2024-25 yn golygu efallai na fydd rhai awdurdodau lleol yn gallu fforddio diogelu eu gwasanaethau craidd mwyach. Yn sgil y dystiolaeth a gafwyd, mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch y sectorau addysg a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod posibilrwydd y bydd rhywfaint o gyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, yn gysylltiedig â phenderfyniadau yn Lloegr, a hoffai ddeall sut y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio.[351]

**301.** O ran darparu cyllid ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae'r Pwyllgor yn nodi â phryder y gallai hyn olygu cynnydd yn y trothwyon ar gyfer gwasanaethau a phecynnau gofal llai. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi'i ddychryn gan y dystiolaeth gan awdurdodau lleol ynghylch cyllidebau ysgolion, sydd fel petai'n gwrth-ddweud honiadau Llywodraeth Cymru bod y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys "mesurau diogelu" ar gyfer cyllid ysgolion. Mae tystiolaeth o'r fath yn peri pryder ar adeg pan fo'r angen mwyaf am y gwasanaethau hynny ac yn codi amheuaeth ynghylch a yw'r Gyllideb Ddrafft yn bodloni blaenoriaethau datganedig Llywodraeth Cymru o ddiogelu gwasanaethau rheng flaen.

**302.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer GIG Cymru, sy'n cynnwys cyllid rheolaidd o £150 miliwn i gefnogi diffygion sylfaenol sefydliadol a'r effaith gyson ar y sylfaen gostau o ganlyniad i bandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi tystiolaeth sy'n awgrymu y gallai

[350] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Ymgysylltu Cryno, Gorffennaf 2023, tudalen 9
[351] BBC Cymru Fyw, 'Tua £25m i Gymru yn sgil £500m ychwanegol i gynghorau Lloegr', 25 Ionawr 2024'

pwysau costau a ysgogwyd gan COVID-19 fod wedi'u tynnu o ddyraniadau cyllideb 2023-24 er bod y costau i GIG Cymru bellach yn rhan o'i sylfaen costau. Er bod y pandemig drosodd, mae effaith COVID-19 yn parhau i roi pwysau ar wasanaethau'r GIG ac mae'r Pwyllgor yn galw am eglurder ynghylch a yw cyllid ar gyfer pwysau costau COVID-19 wedi'i ddileu o ddyraniadau'r Gyllideb Ddrafft o 2023-24 ymlaen.

**303.** Mae'n galonogol clywed bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau clir i Fyrddau Iechyd Lleol ar yr hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni yn gyfnewid am y cyllid ychwanegol. Mae'n faes hollbwysig i'r Pwyllgor, ar ôl gwneud cyfres o argymhellion wedi'u targedu at y mater hwn yn flaenorol.[352]

**304.** Er gwaethaf hyn, mae'r Pwyllgor yn nodi bod problemau sylfaenol yn parhau o ran cynhyrchiant yn y GIG a sicrhau bod ei wasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol. Mae'n dod yn fwyfwy pwysig deall y materion hyn wrth iddo dderbyn cyfran fwy o gyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu, ar adeg y mae'n ystyried y Gyllideb Ddrafft, nad oedd disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran allbynnau a chyflawniadau ar gael i'r cyhoedd ac nad oeddent yn agored er mwyn craffu arnynt. Nid yw hyn yn cyrraedd y safonau tryloywder yr ydym yn eu disgwyl.

**305.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r rhyngberthynas rhwng gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thai a'r heriau a phwysau tebyg y maent yn eu hwynebu. Rydym yn pryderu felly fod Llywodraeth Cymru wedi cynnig cynyddu cyllid y GIG heb gynnydd cymesur yn y dyraniadau yn y gwasanaethau hyn. Credwn fod hyn yn golygu diffyg meddwl strategol, yn enwedig gan y gallai mwy o bwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol greu pwysau ychwanegol ar y GIG, gyda mwy o bobl yn gorfod mynd i'r ysbyty, sef rhan ddrutaf y system yn ein barn ni. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru wneud rhagor o waith asesu yn y maes hwn.

**306.** Clywodd y Pwyllgor am y pwysau cost sylweddol y mae llywodraeth leol a GIG Cymru yn ei wynebu gyda Gofal Iechyd Parhaus a bod mwy o ofal wedi'i ariannu gan y gwasanaethau cymdeithasol yn y blynyddoedd diwethaf. Clywsom fod Gofal Iechyd Parhaus wedi tyfu'n sylweddol ac rydym yn croesawu'r gwaith y mae'r GIG a phartneriaid yn ei wneud, drwy'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, i edrych ar effeithiolrwydd pecynnau gofal a monitro darparwyr. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor i Lywodraeth Cymru adolygu Gofal Iechyd Parhaus, gan gynnwys

[352] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, Argymhelliad 23; Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2022-23, Gorffennaf 2022, Argymhelliad 11; Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, Argymhelliad 23

y meini prawf cymhwystra a sut y maent yn cael eu dehongli a'u cymhwyso i sicrhau bod gofal yn cael ei asesu'n briodol fel gofal iechyd yntau gofal cymdeithasol. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ynghyd â'r costau cysylltiedig er mwyn asesu a ydynt yn parhau i ddarparu gwerth am arian i'r sectorau dan sylw.

**307.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch ystyriaeth Llywodraeth Cymru o godi taliadau am wasanaethau megis gofal deintyddol y GIG, ffioedd dysgu prifysgolion a gofal cartref, ond mae'n deall y gallai'r rhain fod yn angenrheidiol os nad oes digon o arian yn y Gyllideb Ddrafft i gynnal gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen ystyried dull o'r fath o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol presennol. Mae'r Pwyllgor felly o'r farn, os gwneir penderfyniad i gynyddu taliadau am wasanaethau penodol, y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael eu hamddiffyn, yn enwedig o ystyried y caledi y mae pobl eisoes yn ei wynebu gyda'r argyfwng costau byw.

**308.** Mae'r Pwyllgor wedi'i ddychryn gan yr heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff y mae GIG Cymru a'r sector gofal cymdeithasol yn eu hwynebu, yn enwedig ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yn y gwasanaethau oedolion a phlant. Rydym hefyd yn nodi gyda phryder yr heriau ychwanegol y mae'r meysydd hyn yn eu hwynebu, megis proffil oedran meddygon a marchnad recriwtio fyd-eang gystadleuol. Rydym eisoes wedi gwneud nifer o argymhellion[353] yn ymwneud â'r meysydd hyn. Er i ni glywed am rai mentrau i ysgogi gwelliant, mae'n siomedig clywed bod y materion hyn yn parhau yn ogystal â maint yr heriau cysylltiedig.

**309.** O ystyried hyn, nid ydym yn deall pam y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau'r cyllid ar gyfer y Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol, y dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'n cael effaith uniongyrchol ar staff a'u hyfforddiant. Clywodd y Pwyllgor hefyd nad oedd y cynnydd yn y cyllid ar gyfer llywodraeth leol, a nodir yn y Setliad Llywodraeth Leol dros dro, yn trosi i ariannu'r cyflog byw gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr effaith y gallai'r ffactorau hyn ei chael ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol.

**310.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £125 miliwn a'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Trafnidiaeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau y mae Trafnidiaeth Cymru yn eu hwynebu, yn benodol, y golled tair blynedd o dwf disgwyliedig yn nifer y teithwyr

[353] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, Argymhellion 25 a 26

ar y rheilffyrdd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu ei bod yn ymddangos bod Trafnidiaeth Cymru yn cael symiau mwy o arian cyhoeddus na gwasanaethau rheilffyrdd tebyg mewn mannau eraill yn y DU, sy'n codi amheuaeth ynghylch cynaliadwyedd y cyllid y mae'n ei dderbyn.

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth i egluro sut y mae'r Gyllideb Ddrafft yn diogelu gwasanaethau rheng flaen craidd a ariennir ac a ddarperir gan awdurdodau lleol, yn enwedig o ran gofal cymdeithasol ac addysg.

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn cyhoeddi gwybodaeth am y canlyniadau y mae'n disgwyl i sefydliadau'r GIG eu cyflawni gyda'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer 2024-25 a'r blynyddoedd dilynol, fel y gellir craffu arnynt ochr yn ochr â dyraniadau cyllid;
- yn cynnal asesiad o'r canlyniadau ar gyfer GIG Cymru, i sicrhau eu bod yn fesuradwy ac y gellir eu monitro'n effeithiol; ac
- yn cyhoeddi'r dyraniadau i Fyrddau Iechyd Lleol bob blwyddyn, ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth arall a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru megis canllawiau cynllunio gweithredol, ar yr un pryd ag y cânt eu rhannu â'r sector.

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am yr allbynnau y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i wasanaethau gofal cymdeithasol ac addysgol rheng flaen eu cyflawni ar gyfer y cyllid a ddarperir, a sut y bydd yn monitro effeithiau ei phenderfyniadau cyllido ar wasanaethau'n ehangach.

**Argymhelliad 25.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y cyllid a ddarparwyd yn 2023-24, gan gynnwys y dyraniadau yn ystod y flwyddyn, i fynd i'r afael â phwysau COVID-19 ar wasanaethau'r GIG a sut y penderfynwyd ar y rhain, yn ogystal â chadarnhau'r cymorth a ddarparwyd at y diben hwnnw yn y Gyllideb Ddrafft.

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu Gofal Iechyd Parhaus, gan gynnwys ystyried:

- y meini prawf cymhwystra a sut y cânt eu dehongli a'u cymhwyso i sicrhau bod gofal yn cael ei asesu'n briodol fel gofal iechyd ynteu gofal cymdeithasol; a
- sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ynghyd â'r costau cysylltiedig er mwyn asesu a ydynt yn parhau i ddarparu gwerth am arian i'r sectorau dan sylw.

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi sicrwydd y bydd mesurau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael eu hamddiffyn pe bai taliadau am wasanaethau'n cynyddu, fel sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 28.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn egluro pam y gwnaed gostyngiadau i'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol, o ystyried y pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu gofal cymdeithasol a'i staff, gan gynnwys asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y penderfyniad hwn.

**Argymhelliad 29.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal asesiad o'r heriau recriwtio a chadw y mae GIG Cymru a'r sector gofal cymdeithasol yn eu hwynebu a'i fod yn cyhoeddi ei ganfyddiadau.

**Argymhelliad 30.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal adolygiad i ddeall yr effaith y mae penderfyniadau cyllido Llywodraeth Cymru mewn perthynas â GIG Cymru yn ei chael ar bwysau gofal cymdeithasol, o ystyried bod y ddau yn anorfod yn gysylltiedig â'i gilydd.

**Argymhelliad 31.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y cyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24 a'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2024-25 ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys sut y caiff yr adnoddau eu defnyddio a'r tybiaethau a ddefnyddir i bennu'r dyraniadau, megis nifer teithwyr a ph'un a fydd angen darparu dyraniadau ychwanegol tebyg yn barhaus.

# 6. Cymorth gyda chostau byw

**311.** Caiff y Gyllideb Ddrafft ei disgrifio fel "cyllideb anodd mewn cyfnod eithriadol" ond mae'n nodi bod Llywodraeth Cymru "wedi ail-lunio ein cyllidebau yn unol â set o egwyddorion arweiniol … [er mwyn] sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf".[354]

**312.** Fel y crybwyllwyd ym Mhennod 2, y disgwyl yw y bydd chwyddiant yn aros yn uwch am gyfnod hwy. Rhagwelir y bydd safonau byw, a gaiff eu mesur yn ôl incwm gwario gwirioneddol aelwydydd fesul person, 3.5 y cant yn is yn 2024-25 nag yr oeddent cyn y pandemig. Rhagwelir y bydd diweithdra yn y DU yn codi i 1.6 miliwn o bobl erbyn ail chwarter 2025.[355]

**313.** Mae Adroddiad Prif Economegydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod fel a ganlyn:

> "*Mae chwyddiant uchel a pharhaus wedi erydu safonau byw, gyda phrisiau ynni a bwyd uchel yn effeithio'n anghymesur ar bobl ar incwm isel a grwpiau difreintiedig eraill.*"[356]

**314.** Gwnaeth Llywodraeth y DU barhau i ddarparu Taliadau Costau Byw i aelwydydd ar fudd-daliadau penodol, pensiynwyr a phobl ag anableddau yn ystod 2023-24.[357] Mewn ymateb ysgrifenedig ym mis Tachwedd 2023, cadarnhaodd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros yr Adran Gwaith a Phensiynau nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i estyn taliadau costau byw y tu hwnt i dymor y gwanwyn 2024.[358]

**315.** Mae'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i aelwydydd yn cynnwys y canlynol:

- £18.8 miliwn o gyllid ychwanegol i'r Gronfa Cymorth Dewisol yn 2023-24.[359] At hynny, mae wedi cynorthwyo aelwydydd sydd ar fesuryddion

[354] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 4
[355] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol: Rhagolygon economaidd a chyllidol – Tachwedd 2023 (Saesneg yn unig)
[356] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Adroddiad y Prif Economegydd, tudalen 2
[357] Llywodraeth y DU: Taliad costau byw 2023 i 2024 (Saesneg yn unig)
[358] Llywodraeth y DU: Cwestiynau, atebion a datganiadau ysgrifenedig: Cwestiynau i'r Adran Gwaith a Phensiynau (Saesneg yn unig)
[359] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 43

rhagdalu, ac aelwydydd nad ydynt ar y grid drwy'r Cynllun Talebau Tanwydd a weithredir gan y Sefydliad Banc Tanwydd.[360]

- Cafodd dyraniad ychwanegol o £2.2 miliwn ei wneud yn 2023-24 i gefnogi'r cynllun peilot incwm sylfaenol, gan roi incwm o £1,600 bob mis i grŵp o bobl ifanc sy'n gadael gofal.[361]

- Buddsoddwyd £9 miliwn o ddyraniad ychwanegol i'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer 2023-24 er mwyn helpu plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm is, a phlant sy'n derbyn gofal, i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag cyflawni eu llawn botensial.[362]

- Dyrannwyd £10 miliwn i'r gyllideb atal digartrefedd er mwyn rhoi hwb i fuddsoddiad mewn atal digartrefedd ac ymyriadau cymorth ar draws Cymru.[363]

## Blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru

**316.** Holodd y Pwyllgor dystion am effaith ailflaenoriaethu cronfeydd a wnaed yn niweddariad Llywodraeth Cymru ar Sefyllfa Ariannol 2023-24.[364]

**317.** Dywedodd Sefydliad Bevan ei fod yn cydnabod yr hyn a ganlyn:

> "… *the Welsh Government was faced with a very difficult position and some very difficult choices that it had to make mid year, and I'm sure nobody likes to have to halt or scale back things that you, only a few months ago, had been committed to.*"[365]

**318.** Fodd bynnag, pwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud dewisiadau, ac wedi blaenoriaethu'r GIG a Thrafnidiaeth Cymru, yn hytrach na rhoi rhai o'r mesurau eraill yr oedd wedi ymrwymo iddynt ar waith. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> "… *we do welcome the fact that the discretionary assistance fund was protected—there were concerns that it may not be—and also things like the roll-out of universal free school meals for primary school pupils and discretionary housing payments.*

[360] Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Gorffennaf 2023
[361] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 25
[362] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 26
[363] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 26
[364] Llywodraeth Cymru: Diweddariad ar Sefyllfa Ariannol 2023-24
[365] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 245

> *When everything's up for a trim, we were pleased that those didn't get it. But, nevertheless, we were very sorry to see that some of the other measures that the Welsh Government had previously been committed to went, such as the free school meals in the holidays, that there will be no winter fuel support scheme, and that some of the ideas that were emerging from the cost-of-living expert group, which I was a member of, basically suddenly hit the brick wall that there was no funding. So, as a result, people have gone into a very, very difficult winter for households, especially low-income households, without the kind of support that was there in previous years, even though the circumstances are arguably tougher."*[366]

**319.** Dywedodd y Gweinidog mai dim ond ymyriad ag iddo amser cyfyngedig – mewn cysylltiad â'r pandemig – oedd prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau, ac nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gallu dod o hyd i'r cyllid i allu parhau â hyn y tu hwnt i hynny.[367]

**320.** Cytunodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru/Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru fod yr amgylchiadau economaidd yn hynod o heriol.[368] Dywedodd ei fod yn gyffredinol gefnogol i'r ysbryd o flaenoriaethu gwasanaethau cyhoeddus fel y GIG a thrafnidiaeth, o ystyried pwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus i fenywod.[369]

**321.** Pan ofynnwyd a oedd y pwysau sy'n gysylltiedig â chostau byw wedi lleddfu, dywedodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru/Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru:

> "*… we're not seeing an easing of these pressures. Women in Wales continue to be hit harder by the impacts of the cost-of-living crisis, and this is to do with their unequal position in the labour market. So, in that context … any real-terms or actual cuts to public services are very concerning. We must continue to work on the underlying causes that make women more vulnerable to these effects as well as providing short-term hardship support."*[370]

---

[366] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 245
[367] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 175
[368] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 247
[369] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 247
[370] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 253

**322.** Cytunodd Sefydliad Bevan na fu unrhyw leddfu o gwbl, a dywedodd fod y rhagolygon dros y blynyddoedd nesaf hyd yn oed yn waeth, oherwydd bydd taliadau costau byw Llywodraeth y DU yn diflannu ac nid oes llawer o arwyddion y bydd chwyddiant yn disgyn yn sylweddol yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, a chyflogau yn dal i fyny.[371]

**323.** Ychwanegodd Sefydliad Bevan y canlynol:

> "*Both people we work with and organisations that we work with all report significant levels of severe hardship amongst families on low incomes, including, increasingly, working households. And the groups that we work with are telling us about unprecedented demand for their services, and demand that's become very complex.*"[372]

**324.** Pwysleisiodd Sefydliad Bevan fod y Gyllideb Ddrafft hon wedi gweld symudiad i wariant mewn argyfwng, ac yn ôl y Sefydliad hwnnw, er bod hynny'n yn ddealladwy, esboniodd y canlynol:

> "*… it also means that the expenditure on the things that address the root causes of poverty and inequality has been cut, or had a real-terms cut if not an actual cash cut.*"[373]

**325.** Ychwanegodd Sefydliad Bevan hefyd y canlynol:

> "*… what we see as the areas of spending that are preventative of poverty … are the areas that have had some of the biggest cuts.*"[374]

## Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw

**326.** Sefydlwyd Grŵp Arbenigol Cymru ("y Grŵp") yn ystod gaeaf 2023 i gynghori Llywodraeth Cymru ar effaith yr argyfwng costau byw, a'r camau y dylid eu cymryd i liniaru ei effaith, ar bobl Cymru. Mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Sefydliad Bevan a Chyngor ar Bopeth Cymru.[375]

[371] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 263
[372] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 263
[373] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 264
[374] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 264
[375] Grŵp Arbenigol Cymru ar yr argyfwng costau byw, Awst 2023

**327.** Roedd adroddiad y Grŵp i Lywodraeth Cymru yn gwneud 29 o argymhellion.[376] Ar 28 Tachwedd 2023, dywedodd y Prif Weinidog:

> "*Dyma rai o'r meysydd lle mae cynnydd wedi cael ei wneud: tai a digartrefedd, sicrhau'r incwm gorau i bobl, a lleihau cost y diwrnod ysgol. Ond, gadewch i ni fod yn glir: does dim cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflawni pob un o'r 29 o argymhellion. Mae dewisiadau anodd yn cael eu gwneud, gyda chymorth adroddiad y grŵp arbenigol.*[377]

**328.** Dywedodd Sefydliad Bevan ei bod yn anodd gweld effaith gwaith y Grŵp ar sut y mae Llywodraeth Cymru wedi gosod ei blaenoriaethau gwariant ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon.[378] Mae canlyniadau hynny fel a ganlyn:

> "*… spending decisions that are basically about the short term, whereas, to us, the Welsh Government should be thinking, 'What do we want Wales to be like in 10 years' time? What are the levers that will get us to that better Wales and what will that cost?' And then think, 'Well, actually, what have we got? Where do we get the money from to do everything we want to do? How can we adapt and change?' For understandable reasons, I don't think we've got that approach yet.*"[379]

**329.** Nododd Sefydliad Bevan fel a ganlyn:

> "*… not all the recommendations of that group involved expenditure or significant amounts of expenditure. Some of the things were deliberately developed to be budget neutral in some ways, and even the ones that involved upfront expenditure, we demonstrated that they would generate long-term savings, and the most obvious one was in respect of homelessness. If you can stop people being homeless or reduce the time they spend in temporary accommodation, then you will save a lot of money in both housing costs and also health consequences as well. So, not everything had a big ticket attached to it.*"[380]

---

[376] Grŵp Arbenigol Cymru ar yr argyfwng costau byw, Awst 2023
[377] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2023, paragraff 2
[378] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 67
[379] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 270
[380] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 269

**330.** Ar 23 Ionawr 2024, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ddatganiad o ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw. Mae'r datganiad yn nodi fel a ganlyn:

> "… *mae'r hinsawdd ariannol eithriadol o anodd yn golygu ein bod wedi gorfod gwneud penderfyniadau hynod o lym a phoenus er mwyn gallu targedu ein gwariant i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a'r rhai mwyaf anghenus.* Mae hyn yn golygu bod nifer o argymhellion, pob un yn cynnwys ymrwymiadau ariannu sylweddol, na fyddwn yn gallu eu gweithredu ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau difrifol ar ein cyllideb yn 2023-24 a 2024-25, ac a fydd ond yn cael eu gwireddu os daw cyllid ychwanegol sylweddol i law. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i archwilio'r cyfleoedd hyn os bydd y sefyllfa gyllidol yn newid."[381]

## Siarter Budd-daliadau Cymru

**331.** Fel rhan o'r gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i symleiddio cynlluniau cymorth ariannol o dan Siarter arfaethedig Budd-daliadau Cymru ("y Siarter"), a rhoi'r gwaith o ddatblygu proses unedig o wneud cais ar lwybr carlam ar gyfer grantiau datganoledig a chynlluniau cymorth ariannol.[382]

**332.** Yn ei hymateb i'r argymhelliad, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei nod i gyhoeddi cynlluniau gweithredu ar gyfer y Siarter erbyn diwedd 2023.[383]

**333.** Dywedodd Sefydliad Bevan, tra'i fod yn disgwyl am y siarter â diddordeb, na fydd yn cyflawni'r newid sydd ei angen arno wrth ei hun.[384] Aeth ymlaen i ddweud fel a ganlyn:

> "*I understand that implementation arrangements were discussed in November by the Welsh Government and the Welsh Local Government Association at the partnership council, and that arrangements are now being put in place to take forward at least some of the recommendations that the Bevan*

[381] Llywodraeth Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw
[382] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 (Argymhelliad 17)
[383] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar Waith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24
[384] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 277

> *Foundation has made. What I would stress is that this needs to be done at pace, and we need a clear timetable for when these changes will happen that will make a difference to ordinary people."*[385]

**334.** Ychwanegodd Sefydliad Bevan fel a ganlyn:

> *"I think we would want to see all seven means-tested grants and allowances included in the system, whereas we understand that only some of them will be included at least in the first phase of the roll-out, and we also want to see a greater incentive and, indeed, potentially, compulsion for public bodies to include their grants and allowances in this system. As I understand it, at least the first steps will be voluntary for local authorities, so we could well have a Welsh benefits system that actually only has a handful of people participating in it."*[386]

**335.** Ar 22 Ionawr 2024, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi lansiad y Siarter.[387]

## Y Gronfa Cymorth Dewisol

**336.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn "cynnal cymorth wedi'i dargedu a chymorth argyfwng i bobl y mae'r argyfwng costau byw parhaus yn effeithio arnynt."[388] Bydd y cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol o fewn y Gyllideb Ddrafft yn cael ei gadw ar £38.5 miliwn.[389]

**337.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog sut y mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn mynd i'r afael ag effaith y gostyngiadau diweddar yn incwm aelwydydd ar y cyhoedd yng Nghymru. Dywedodd hithau fel a ganlyn:

> *"… we've been really careful to maintain our allocation of £38.5 million for the discretionary assistance fund. Gwyddom fod hynny'n helpu pobl ledled Cymru sy'n wynebu rhai amgylchiadau eithaf enbyd, ac mae'n rhoi mynediad brys iddynt at gymorth ariannol pan fyddant ei angen fwyaf."*[390]

[385] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 277
[386] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 278
[387] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Lansio Siarter Budd-daliadau Cymru
[388] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 4
[389] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 43
[390] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 171

**338.** Croesawodd Sefydliad Bevan gyllid y Gronfa Cymorth Dewisol sy'n cael ei gynnal gan ei fod wedi atal nifer o bobl rhag amddifadrwydd.[391] Fodd bynnag, mynegodd y pryderol a ganlyn:

> "*We're halfway through the financial year and it's just about spent half of its resources. So, clearly, someone has got an eye on the expenditure profile, which is as it should be. But that reduction in the number and value and expenditure on emergency assistance payments suggests to me, given the demand that we know is out there, that there is a shortfall, in that people who were potentially previously eligible for emergency payments are now not getting them. We don't know that, because we haven't got the data on the number of applications, but it does suggest that there's a significant squeeze on both the discretionary assistance fund and on households that might have previously got help.*"[392]

**339.** Yn dilyn hynny, hysbysodd Sefydliad Bevan y Pwyllgor fel a ganlyn:

> "*… I have since had clarification from the Welsh Government that there has been no increase in the rate of applications being rejected (in fact the rejection rate has declined slightly).* Instead the reduction is due to the limit of three DAF payments a year being applied across the board, whereas previously up to five could be received in some circumstances."[393]

**340.** Yn ogystal â'r dadansoddiad o dderbynyddion yn ôl oedran, galwodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru/Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru i ddata fod ar gael yn ôl rhywedd, gan fynegi'r farn ganlynol:

> "*… it would be really important for us to understand how many women are accessing this fund, if it's reaching women, and if there's a gender difference in demand, which I think we would expect there to be.*"[394]

**341.** At hynny, cododd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru/Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru bryderon ynghylch y broses o wneud taliadau:

[391] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 288
[392] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 290
[393] Cywiriad i'r Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 289
[394] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 292

> *"… they're currently made at a household level, and there's a risk that this is undermining women's access to an independent income and increasing their vulnerability to financial abuse as well as financial dependency on an abuser. So, we recommend, as well as the level of funding, ensuring it reaches everybody also, and that the Welsh Government looks at the process for how these payments are being made."*[395]

## Gofal plant

**342.** Dywed y Gyllideb Ddrafft – ar sail y rhagolygon diweddaraf o ran galw – ei bod yn ailflaenoriaethu £11.2 miliwn o'i chynnig gofal plant a £7 miliwn o'r Grant Plant a Chymunedau, sy'n cefnogi ymyrraeth gynnar a gweithgareddau atal ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.[396]

**343.** Roedd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru/Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn arbennig o bryderus ynghylch y toriadau i gyllid gofal plant a dywedodd fod angen dybryd am ofal plant fforddiadwy.[397] Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu fel a ganlyn:

> *"… cut £16.1 million from the budget for early years childcare and play activities, and the justification that was provided in doing that was that the forecasted demand for the childcare offer was lower than previously expected."*[398]

**344.** Tynnodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru/Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru sylw at y cyfyngiadau o ran cymhwystra ac awgrymodd nad yw pobl yn gallu cael gofal plant ar yr adegau a'r mannau lle maent ei angen, i bob pwrpas.[399] Er y gall y nifer sy'n manteisio ar hyn, felly, fod yn llai na'r nifer a gyllidebwyd ar ei chyfer, dylai Llywodraeth Cymru weithredu fel a ganlyn:

> *"… seriously consider whether the way the offer is designed and operated is preventing parents from accessing it, and the decision to cut childcare funding rather than redoubling efforts to ensure that it's working for families is extremely disappointing."*[400]

[395] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 292
[396] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 46
[397] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 260
[398] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 250
[399] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 296
[400] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 260

**345.** Adleisiodd Dadansoddi Cyllid Cymru y farn hon, gan nodi fel a ganlyn:

> "… *the £11 million reduction in childcare spending is supposedly because of a lack of demand, but perhaps that highlights the issue with the take-up and how the service is delivered rather than an actual shortfall in the demand for childcare, which I can't imagine exists.*"[401]

**346.** Dywedodd Grŵp Cyllid Menywod Cymru nad yw'r cynnig gofal plant presennol o 30 awr yn ddigon i gynnwys cyflogaeth amser llawn, a galwodd am fwy o ofal plant o ansawdd uchel sy'n cyrraedd y grwpiau hynny, ac sydd ar raddfa sydd, mewn gwirionedd, yn cefnogi cyflogaeth i rieni.[402]

**347.** Ychwanegodd Sefydliad Bevan fel a ganlyn:

> "… *extending good-quality part-time childcare from the age of nine months or one when statutory maternity leave ends, so that enables parents to work and gives children a good start in life*".[403]

**348.** Dywedodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru/Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru fod yna effeithiau hirdymor ar fenywod o ganlyniad i ddiffyg gofal plant fforddiadwy:

> "*If they have young children below the age of three or four, they are currently eligible for the childcare offer and only have very limited childcare under Flying Start. This is when the decisions are made to work part time, to leave employment altogether, and that can become entrenched, and the impact of that is something that affects their earnings in the long term or over their whole lifetime. So, I think it's about taking a bit more of a long-term perspective alongside the immediate crisis support that is also needed, because the rest of those problems aren't going to go away; they're going to stack up and lead to more costs in the long term.*"[404]

[401] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 208
[402] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraffau 296 – 297
[403] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 264
[404] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 274

**349.** Mewn perthynas â'r cynnig gofal plant i'r rhai mewn addysg a hyfforddiant, dywedodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru/Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru:

> *"… this will now be accessible to at least some people in post-16 education. I think maybe it's even more baffling, in light of that, to see the forecasted demand go down instead of up. Maybe more work needs to be done there to ensure that people know about this opportunity and it's accessible to them where needed. And just to add, in terms of other things that could improve, especially access for mothers to these education opportunities, it's to look at flexible delivery and modular approaches, which could make it easier to combine accessing education with looking after your children."*[405]

**350.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa asesiadau a wnaed o'r diffyg defnydd o'r cyllid gofal plant, ac a oedd yn hyderus mai diffyg galw oedd yn gyfrifol am hynny yn hytrach na bod y polisïau'n anodd cael gafael arnynt. Dywedodd y Gweinidog fod ymwybyddiaeth o'r cynllun yn bryder arbennig, gan ychwanegu fel a ganlyn:

> *"… we have provided £250,000 for a strategic communications plan that will help to try and address some of those issues."*[406]

**351.** Tynnodd y Pwyllgor sylw at y risg y bydd angen i Lywodraeth Cymru adfer llinellau yn y cyllideb os bydd y galw am ofal plant yn cynyddu. Ymatebodd y Gweinidog i hynny drwy ddweud y bydd y gwasanaeth yno, ac nad yw wedi'i gyfyngu gan y cyllid.[407]

## Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

**352.** Y llynedd, clywodd y Pwyllgor bryderon ynghylch rhewi'r lwfans a'r trothwyon cymhwystra ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trothwyon a chynyddu gwerth y lwfans hwnnw.[408]

---

[405] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 328
[406] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 562
[407] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Ionawr 2024, paragraff 566
[408] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 (Argymhelliad 20)

**353.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad a chytunodd i gomisiynu adolygiad annibynnol o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg.[409]

**354.** Dywedodd Sefydliad Bevan y canlynol:

> *"… we really welcome the uplift to EMA and we look forward to the Minister's review of arrangements for EMA going forward. The uplift to EMA still leaves the other big element, the other big tool in the Welsh Government's toolbox, untouched, and that's the Welsh Government learning grant."*[410]

**355.** Aeth Sefydliad Bevan ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"That has all the same problems that EMA had, which is that the eligibility thresholds have been frozen and the value of the grant has been frozen. I cannot imagine any adult wanting to study or being able to study when the grant towards their living costs is barely £1,000 a year. So, it seems to me, if we're serious about getting adults back into learning and giving them some financial support, that that is the next thing to be looked at. … If you had to choose between postgrads and the Welsh Government learning grant, I would choose the Welsh Government learning grant, because it is a stepping stone for low-income learners to get on and look up."*[411]

## Prydau ysgol am ddim

**356.** Argymhellodd Grŵp Arbenigol Cymru y dylai Llywodraeth Cymru estyn y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim i flynyddoedd 7-11 ar gyfer yr aelwydydd hynny sy'n cael Credyd Cynhwysol, heb gap ar enillion.[412]

**357.** Dywedodd Sefydliad Bevan fod y trothwy cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim wedi'i rewi ers 2019.[413] Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"The Welsh Government has questioned the UK Government about thresholds being frozen, and I think it needs to itself*

[409] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar Waith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24
[410] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 322
[411] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 322
[412] Grŵp Arbenigol Cymru ar yr argyfwng costau byw, Awst 2023
[413] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 306

> *consider unfreezing the eligibility threshold for free school meals in secondary school."*[414]

**358.** Dywedodd Sefydliad Bevan fod y Grŵp wedi gwneud cyfrifiadau a oedd yn dangos y byddai estyn cymhwystra mewn ysgolion uwchradd ar gyfer plant y mae eu rhieni'n cael credyd cynhwysol – sydd felly'n drothwy uwch – yn gost gymharol fechan.[415] Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"And that funding could have been covered rather than reprioritising some of the expenditure in 2023-24. And it is about—. It's a policy decision about where you put your money and the long-term benefits of that, and I am not going to say, 'Take it from that, take it from this', but it is about—as the Welsh Government's had to do—making difficult choices."*[416]

**359.** Pwysleisiodd Sefydliad Bevan, er mwyn mynd i'r afael â phroblemau hirdymor tlodi, anghydraddoldeb ac iechyd gwael, mae darparu maeth teilwng i ddisgyblion ysgolion uwchradd yr un mor bwysig ag y mae i ddisgyblion ysgolion cynradd.[417]

**360.** Cadarnhaodd y Gweinidog fel a ganlyn:

> *"… there's a lot of work going on in terms of free school meals, and you'll see the budget protected for that next year. Again, that's an important part of our discussions through the co-operation agreement with Plaid Cymru. I know there's work going on around the rate, for example, and some other decisions that will need to be taken in relation to free school meals, but that budget in itself is protected."*[418]

## Cymorth Ynni i Aelwydydd

**361.** Daeth y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf i ben ym mis Chwefror 2023. Yn ôl asesiad effaith integredig Llywodraeth Cymru, llwyddodd 166,780 o aelwydydd i hawlio'r cynllun ar gost o £35,455,925.[419]

---

[414] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 306
[415] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 307
[416] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 307
[417] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 307
[418] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 175
[419] Llywodraeth Cymru: Cynllun cymorth tanwydd Cymru: asesiad effaith integredig

**362.** Fel rhan o waith cyn ymgysylltu'r Pwyllgor, cododd cyfranogwyr yn y mwyafrif o'r grwpiau ymgysylltu â dinasyddion yr angen i adeiladu tai fforddiadwy carbon isel newydd a gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol, yn enwedig yn sgil yr argyfwng costau byw presennol.[420]

**363.** Dywedodd Sefydliad Bevan fod y cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf yn darparu rhyddhad tymor byr i aelwydydd ar incwm isel ac ag effeithlonrwydd ynni isel, ond mai'r hyn oedd ei angen oedd gweld costau ynni pobl yn cael eu lleihau trwy fwy o effeithlonrwydd ynni cartref.[421] Gwnaeth y sylw a ganlyn o ran y rhaglen Cartrefi Cynnes:

> "… *the Warm Homes programme has beenvery slow to come into fruition and is at a much smaller scale than we would like. I think we did a back-of-the-envelope calculation that estimated that it will take about 400 years for households in fuel poverty to be covered by that programme. So, while it is right to try to move away from a scheme in which you're subsidising people to burn fossil fuels, what we don't see is enough of a scale of an alternative of insulation and different means of energy production.*"[422]

**364.** Pwysleisiodd Sefydliad Bevan fod byw mewn cartref oer, llaith yn cyfrannu at salwch anadlol, ac iechyd meddwl gwael, ac felly ei bod yn synnwyr economaidd da gwario ar raglen effeithlonrwydd ynni i atal tlodi a lleihau'r galw ar y gwasanaeth iechyd.[423]

**365.** Cytunodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru/Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru fod angen i'r rhaglen Cartrefi Clyd gael ei chyflwyno fel mater o frys ar raddfa fwy na'r hyn yr ydym yn ei weld ar hyn o bryd.[424] O safbwynt cydraddoldeb, ychwanegodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru/Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru y canlynol:

> "… *we know that women, and especially mothers, are a lot of the time the shock absorbers of poverty. So, when it comes to making those incredibly heartbreaking decisions between food*

[420] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno, Gorffennaf 2023, tudalen 42
[421] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 281
[422] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 281
[423] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 284
[424] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 283

> *and heating, it is, a lot of the time, women who are going to make them, and to their own detriment.”*[425]

## Tai a digartrefedd

**366.** Mae’r Gyllideb Ddrafft yn nodi ei bod wedi “diogelu’r” Grant Cymorth Tai, yn ogystal â chynnydd o £2 filiwn yn y Gyllideb Atal Digartrefedd, a oedd i fod i gynyddu £5 miliwn yn nyraniadau dangosol 2024-25.[426]

**367.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> *“… the housing support grant has been protected at £166.7 million. I appreciate that's less than the sector would wish. They would be very keen to see an increase. But, as I set out at the start, the particular grant did see a significant increase at the start of the spending review period. We absolutely recognise the huge pressures on that service, though. We have provided an uplift of £2 million to the homelessness prevention budget. We had hoped to be able to uplift that budget by £5 million, but we've only now been able to uplift it by £2 million. But it does show an increase nonetheless.”*[427]

**368.** Yn ôl Sefydliad Bevan, mae yna argyfwng digartrefedd ar hyn o bryd, oherwydd galw digynsail a phrinder dybryd yn y cyflenwad tai. Dywedodd fod y Grant Cymorth Tai yn rhwyd ddiogelwch wirioneddol bwysig. Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *“Again, it's another example of needing both to meet the crisis demand but also, in the long term, the answer lies in more secure tenancies and also a greater supply of housing that's genuinely affordable.”*[428]

**369.** Cytunodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru/Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru fod y grant yn “rhwyd ddiogelwch hollol hanfodol i rai o’r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas.[429] Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *“… these services are critical, especially for women who are at risk of homelessness or are fleeing domestic abuse. Welsh*

[425] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 283
[426] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 45
[427] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 20 Rhagfyr 2023, paragraff 174
[428] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 320
[429] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 318

> *Women's Aid have observed that a lack of a secure home is often the biggest barrier to leaving abusive relationships, so the housing support grant has really been a massive help in tackling that barrier, by funding refuges and other safe forms of accommodation, and the collapse of these services would be highly detrimental. Without safe alternative accommodation, survivors of violence would be forced to remain in abusive situations a lot of the time, and that would be endangering their safety, their well-being and recovery, with all the associated long-term costs that we would expect to see from that. So, the effect of the intensive inflationary pressures that we're seeing, as well as increases in demand—the support is still there, but the level of funding has not been increased to account for that, so that is highly regrettable and very worrying from a gender equality perspective."*[430]

## Barn y Pwyllgor

**370.** Fel y nodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y penderfyniadau anodd y bu'n rhaid i'r Gweinidog eu gwneud wrth lunio'r gyllideb hon, ac yn derbyn bod sefyllfa gwariant Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn arbennig o anodd cynnal a gwella cymorth ar gyfer rhai mentrau a chynlluniau o fewn y ei Chyllideb Ddrafft. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud dewisiadau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer y GIG a Thrafnidiaeth Cymru dros fesurau eraill yn y gyllideb hon, sydd wedi cael effaith sylweddol ar y gwasanaethau cymorth y gall eu darparu i liniaru'r pwysau presennol a deimlir gan aelwydydd.

**371.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn bod pobl ar incwm isel, gan gynnwys aelwydydd sy'n gweithio, yn mynd i galedi difrifol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw parhaus. Y neges gyffredinol gan dystion yw na fu unrhyw leddfu ar yr argyfwng, yn enwedig o ystyried nad yw cymorth a oedd ar gael mewn blynyddoedd blaenorol, megis y taliad costau byw a'r cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, ar gael mwyach i'r rheini sydd mewn angen dirfawr. Rydym yn bryderus iawn mai'r meysydd gwariant sy'n atal tlodi ac anghydraddoldeb yw'r meysydd hynny sydd wedi gweld rhai o'r toriadau mwyaf yn y Gyllideb Ddrafft hon.

**372.** Mae'r Pwyllgor yn nodi gwaith Grŵp Arbenigol Cymru a sefydlwyd i gynghori Llywodraeth Cymru ar gamau y gellid eu cymryd i liniaru effaith yr argyfwng

---

[430] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024, paragraff 318

costau byw yng Nghymru. Rydym yn hynod siomedig bod tystion wedi ei chael yn anodd gweld sut y mae gwaith y Grŵp wedi effeithio ar flaenoriaethau gwariant a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru. At hynny, clywsom nad oedd holl argymhellion y Grŵp yn cynnwys gwariant sylweddol, ac roedd y rhai a oedd yn cynnwys gwariant sylweddol yn dangos y byddai yna arbedion hirdymor. Rydym yn nodi'r datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a gyhoeddwyd ar 23 Ionawr, sef, os bydd y sefyllfa gyllido'n newid, y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio hyfywedd yr argymhellion. Dyma annog y Gweinidog i barhau i adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd.[431]

**373.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gymhellol mai menywod sy'n wynebu baich yr argyfwng costau byw, a'u bod yn aml yn gwneud penderfyniadau torcalonnus o ran gwresogi a bwyta er anfantais iddynt eu hunain. Yn ystod digwyddiad cyn-ymgysylltu'r Pwyllgor i randdeiliaid, clywodd yr Aelodau fod yr argyfwng costau byw yn cael effaith anghymesur ar fenywod, sydd hefyd yn gwaethygu problemau cymdeithasol, yn enwedig cam-drin yn erbyn menywod a merched, a'r rhai heb hawl i arian cyhoeddus.[432] Er ein bod yn cydnabod y penderfyniadau anodd y mae angen i Lywodraeth Cymru eu gwneud i fynd i'r afael â'r materion uniongyrchol drwy wariant argyfwng, rydym yn annog y Gweinidog i ddeall yr effaith y bydd ei phenderfyniadau'n ei chael ar fenywod, ac o ran buddsoddi mewn camau ataliol hirdymor sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldeb.

**374.** Ar adeg cymryd tystiolaeth, nid oedd Siarter Budd-daliadau Cymru wedi'i rhoi ar waith. Cyhoeddwyd lansiad y Siarter wedi hynny, ar 22 Ionawr 2024.[433] Ar ôl argymell yn flaenorol[434] y dylid cyflymu proses unedig o wneud cais, drwy Siarter, rydym yn falch ei bod wedi dwyn ffrwyth o'r diwedd. Yn ystod y gwaith craffu, clywsom y gallai fod yn "wirfoddol i awdurdodau lleol" gynnwys eu cynlluniau grantiau a chymorth ariannol i ddechrau. Ers lansio'r Siarter, rydym yn falch o gael cadarnhad ei bod wedi'i mabwysiadu gan bob un o'r 22 awdurdod lleol.[435] Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymagwedd gyfunol hon ac o'r farn bod hwn yn gam cadarnhaol i sicrhau bod system gydlynol o gymorth ar gael i'r rheini sydd â'r angen mwyaf. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynllun, ac mae'n annog y gwaith hwn i barhau'n

[431] Llywodraeth Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw
[432] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Ymgysylltu, Gorffennaf 2023, tudalen 14
[433] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Lansio Siarter Budd-daliadau Cymru
[434] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 (Argymhelliad 17)
[435] Llywodraeth Cymru: Siarter Budd-daliadau Cymru, Ionawr 2024

gyflym, yn enwedig o ystyried y pwysau parhaus a chynyddol y mae aelwydydd yn ei wynebu.

**375.** Mae'r Pwyllgor yn falch bod y Gronfa Cymorth Dewisol wedi'i chynnal, sydd wedi atal caledi i nifer o bobl. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth i ddweud bod diffyg data cyhoeddedig ar geisiadau, ac mae o'r farn bod angen sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael am nifer y ceisiadau llwyddiannus a gyflwynwyd. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad yn ôl rhywedd er mwyn deall yn well y gwahaniaethau o ran y galw. At hynny, mynegwyd pryderon ynghylch y taliad presennol ar lefel aelwyd o'r gronfa gan y gallai hyn fod yn effeithio ar annibyniaeth ariannol menywod a'u gwneud yn fwy agored i gamdriniaeth ariannol, yn enwedig y rheini sy'n cael eu cam-drin o fewn perthynas.

**376.** Mae'r Pwyllgor wedi galw'n flaenorol am adolygiad o'r model gofal plant am ddim presennol er mwyn asesu ei effeithiolrwydd ac annog ei ehangu ymhellach,[436] o ystyried y pwysau ariannol sylweddol ar aelwydydd, yn enwedig incwm menywod. Rydym, felly, yn synnu bod £11.2 miliwn o gyllid ar gyfer gofal plant yn cael ei ail-flaenoriaethu ar sail y rhagolygon diweddaraf o ran galw. Rydym yn pryderu, yn hytrach na bod gostyngiad yn y galw, mai'r ffordd y mae'r cymorth yn cael ei hyrwyddo a'i ddarparu yw'r broblem. Rydym yn croesawu'r £250,000 sy'n cael ei ddarparu ar gyfer cynllun cyfathrebu strategol i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun, a'n gobaith yw y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y galw. Fodd bynnag, bydd cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio'r cynllun yn arwain at danariannu'r gyllideb gofal plant yn sylweddol, ac yn creu pwysau ychwanegol mewn mannau eraill yn y gyllideb, sy'n peri pryder mawr. At hynny, mae rhieni'n wynebu nifer o heriau a bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth gofal plant, gan gynnwys methu â chael mynediad at ofal plant ar yr adegau ac yn y llefydd lle mae angen. At hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'r 30 awr o ofal plant am ddim ar hyn o bryd yn ddigonol ar gyfer cyflogaeth amser llawn, sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a'u potensial i ennill cyflog hirdymor yn y dyfodol.

**377.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryder a godwyd ynghylch y trothwyon cymhwystra a gwerth Grant Dysgu Llywodraeth Cymru. Y llynedd, gwnaethom argymell adolygiad o drothwyon cymhwystra y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, a chynyddu ei werth.[437] Rydym yn hynod falch fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn hyn ac y bu cynnydd, sy'n gynllun cymorth allweddol i ddysgwyr ifanc. Rydym o'r farn bod y Grant Dysgu yr un mor bwysig i sicrhau cymorth ariannol i oedolion sy'n dysgu, ac i

[436] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 (Argymhelliad 19)
[437] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 Argymhelliad 20

annog mwy o bobl i barhau â'u haddysg. Mae'r Pwyllgor, felly, o'r farn y dylid cynnal adolygiad tebyg o'r Grant Dysgu, a chodi'r gyfradd bresennol.

**378.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y trothwy cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn ysgolion wedi'i rewi ers 2019. At hynny, clywsom y byddai estyn cymhwystra mewn ysgolion uwchradd ar gyfer plant y mae eu rhieni'n cael Credyd Cynhwysol, yn gost gymharol fechan. Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n gryf fod darparu pryd maethlon i ddisgyblion ysgolion uwchradd yn bwysig i fynd i'r afael â phroblemau hirdymor tlodi ac iechyd gwael, a dyma alw ar y Gweinidog i adolygu'r maes hwn o'r gyllideb i weld a ellid estyn y cynllun.

**379.** Mae'n siomedig bod y cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf wedi'i ddirwyn i ben, gan fod y cynllun wedi darparu rhyddhad tymor byr i aelwydydd incwm isel neu gartrefi ag effeithlonrwydd ynni isel. At hynny, mae'n destun gofid mawr clywed bod y rhaglen Cartrefi Cynnes wedi bod yn araf iawn i ddwyn ffrwyth. Dyma ailddatgan yr un farn ag y gwnaethom y llynedd, sef bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r rhaglen Cartrefi Clyd ar fyrder, ac yn ystyried datblygu cynllun newydd i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, ac atal pobl sy'n agored i niwed rhag mynd i dlodi tanwydd.[438]

**380.** Rydym yn pryderu am yr argyfwng digartrefedd a'r effeithiau andwyol a gaiff hyn ar iechyd a llesiant pobl. Er ein bod yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi "diogelu'r" Grant Cymorth Tai, rydym yn siomedig mai dim ond £2 filiwn y mae'r Gyllideb Atal Digartrefedd wedi'i chynyddu, yn hytrach na £5 miliwn fel y cynhwyswyd yn flaenorol yn nyraniadau dangosol 2024-25. Unwaith eto, er bod y Grant yn cynnig rhwyd ddiogelwch i fynd i'r afael â'r galw mewn argyfwng, mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu atebion hirdymor ar fyrder i fynd i'r afael â'r galw digynsail a phrinder dybryd yn y cyflenwad tai, drwy dai fforddiadwy.

**Argymhelliad 32.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn darparu amserlen ar gyfer rhoi Siarter Budd-daliadau Cymru ar waith; ac
- yn cyhoeddi cynllun gweithredu i sicrhau bod pecyn cyson o grantiau a chynlluniau cymorth ariannol yn cael ei ddarparu, yn unol ag amcanion y Siarter.

[438] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 Argymhelliad 21

**Argymhelliad 33.** Mewn perthynas â'r Gronfa Cymorth Dewisol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn cyhoeddi gwybodaeth am nifer y ceisiadau a gyflwynwyd a nifer y ceisiadau llwyddiannus, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl rhywedd; ac
- yn adolygu'r broses o wneud taliadau i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

**Argymhelliad 34.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn adolygu trothwyon cymhwystra Grant Dysgu Llywodraeth Cymru; ac
- yn ystyried cynyddu gwerth y Grant.

**Argymhelliad 35.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r trothwy cymhwystra ar gyfer cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd, gyda'r bwriad o'i estyn i blant y mae eu rhieni'n cael Credyd Cynhwysol.

**Argymhelliad 36.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog adolygu'r model gofal plant:

- i asesu ei effeithiolrwydd ac i sicrhau ei fod yn galluogi rhieni i gael cyflogaeth amser llawn; ac
- i sicrhau ei fod yn darparu cymorth digonol i fenywod gael mynediad at addysg bellach ac uwch.

**Argymhelliad 37.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am yr effaith y gallai cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar ofal plant ei chael ar feysydd eraill o'r gyllideb, a'r camau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i liniaru'r risgiau hynny.

**Argymhelliad 38.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r broses o gyflwyno'r rhaglen Cartrefi Clyd i sicrhau ei bod yn cyrraedd y rhai mewn angen cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 39.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r dyraniadau a ddarparwyd ar gyfer cyflenwi a datblygu tai fforddiadwy sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft.

# Atodiad 1: Rhestr o Sesiynau Tystiolaeth Lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 20 Rhagfyr 2023 | **Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth**<br>Llywodraeth Cymru |
| 10 Ionawr 2024 | **Richard Hughes, Cadeirydd**<br>y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>**Yr Athro David Miles, Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol**<br>y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>**Tom Josephs, Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol**<br>y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>**David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt**<br>y Sefydliad Astudiaethau Cyllid<br>**Dr Ed Poole, Uwch Ddarlithydd**<br>Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru)<br>**Guto Ifan, Darlithydd**<br>Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru)<br>**Jessica Laimann**<br>Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus yn y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod<br>**Victoria Winckler, Cyfarwyddwr**<br>Sefydliad Bevan |
| 18 Ionawr 2024 | **Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**<br>Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>**Jacob Ellis, Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Allanol a Diwylliant**<br>Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Rhiannon Hardiman, Arweinydd Polisi, Natur a Newid Hinsawdd, yr Economi a Pholisi Bwyd**<br>Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>**Sally May, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chadeirydd Grŵp Cymheiriaid Cyfarwyddwyr Cyllid**<br>Cynrychiolydd o Gonffederasiwn GIG Cymru<br>**Darren Hughes, Cyfarwyddwr**<br>Conffederasiwn GIG Cymru<br>**Lance Carver, Is-lywydd**<br>Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg<br>**Carys Lord, Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**<br>Cynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru<br>**Y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Llefarydd Cyllid ac Adnoddau)<br>**Y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd, Cyngor Sir Ynys Môn**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Llefarydd Cyllid ac Adnoddau)<br>**Y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, Arweinydd, Cyngor Sir Fynwy**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Llefarydd Cyllid ac Adnoddau)<br>**Y Cynghorydd Mark Pritchard, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Llefarydd Cyllid ac Adnoddau)<br>**Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **WGDB_24-25 01** | Sefydliad y Peirianwyr Sifil |
| **WGBD_24-25 02** | Cynghrair Canser Cymru |
| **WGDB_25-25 03** | Consortiwm Manwerthu Cymru |
| **WGDB_25-25 04** | Fferylliaeth Gymunedol Cymru |
| **WGDB_24-25 05** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| **WGDB_24-25 06** | Cymdeithas Ddysgedig Cymru |
| **WGDB_24-25 07** | Cymdeithas Alzheimer Cymru |
| **WGDB_24-25 08** | Llamau |
| **WGDB_24-25 09** | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| **WGDB_24-25 10** | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru |
| **WGDB_24-25 11** | Gorwel |
| **WGDB_24-25 12** | Sefydliad Banc Lloyds |
| **WGDB_24-25 13** | Y Brifysgol Agored |
| **WGDB_24-25 14** | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| **WGDB_24-25 15** | Sustrans Cymru |
| **WGDB_24-25 16** | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **WGDB_24-25 17** | Sefydliad Tai Siartredig Cymru |
| **WGDB_24-25 18** | Y Sefydliad Iechyd Meddwl |
| **WGDB_24-25 19** | Cwmpas |
| **WGDB_24-25 20** | Grŵp Cyllideb Menywod Cymru<br>Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **WGDB-24-25 21** | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol |
| **WGDB-24-25 22** | Prifysgolion Cymru |
| **WGDB_24-25 23** | Cymorth i Ferched Cymru |
| **WGDB_24-25 24** | Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| **WGDB-24-25 25** | Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru |
| **WGDB_24-25 26** | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| **WGDB_24-25 27** | Colegau Cymru |
| **WGDB_24-25 28** | Gofal a Thrwsio Cymru |
| **WGDB_24-25 29** | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| **WGDB_24-25 30** | RSPB Cymru |
| **WGDB_24-25 31** | Barnardo's Cymru |
| **WGDB_24-25 32** | Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru |
| **WGDB_24-25 33** | Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru |
| **WGDB_24-25 34** | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| **WGDB_24-25 35** | Marie Curie |
| **WGDB_24-25 36** | Unigolyn |
| **WGDB_24-25 37** | Age Cymru |
| **WGDB_24-25 38** | (Plant yng Nghymru)<br>Barnardo's Cymru, Achub y Plant Cymru, NSPCC Cymru, Home-Start Cymru, Cymdeithas y Plant, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, TGP Cymru a Gweithredu dros Blant Cymru |
| **WGDB_24-25 39** | Clinks |
| **WGDB_24-25 40** | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **WGDB_24-25 41** | Platfform |
| **WGDB_24-25 42** | Conffederasiwn GIG Cymru |
| **WGDB_24-25 43** | Oxfam Cymru |
| **WGDB_24-25 44** | Back the Bill Partners<br>(Tai Pawb, CIH Cymru a Shelter Cymru) |
| **WGDB_24-25 45** | Y Ffederasiwn Busnesau Bach |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **WGDB_24-25 46** | Chwaraeon Cymru |
| **WGDB_24-25 47** | Cymorth Cymru |
| **WGDB_24-25 48** | Seicolegwyr dros Newid Cymdeithasol |
| **WGDB_25-24 49** | Sefydliad Bevan |
| **WGDB_24-25 50** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| **WGDB_24-25 51** | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| **WGDB_24-25 52** | Comisiynydd y Gymraeg |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Anabledd Cymru | 15 Rhagfyr 2023 |
| Cyngor ar Bopeth Cymru | 10 Ionawr 2024 |
| Auditory Verbal UK | 10 Ionawr 2024 |
| Cyswllt Amgylchedd Cymru | 19 Ionawr 2024 |